

# Crynodeb o'r ymatebion

Baratowyd gan Miller Research Ltd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru

## Tabl cynnwys

Crynodeb .....	i
1. Cyflwyniad.....	1
2. Trosolwg o Ymatebion i'r Ymgynghoriad.....	3
3. Ymatebion Ymgyrchoedd .....	7
4. Rhaglen Rheoli Tir i Gymru: Cwestiynau 1-2 yr ymgynghoriad .....	15
5. Cynllun Cadernid Economaidd: Cwestiynau 3-7 yr Ymgynghoriad ...	29
6. Cynllun Nwyddau Cyhoeddus: Cwestiynau 8-15 yr Ymgynghoriad...	49
7. Pontio, Cyflawni a Deddfwriaeth: Cwestiynau 16-19 yr Ymgynghoriad .....	91
8. Sylwadau Pellach: Cwestiwn 20 yr ymgynghoriad .....	104
9. Sylwadau Ychwanegol o'r Ymatebion Cyffredinol .....	108
Atodiad A. Datganiadau Llawn yr Ymgyrchoedd.....	110
Atodiad B. Rhestr o Sefydliadau a Ymatebodd .....	123
Atodiad C. Ymgynghoriad - Crynodeb o ymatebion ynghylch Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).....	133

## Crynodeb

- i. Ar 10 Gorffennaf 2018, fe wnaeth y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gyhoeddi'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ynghylch sut roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau i gefnogi rheolwyr tir ar ôl Brexit. Roedd y ddogfen yn nodi cynigion ar gyfer cyfnod pontio dros sawl blwyddyn, wedi'i gynllunio, ac yn ceisio barn ynghylch:
  - Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus.
  - Sut y dylid llunio'r cynlluniau penodol a fydd yn darparu'r cymorth.
- ii. Roedd y papur yn esbonio'r achos dros newid a'r sail roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau arni er mwyn parhau i gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit. Fe wnaeth yr ymgynghoriad gychwyn y broses o lunio rhaglenni, er y bydd ymgynghori pellach a chydweithio â rhanddeiliaid yn cael ei wneud i ddatblygu'r Rhaglen Rheoli Tir newydd.
- iii. Law yn llaw â'r brif Ddogfen Ymgynghori, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Daflen Gryno ac mewn partneriaeth â Cyswllt Ffermio, cynhaliodd naw cyfarfod agored ar yr ymgynghoriad.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

- iv. Cyflwynwyd cyfanswm o 12,203 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r ymatebion hyn, cyflwynwyd 11,160 o ymatebion gan ymgyrchoedd a gyflwynwyd gan saith ymgyrch unigryw. Roedd 1,043 o ymatebion penodol a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, a hepgorwyd saith o'r rhain o'r dadansoddiad gan eu bod naill ai'n ddyblygiadau neu'n wag. Felly roedd 1,036 o ymatebion gwirioneddol ar ôl i'w dadansoddi yn yr Adroddiad Cryno hwn.
- v. Derbyniwyd ymatebion trwy dair prif sianel – y ffurflen ar-lein, drwy'r post ac e-bost.

## Ymatebion ymgyrchoedd

- vi. Roedd y barnau a gafodd eu cyfleu gan ddatganiadau'r ymgyrchoedd yn amrywio'n sylweddol. Roedd datganiadau'r ymgyrchoedd gan undebau ffermio yn gwrthwynebu'r cynigion yn gryf, gan eu bod yn codi pryderon difrifol ynghylch yr heriau y bydd y sector ffermio yn eu hwynebu yn sgil Brexit, pe gweithredid y Rhaglen Rheoli Tir arfaethedig. Roedd y 3,221 o ymatebion ymgyrch a dderbyniwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru'n ymwrthod â'r cynigion yn llwyr. Y farn oedd y byddai'n 'anghywir' disodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol gan y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd y 2,846 o ymatebion ymgyrch gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru yn deillio o bryder, yn sgil yr ansicrwydd ynghylch ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Yn ôl y datganiad ymgyrch, heb wybod natur cysylltiadau masnach yn y dyfodol na'r tirwedd rheoleiddio, roedd yn anodd gwybod beth fydd ei angen ar fusnesau i Lywodraeth Cymru ddarparu ar eu cyfer. Er gwaethaf pryderon bod y cynigion yn gynamserol, fe wnaeth NFU Cymru nodi wyth o feysydd roedd yn bwysig canolbwyntio arnynt yn eu barn hwy, fel yr amlinellir yn Adran 3.
- vii. Roedd datganiadau ymgyrch gan y Gronfa Natur Fyd-eang (WWF), y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB) ac Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn cefnogi cynigion yn yr ymgyngoriad ac yn rhoi anogaeth gref i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd y rhesymau dros eu barn yn ymwneud â'r cyfle mae'r Cynllun Nwyddau Arfaethedig yn ei gynnig i adfer natur a gwella'r amgylchedd.
- viii. Derbyniodd y WWF 2,166 o ymatebion i'w hymgyrch. Roedd y datganiad ymgyrch yn gweld y Rhaglen Rheoli Tir newydd yn gyfle i wella'r amgylchedd naturiol trwy reolaeth cynaliadwy o dir, gyda chefnogaeth y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd y datganiad ymgyrch yn amlinellu'r manteision i'r amgylchedd, gyda'r farn "heb amgylchedd iach a chadarn, ni fydd gennym economi a chymdeithas sy'n gynaliadwy ac yn gallu cyflawni llesiant ehangach".

- ix. Derbyniodd yr RSPB 1,490 o ymatebion i'w hymgyrch. Roedd y mudiad yn llawn angerdd dros amddiffyn natur a'r amgylchedd drwy'r holl ddatganiad ymgyrch, gyda'r farn fod adfer natur yn hanfodol. Roedd yr ymatebion yn cydnabod "os yw ein hamgylchedd yn gadarn, mae ein heconomi, iechyd a llesiant yn gadarn hefyd", ac felly'n fuddiol i holl bobl Cymru. Roedd yr RSPB yn dweud bod yn rhaid i'r rhaglen Rheoli Tir ddefnyddio arian cyhoeddus i "helpu ffermwyr a rheolwyr tir:
- i reoli'r tir yn gynaliadwy,
  - adfer natur a bywyd gwylt, a
  - darparu buddion amhrisiadwy mae pawb ohonom yn eu cymryd yn ganiatol, fel aer a dŵr glân".
- x. Roedd y 1,308 o ymatebion ymgyrch gan Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn disgrifio'r Rhaglen Rheoli Tir newydd fel "cyfle unwaith mewn oes i ddatrys y problemau mae polisïau'r gorffennol wedi'u creu". Nod amlycaf yr ymatebion hyn oedd dangos eu cefnogaeth i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.
- xi. Yn ogystal, cyflwynwyd 111 o ymatebion i ymgyrch gan Ramblers Cymru a oedd yn llwyr gefnogi'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus a derbyniwyd 18 o ymatebion i ymgyrch gan Gymdeithas Ceffylau Prydain. Gweler [Adran 3](#) am fanylion pellach.
- Ymateb cyffredinol i'r Rhaglen Rheoli Tir newydd
- xii. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr uniongyrchol yn amlach na pheidio yn codi pryderon ynghylch y cynlluniau arfaethedig, a oedd efallai'n adlewyrchu'r gyfran uchel o ymatebion o fyd ffermio. Yn yr un modd, roedd dileu'r Cynllun Taliad Sylfaenol heb ddim i gymryd ei le yn rhywbeth a oedd yn cael ei ofni'n gyffredinol gan ymatebwyr, a oedd yn cydnabod pwysigrwydd y taliadau hyn i hyfywedd ffermio a gallu rheolwyr tir i gynnal bywoliaeth. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylid cadw rhyw ffurf o daliad sylfaenol, efallai trwy drydydd cynllun i ategu'r cynlluniau cadernid economaidd a nwyddau cyhoeddus.

- xiii. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol fod yn rhaid i ffermio a chynhyrchu bwyd fod yn rhan greiddiol o bolisi amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol, a bod yn rhaid iddo chwarae rhan llawer mwy yn y cynlluniau arfaethedig. Roedd cefnogaeth gyson i gynnwys cynhyrchu bwyd o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus oherwydd canfyddiadau o lawer o oblygiadau negyddol o'i hepgor. Roedd llawer o ymatebwyr yn nodi rôl cynhyrchu bwyd cynaliadwy wrth gefnogi'r amgylchedd ac felly'n annog cynllun nad oedd yn gosod cynhyrchu bwyd a'r amgylchedd benben â'i gilydd lle'r oedd y naill ar draul y llall.
- xiv. Roedd dryswch a gwrthwynebiad cyson ynghylch diffiniad yr ymgynghoriad o reolwr tir. Roedd ar ymatebwyr angen eglurder ynghylch a fyddai'r ffermwr yn derbyn unrhyw fudd ariannol, yn hytrach na'r tiffeddiannwr gan eu bod yn ansicr pwy mewn gwirionedd fyddai'r sawl a ddiffinnir fel rheolwr tir. Roedd pryderon cyson ynghylch y risg posibl i ffermwr tenant yn annog galwadau ar i gyllid gael ei ddyrannu i ffermwr gweithredol. Roedd y diffiniad o reolwr tir yn yr ymgynghoriad yn cael ei weld hefyd fel rhywbeth a oedd yn bychanu rôl ffermydd a ffermwr wrth gynnal cymunedau ac economi wledig Cymru.
- xv. Yn ogystal, roedd ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 1 yn ymdrin â'r amgylchedd a lles bywyd gwyllt. Roedd llawer o ymatebwyr yn cynnig strategaethau i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol. Roedd ychydig o ymatebwyr yn awgrymu y dylid rhoi gwasanaethau cyhoeddus yn gyntaf, ac mai darparu gwasanaethau ecosystemau ddylai fod y flaenoriaeth i'r rheolwr tir yn hytrach na thaliad i ffermwr ar dir llai hyfyw yn economaidd.
- xvi. Roedd ymatebwyr yn dadlau dros ddatblygu cynllun cyfunol sy'n cynnwys cadernid economaidd a nwyddau cyhoeddus cynaliadwy. Gwelir cyfle i gysylltu buddsoddiadau mewn cynhyrchiant ac iddo bwyslais amgylcheddol ehangach, ac felly rhaid i'r ddau gynllun arfaethedig fod yn gydnaws â'i gilydd, gyda'r naill yn atgyfnerthu'r llall. Y teimlad oedd y gallai'r dull dau-gynllun arfaethedig gefnogi parhad ffermio sy'n ddinistriol i'r amgylchedd ochr yn ochr â phocedi o dir sy'n

canolbwyntio'n gyfan gwbl ar wella'r amgylchedd. Roedd ymatebwyr yn dweud y gallai'r rhaniad hwn greu'r posibilrwydd o rwystr rhag cyflawni buddion lluosog ar draws tirwedd.

- xvii. Fe wnaeth yr ansicrwydd yn y sefyllfa wleidyddol bresennol beri i ymatebwyr ddadlau'n gyson dros ohirio datblygu polisi a gwneud penderfyniadau hyd nes bydd yr hinsawdd ar ôl Brexit yn eglur.

Ymatebion uniongyrchol yn ôl cwestiynau

Cwestiwn 2

- xviii. Roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai ffermwyr gweithredol dderbyn buddion a chefnogaeth i reoli'r tir ac felly rhaid i unrhyw gynllun newydd fod ar gael yn benodol i ffermwyr sy'n denantiaid. Er mwyn sicrhau bod gan y ffermwr tenant fynediad cyfartal at y cynlluniau hyn mae'n hanfodol bod y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud:

- Newidiadau sylweddol i gyfraith tenantiaeth er mwyn caniatáu mynediad cyfartal at gynlluniau.
- Dylid gweithredu isafswm hyd tenantiaeth i bob tir fel bod tenantiaid yn gymwys ar gyfer y cynlluniau a bod ganddynt sicrwydd incwm.
- Trefniadau diwygio lesdaliadau ffermydd er mwyn cynnig amddiffyniad ychwanegol i denantiaid presennol ac annog tenantiaethau ffermydd yn y dyfodol.

Cwestiwn 3

- xix. Er mwyn i gynlluniau weithio'n dda yn y dyfodol, mae'n hanfodol eu bod yn addas ac yn syml fel yr awgrymwyd gan ymatebwyr. Rhaid iddynt fod o fudd i bob ffermwr, darparu lefel sylfaenol o gymorth a chael eu gweinyddu'n glir. Roedd uchafsymiau cymorthdal yn cael eu cynnig gan ymatebwyr fel dull o sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol ac nad yw taliadau'n gwobrwyo tiffeddiannwyr mawr mewn modd anghymesur. Roedd lleiafrif o'r rheini a ymatebodd yn anghytuno, gan fod arnynt eisiau gweld uchafsymiau taliadau'n cael

eu lleihau a chymorthdaliadau'n cael eu cysylltu'n ôl â chynhyrchu ac o bosibl yn canolbwyntio ar gynhyrchiant yr hectar.

- xx. Roedd ymatebwyr yn asesu'r cynllun Glastir â barnau cymysg ac yn argymhell y dylid dysgu gwersi o gynlluniau presennol.

#### Cwestiwn 4

- xxi. Roedd cyfyngu cymorth i'r rheolwr tir yn unig yn cael ei weld fel y ffordd fwyaf effeithol o greu cadernid economaidd. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffordd mae rheolwyr tir ar drugaredd ffactorau allanol fel grymoedd y farchnad, lle barnwyd bod gan fusnesau cadwyni cyflenwi y gallu i wneud elw i liniaru'r risg.

- xxii. Teimlai ymatebwyr fod angen mwy o gymorth i rannau o'r gadwyn gyflenwi, ond y dylai unrhyw gymorth fod yn gyfyngedig. Roedd awydd penodol o fewn yr ymatebion hyn i gymryd camau i fyrhau'r cadwyni cyflenwi a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol.

- xxiii. Roedd rhai o'r ymatebion yn mynegi'r farn y byddai dull cyfannol yn fwy effeithiol, ac y dylai cymorth fod ar gael drwy'r holl gadwyn gyflenwi. Roedd nifer bach o ymatebwyr yn nodi'r angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo bwyd Cymreig a datblygu diwylliant bwyd ffyniannus yng Nghymru. Roedd ymatebwyr yn galw am reoleiddio'r farchnad.

#### Cwestiwn 5

- xxiv. Roedd cynnwys Maes 1: Cynyddu Potensial y Farchnad yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Roedd cynnal cysylltiadau masnachol presennol yr Undeb Ewropeaidd a datblygu cysylltiadau masnachol rhyngwladol yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol i gystadleurwydd y sector amaethyddol. Law yn llaw â hyn, mae angen tyfu'r farchnad ddomestig am fwyd a diod Cymreig.

- xxv. Rhaid i'r symudiad i Faes 2: Gwellu Cynhyrchiant gyd-ddigwydd ag arferion cynaliadwy. Rhaid i Lywodraeth Cymru lwyr ddeall y rhwystrau a'r galluogwyr presennol mae ffermwyr yn eu hwynebu er mwyn helpu sicrhau mwy o gynhyrchiant.



- xxvi. Roedd cynnig Maes 3: Arallgyfeirio, yn achosi nifer o bryderon. Un o'r rhain oedd fod llawer o ffermwyr eisoes wedi arallgyfeirio, gyda marchnadoedd o'r fath yn dod yn gynyddol orlawn ac felly heb fod yn gadael fawr o le i fwy o ffermwyr weithredu. Yn ogystal, roedd arallgyfeirio'n cael ei weld fel rhywbeth ac iddo risg uchel, a oedd yn peri ymatebwyr i bwysu am ddyrannu cymorth ariannol i unrhyw fferm sy'n arallgyfeirio.
- xxvii. Y brif farn ynghylch Maes 4: Rheoli Risg yn Effeithiol oedd bod Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn ddull effeithiol o reoli risg, gydag awgrymiadau y dylai'r taliadau barhau.
- xxviii. Roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai Maes 5: Cyfnewid Gwybodaeth, Sgiliau ac Arloesi fod yn flaenoriaeth ar gyfer y ffordd ymlaen ac yn dylid targedu newydd-ddyfodiaid iau newydd yn benodol o fewn y maes hwn.
- xxix. Yn gyffredinol, roedd y pum maes yn cael eu gweld fel rhai rhy "amwys", gyda galwadau am fwy o fanylder.
- xxx. Roedd hefyd rywfaint o argymhellion holistaidd ynghylch arferion amgylcheddol a chynaliadwyedd, gan gynnwys hyrwyddo garddwriaeth uwchlaw ffermio anifeiliaid, hyrwyddo ynni adnewyddadwy, iechyd y pridd, systemau dŵr, tir a neilltuir ar gyfer blodau gwyllt a gwenynau, ac y dylai'r meysydd gael eu cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

#### Cwestiwn 6

- xxxi. Y farn gyffredinol oedd mai Maes 1: Cynyddu Potensial y Farchnad, a Maes 2: Gwella Cynhyrchiant, ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer unrhyw gynllun yn y dyfodol. Dylai Maes 1 fod yn flaenoriaeth yn wyneb ansicrwydd ynghylch y berthynas fasnachu ansicr yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd a phartneriaid masnachu eraill byd-eang. Dylai cynnydd mewn cynhyrchiant fod yn gysylltiedig â chynnydd ym mhotensial y farchnad, neu ddilyn hynny, gan fod cynnydd mewn cynhyrchiant bwyd yn bwysig er mwyn diwallu galw byd-eang. Roedd Maes 4: Rheoli Risg yn Effeithiol yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel

blaenoriaeth uwch na Maes 3, ond yn flaenoriaeth is na Meysydd 1 a 2. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr a oedd yn crybwyll rheoli risg yn pwysleisio'r angen i gadw'r taliadau BPS fel ffordd o liniaru anwadalwch y farchnad.

xxxii. Roedd rhai ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn awgrymu gwahanol flaenoriaethau i'r pum maes. Barn amlwg (gyda rhai barnau'n cyfeirio at Reoli Risg) oedd yr angen i gynnal naill ai taliadau BPS ar sail hirdymor / parhaol, neu rhyw ffurf arall o incwm ar gyfer ffermwyr. Roedd barn amlwg arall yn awgrymu y dylai'r amgylchedd fod yn flaenoriaeth uchel i'r cynllun, er enghraifft trwy hyrwyddo pori cynaliadwy, yr economi gylchol, lleihau defnydd cemegion amaethyddol, a chysoni â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

#### Cwestiwn 7

xxxiii. Roedd syniadau ar gyfer buddsoddi a gynigiwyd gan ymatebwyr yn cynnwys chwe maes gwahanol: cenedlaethau'r dyfodol, cynlluniau, hyfforddiant, ysgolion, yr amgylchedd, a marchnata. Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr fod cenedlaethau iau neu genedlaethau'r dyfodol o ffermwyr o dan anfantais sylweddol o gymharu â'r rheini yn y diwydiant yn y gorffennol ac felly'n dadlau bod angen mwy o gefnogaeth ar lawr gwlad i'r rheini sy'n cychwyn yn y sector.

xxxiv. Roedd nifer bach o sylwadau'n cyfeirio'n benodol at yr amgylchedd, gan ddweud y dylai ffermwyr gael eu dangos fel "curadwyr a meithrinwyr y tirwedd", tra bod un arall yn awgrymu y dylai cadernid economaidd gael ei yrru gan arferion cynaliadwy.

#### Cwestiwn 8

xxxv. Barnwyd bod y cynigion a amlinellir o fewn Paramedr 1: cwmpas y cynllun yn rhy gyfyngol, gyda'r mwyafrif o ymatebwyr yn galw am restr lawnach o nwyddau cyhoeddus. Er i amrywiaeth o nwyddau cyhoeddus gael eu hawgrymu, roedd cynnwys cynhyrchu bwyd o fewn cwmpas y cynllun yn cael ei annog yn gyson. Fodd bynnag, roedd y nwyddau cyhoeddus a nodwyd o fewn yr ymgynghoriad yn derbyn cefnogaeth oherwydd y buddion lluosog y gallent ei gyflawni.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod gan warchod y pridd y gallu i roi'r sylfaen ar gyfer y nwyddau cyhoeddus eraill, yn benodol; datgarboneiddio, cynefinoedd gwydn, atal llifogydd ac ansawdd aer a dŵr.

- xxxvi. Roedd ymatebwyr yn rhannu pryderon ynghylch Paramedr 2: Agored i bawb ac yn rhannu'r farn gyffredinol y dylai'r contract nwyddau cyhoeddus fod yn cael ei wneud gyda'r ffermwr gweithredol. Roedd barn wahanol yn cytuno y dylid peri bod y cynllun ar gael i bawb.
- xxxvii. Roedd y cynnig o ddefnyddio dull gofodol o fewn Paramedr 3: Cyfleoedd i weithredu yn cael ei wrthwynebu gan ymatebwyr. Roedd ymatebwyr yn amau cywirdeb y dull a hefyd a oedd yn gyfoes. Roedd defnyddio swyddogion prosiect yn cael ei gefnogi'n gyson gan ymatebwyr fel dewis arall yn lle targedu gofodol.
- xxxviii. Paramedr 4: Roedd nwyddau cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn bwnc lle'r oedd anghytundeb ymhlith ymatebwyr. Teimlai rhai fod canolbwyntio ar ganlyniadau yn hanfodol ar gyfer newid gwirioneddol ac y dylid felly annog hynny. Roedd eraill yn gwrth-ddweud hyn trwy godi pryderon fod newidynnau allanol, yn enwedig y tywydd, yn ffactor sy'n llesteirio cyflawni canlyniadau a ragamcenir. Roedd yr anhawster o benderfynu gwerth yn cael ei godi'n gyson gan ymatebwyr. Roedd sicrhau gwerth am arian yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, oherwydd o'r blaen roedd asiantaethau statudol wedi bod heb ddull o fonitro a gorfodi, gan arwain at arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi heb ennill budd cyhoeddus.
- xxxix. Teimlai ymatebwyr yn gryf y dylai Paramedr 5: Ychwanegodd gydnabod, cynnal a gwobrwyo cyfraniadau presennol at yr amcanion. Ni ddylid defnyddio'r paramedr hwn i gosbi'r rheini sydd eisoes yn cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel.
- xl. Dylai darpariaeth Paramedr 6: Cyngor i reolwyr tir, ym marn ymatebwyr, fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Yn lle hynny, roedd defnyddio trydydd partïon, y rheolwyr tir eu hunain a swyddogion prosiect yn cael ei annog yn helaeth.

xli. Roedd newidiadau ychwanegol i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn cynnwys:

- y derminoleg
- y trefniadau rheoli
- cynigion mireinio er mwyn gweithredu o fewn ffiniau rheolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO).

xlii. Yn ogystal, dylid integreiddio'r cynlluniau Nwyddau Cyhoeddus a Chadernid Economaidd oherwydd roedd angen i ffermwyr weld y budd o reolaeth amgylcheddol i gynhyrchiant y fferm gyfan, a gefnogwyd gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cwestiwn 9

xliii. Roedd ymatebwyr yn annog yn gyson cynnwys incwm a gwobr, gan weld y ffactorau hyn fel rhai hanfodol er mwyn denu rheolwyr tir i gynllun newydd. Roedd cytundeb gyffredinol fod yn rhaid i'r cynllun hefyd fod yn deg, hygyrch a syml. Y prif welliant i gynigion, yn yr hyn a awgrymwyd gan ymatebwyr, oedd mwy o bwyslais ar gymorth i'r ffermwr gweithredol.

Cwestiwn 10

xliv. Cynhyrchu bwyd oedd y budd cyhoeddus ychwanegol a anogwyd fwyaf cyson gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Roedd mynediad, addysg, lles anifeiliaid, gwarchod y pridd, treftadaeth a rheolaeth amgylcheddol hefyd yn cael eu cefnogi gan ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad i gefnogi torri allyriadau, hyrwyddo ffynonellau cynaliadwy o ynni a chefnogi cymorth ar gyfer cerbydau trydan. Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y dylai nwyddau cyhoeddus gael eu hystyried yn gyntaf yn ôl eu heffaith ar gyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Roedd rhai ymatebwyr yn siomedig nad oedd iechyd a llesiant wedi'u cynnwys yn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd ymatebwyr yn cyfeirio at bwysigrwydd tirwedd hardd wrth gyflawni buddion iechyd lluosog i'r cyhoedd, gan ystyried hefyd y rôl mae

rheolwyr tir yn ei chwarae mewn gwasanaethau rhagnodi cymdeithasol.

#### Cwestiwn 11

- xliv. Roedd y posibilrwydd o allgáu ffermwyr tenant o'r cynllun yn sgil y contractau hirdymor arfaethedig yn bryder cyffredinol ymysg ymatebwyr. Roedd cyflwyno contractau trosglwyddadwy yn cael ei annog yn gyson fel ffordd o oresgyn y pryderon hyn. Y brif anfantais i'r contract hirdymor oedd yr ansicrwydd mawr sy'n amgylchynu'r sector. Roedd cefnogaeth i'r agwedd fwy hirdymor yn cydnabod y sefydlogrwydd a'r sicrwydd y gallai cytundebau o'r fath eu cynnig. Roedd cefnogwyr yn nodi'r pwynt y gallai'r cytundebau hyn weithio'n well ar gyfer nodweddion pwysig y tirwedd ac mai'r rhain oedd y dewisiadau mwyaf llesol i ysgogi newid a gwelliant yn yr amgylchedd.

#### Cwestiwn 12

- xlvi. Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn gweld gwerth mewn mabwysiadu dull cydweithredol o ddarparu nwyddau cyhoeddus. Eu cyngor oedd y byddai defnyddio ysgogiadau yn annog cydweithio. Y prif reswm dros wrthwynebu'r dull cydweithredol oedd y gwrthdrawiad buddiannau na fyddai cytundebau'n eu datrys. Roedd rôl Llywodraeth Cymru wrth yrru cynllun cydweithredol yn cael ei weld gan ymatebwyr fel rhywbeth allweddol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn mai Llywodraeth Cymru oedd yn y sefyllfa orau i annog, hyrwyddo ac ysgogi cydweithio. Y prif reswm dros wrthod y dull cydweithredol oedd y gwrthdrawiad buddiannau na fyddai cytundebau o'r fath yn gallu eu goresgyn.

#### Cwestiwn 13

- xlvii. Y brif farn gyffredinol ymysg ymatebwyr oedd defnyddio dull o flaenoriaethu sy'n ystyried beth sydd orau i'r tir ac i'r rheolwr tir. Wrth wneud hynny, roedd cefnogaeth i ddull fesul achos unigol yn cael ei fynegi'n gyson. Fel rheol gyffredinol, awgrymwyd y dylai blaenoriaethu ganolbwyntio ar y meysydd gyda'r effaith mwyaf wrth fesur ochr yn ochr â'r amcanion. Roedd ymatebwyr yn mynnu y dylid rhoi

blaenoriaeth i'r cynlluniau â'r effeithiau mwyaf. Gellid defnyddio systemau blaenoriaethu a data i benderfynu ar y camau mwyaf addas mewn lleoliad.

xlvi. Roedd y pwnc o sicrhau buddion lluosog yn destun anghytundeb ymysg ymatebwyr yr ymgynghoriad. Wrth gefnogi buddion lluosog, dywedodd ymatebwyr y dylent fod yn ofynnol gan bob gweithgaredd a gaiff ei gyllido'n gyhoeddus.

xlix. Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu meysydd penodol a oedd yn flaenoriaeth i'r cynllun yn eu barn hwy. Y prif safbwynt ymysg yr ymatebwyr hyn oedd y dylai lleihau risg o lifogydd fod y flaenoriaeth uchaf, gyda dal a storio carbon ac iddo bron gymaint o bwysigrwydd, a bioamrywiaeth yn cael ei osod yn aml fel y flaenoriaeth ac iddi'r trydydd lle o ran blaenoriaeth.

#### Cwestiwn 14

- i. Er bod rhai ymatebwyr yn mynegi'r farn y byddai hyfforddiant a chynngor yn hanfodol i'r cynllun newydd, roedd eraill yn gweld hynny fel cost ddiangen a fyddai'n lleihau cyfanswm y gyllideb oedd ar gael i gefnogi rheolwyr tir. Roedd ymatebwyr yn awgrymu defnyddio sianelau sefydledig sy'n cael eu parchu gan reolwyr tir ar gyfer cyflwyno a defnyddio gwahanol fathau o hyfforddiant (ee ffermwr-i-ffermwr, ymchwil, dyddiau agored, cyrsiau hyfforddi darparu budd i'r cyhoedd, etc).
- ii. Roedd meysydd pwnc hyfforddiant a chynngor a oedd yn gofyn am fwyaf o sylw ym marn ymatebwyr yn cynnwys: yr amgylchedd, cynaliadwyedd ac ynni adnewyddadwy, lles anifeiliaid, mynediad i'r anabl i lwybrau cyhoeddus, deddfwriaeth sy'n llywodraethu mynediad i'r cyhoedd a chanllawiau ar fesur allbynnau budd i'r cyhoedd.

#### Cwestiwn 15

- iii. Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid annog y sector preifat i chwarae rhan trwy ddangos tystiolaeth o enillion ar fuddsoddiad. Cydnabuwyd bod y sector preifat yn cael ei yrru'n bennaf gan elw a chyfleoedd buddsoddi cadarn. Roedd dulliau

pellach a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys rhoi gwybodaeth ar sut y caiff y cynllun ei ariannu a'i reoli, buddsoddi mewn cynllun marchnata effeithiol a chyfleu buddion o cynllun o ran cynyddu elw. Fe wnaeth nifer o ymatebwyr gyfeirio at ddelwedd gyhoeddus fel ffordd allweddol o ennyn diddordeb sefydliadau preifat.

- liii. Roedd ymatebwyr yn aml yn dweud mai'r gost oedd y rhwystr mwyaf i fuddsoddiad gan y sector preifat. Roedd rhwystrau eraill yn cynnwys rheoleiddio a diffyg cydgyfeirio rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Roedd cyfran o ymatebwyr yn wrthwynebus i'r syniad o gynnwys y sector preifat yn y cynllun a theimlai nifer ohonynt ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl y cynllun.

#### Cwestiwn 16

- liv. Y farn gyffredinol ymysg ymatebwyr oedd bod angen ymestyn y cyfnod a gymerir i weithredu newidiadau, fodd bynnag roedd rhesymau dros hyn yn wahanol ymysg yr ymatebion. Roedd teimlad y byddai gwthio Cymru i gwblhau'r pontio ddwy flynedd o flaen y gweddill o'r Deyrnas Unedig yn rhoi ffermwyr yng Nghymru o dan anfantais sylweddol. Ar y llaw arall, roedd y farn fod 2025 yn rhesymol fel dyddiad cwblhau yn denu cryn gefnogaeth ymysg ymatebwyr. Teimlai cyfran lai o ymatebwyr fod cyfnod pontio a oedd yn parhau hyd 2025 yn rhy hir ac felly y byddai angen gweithredu gyda mwy o frys. Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch y trawsnewid. Roedd cydnabyddiaeth helaeth mai pontio graddol oedd y ffordd fwyaf effeithiol o rwystro sefyllfa o fod ar ymyl y dibyn i ffermwyr, busnesau a Llywodraeth Cymru ac roedd llawer yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i fod yn ofalus ac yn hyblyg yn ystod y cyfnod pontio.
- lv. Roedd rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch cymorth yn ystod y cyfnod pontio. Un thema gyffredin oedd y dylid cadw'r Cynllun Taliad Sylfaenol neu ei ymestyn y tu hwnt i 2025 i liniaru argyfwng economaidd a chaniatáu ar gyfer addasu yn wyneb y newidiadau sylweddol i fusnesau.

- lvi. Thema arall a ddaeth allan o'r ymatebion oedd ei bod yn anodd penderfynu a oedd y dyddiad pontio arfaethedig yn addas, oherwydd yr ansicrwydd a achoswyd gan y cytundeb Brexit.

Cwestiwn 17

- lvii. Teimlad y mwyafrif o'r ymatebion oedd os oedd angen diddymu Cynllun y Taliad Sylfaenol yna dylai hynny fod trwy ddull graddol. Barnwyd mai hyn fyddai'r dull symlaf a thecaf. Barn gyffredinol ymysg yr ymatebwyr oedd y dylid cyflwyno uchafswm cychwynnol ar daliadau.

Cwestiwn 18

- lviii. Y farn gyffredinol oedd y dylid cadw system bresennol Cynllun y Taliad Sylfaenol, ac nid ei diwygio, oherwydd roedd eisoes yn syml ac yn effeithiol. Gwnaed y sylw, fodd bynnag, y dylid ei ddiwygio er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth sydd ynglŷn â gwneud ceisiadau am daliadau. Barn wahanol o fewn yr ymatebion oedd y dylid diwygio system y BPS i leihau'r fiwrocratiaeth sydd ynglŷn â gwneud ceisiadau am daliadau. O fewn hyn roedd barn fod gofynion presennol y cynllun taliad sylfaenol yn rhy haearnaidd. O safbwynt y taliadau, awgrymodd ymatebwyr y dylid eu gosod ar gyfradd 2018, a'u lleihau bob blwyddyn.

Cwestiwn 19

- lix. Fe wnaeth ymatebwyr godi pryderon sylweddol y byddai'r Rhaglen Rheoli Tir yn cael effaith negyddol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y rhaglen yn cael ei gweld fel un a fyddai'n effeithio'n negyddol ar hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig ac felly'n effeithio ar gymunedau gwledig Cymraeg. Roedd colli ffermydd teuluol mewn ardaloedd gwledig yn destun pryder mawr gan y byddai'n effeithio'n negyddol ar y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn ôl yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod y cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r economi, sy'n arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a thwristiaeth.



- ix. Mae gan Lywodraeth Cymru'r weledigaeth o "filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050". Roedd ymatebwyr yr ymgynghoriad yn pwysleisio na ellir sicrhau hyn heb economi wledig ffyniannus sy'n cadw pobl mewn gwaith yn y Gymru wledig, trwy gefnogi'r fferm deuluol a chymunedau Cymraeg yn uniongyrchol.
- ixi. Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn tynnu sylw at y cyfleoedd cadarnhaol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Os caiff y rhaglen i llunio a'i gweithredu'n effeithiol i gefnogi ffermwyr / cymunedau lleol yna gellir cryfhau'r Gymraeg. Yn ôl yr ymatebwyr hyn i'r ymgynghoriad, os gweithredir y cynllun yn unol â Safonau'r Gymraeg ac yn benodol trwy lwyfan dwyieithog digidol, yna ni bydd unrhyw broblem benodol wrth beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### Cwestiwn 20

- ixii. Roedd themâu cyson a godwyd drwy holl ymatebion yr ymgynghoriad yn ail-ymddangos o fewn sylwadau ychwanegol a wnaed gan ymatebwyr. Roedd y themâu hyn yn cynnwys:
- pryder ynghylch diddymu'r Cynllun Taliad Sylfaenol
  - y dewis o ohirio datblygu rhaglenni newydd hyd nes bydd mwy o sicrwydd ynghylch natur Brexit.
  - mwy o eglurder ynghylch beth sy'n cael ei ddiffinio fel nwyddau cyhoeddus
  - yr angen i ganolbwyntio ar gynhyrchu bwyd
  - dylai hygyrchedd a hyblygrwydd fod yn elfennau hanfodol wrth lunio'r cynllun
  - pwysigrwydd annog ffermwyr a choedwigwyr i ddod yn gynhyrchwyr hunan-ddibynnol sy'n ymateb i'r farchnad
  - yr angen am fframwaith rheoleiddio symlach, mwy ystyrlon
  - yr angen am asesiad o effaith
  - y posibilrwydd o ddatblygu dull system gyfan (dod â'r Cynllun Cadernid Economaidd a'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus at ei gilydd).

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar 10 Gorffennaf 2018, fe wnaeth y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gyhoeddi'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ynghylch sut roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau i gefnogi rheolwyr tir ar ôl Brexit. Roedd y ddogfen yn nodi cynigion ar gyfer cyfnod pontio dros sawl blwyddyn, wedi'i gynllunio, ac yn ceisio barn ynghylch:

- Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus.
- Sut y dylid llunio'r cynlluniau penodol a fydd yn darparu'r cymorth.

1.2 Roedd y papur yn esbonio'r achos dros newid a'r sail roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau i gefnogi ffermwyr arni ar ôl Brexit. Roedd y Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu'r elfennau canlynol:

- Rhaglen Rheoli Tir i Gymru
- Cynllun Cadernid Economaidd
- Cynllun Nwyddau Cyhoeddus
- Pontio, cyflawni a deddfwriaeth
- Safonau'r Gymraeg
- Sylwadau eraill.

1.3 Law yn llaw â'r brif Ddogfen Ymgynghori, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Daflen Gryno ac mewn partneriaeth â Cyswllt Ffermio, cynhaliodd naw cyfarfod agored ar yr ymgynghoriad.

1.4 Gallai mudiadau a'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad drwy dair sianel – ar-lein, drwy'r post ac e-bost.

1.5 Roedd 20 o gwestiynau o fewn yr ymgynghoriad a oedd wedi eu rhannu ar draws y prif feysydd o ddi-ddordeb, fel yr amlinellir uchod.

Strwythur y crynodeb

1.6 Mae'r ddogfen hon sy'n rhoi crynodeb o'r ymatebion yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Adran 2 – trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad
- Adran 3 – trosolwg o ymatebion yr ymgyrchoedd
- Adran 4 – trosolwg o ymatebion penodol i'r Rhaglen Rheoli Tir i Gymru (cwestiynau 1-2 yr ymgynghoriad)
- Adran 5 – trosolwg o ymatebion penodol i'r Cynllun Cadernid Economaidd (cwestiynau 3-7 yr ymgynghoriad)
- Adran 6 – trosolwg o ymatebion penodol i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus (cwestiynau 8-15 yr ymgynghoriad)
- Adran 7 – trosolwg o ymatebion penodol i'r Pontio, Cyflawni a Deddfwriaeth (cwestiynau 16-19 yr ymgynghoriad)
- Adran 8 – trosolwg o ymatebion penodol i'r sylwadau pellach i'r ymgynghoriad (cwestiwn 20)
- Atodiad A. – datganiadau llawn yr ymgyrchoedd
- Atodiad B. – rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad
- Atodiad C. – crynodeb o wyth o ymatebion i ymgynghoriad i chwilio barnau ynghylch y Cynllun Taliad Sylfaenol.

## 2. Trosolwg o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

2.1 Roedd cyfanswm o 12,203 o ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriad Brexit a'n Tir.

2.2 O'r ymatebion hyn i'r ymgynghoriad, cafodd 11,160 o ymatebion ymgyrchoedd eu cyflwyno gan saith ymgyrch unigryw. Amlinellir dadansoddiad o'r nifer o ymatebion ymgyrchoedd yn Nhabl 1.1

**Tabl 1.1 Crynodeb o ymatebion ymgyrchoedd i'r ymgynghoriad**

Ymatebion Ymgyrchoedd	Cyfanswm
Undeb Amaethwyr Cymru	3,221
NFU Cymru	2,846
Y Gronfa Natur Fyd-eang (WWF)	2,166
Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB)	1,490
Ymddiriedolaeth Natur Cymru	1,308
Ramblers Cymru	111
Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)	18

2.3 Roedd 1,043 o ymatebion penodol i'r ymgynghoriad. O'r rhain, roedd saith yn annilys gan eu bod yn ddyblygiad, yn ymateb anghyflawn neu'n wag. Felly mae'r adroddiad cryno hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r 1,036 o ymatebion gwirioneddol.

2.4 Cafodd yr ymatebion gwirioneddol eu cyflwyno trwy amryw sianelau, gan gynnwys ffurflen ar-lein, ffurflen e-bost neu drwy ymateb cyffredinol nad oedd yn ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau. Cafodd dros hanner (584) yr ymatebion gwirioneddol eu cyflwyno trwy'r ffurflen ar-lein gyda 104 o ymatebion yn cael eu cyflwyno trwy e-bost neu'r post gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb. Roedd 348 o ymatebion pellach a oedd yn ymatebion cyffredinol i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd trwy e-bost a'r post.

2.5 Roedd 117 o ymatebion gwirioneddol i'r ymgynghoriad yn y Gymraeg, 11 y cant o gyfanswm yr ymatebion.

2.6 Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa sector sy'n cynrychioli eu sefydliad. Roedd mwyafrif yr ymatebion penodol yn cynrychioli'r sector ffermio, fel y dadansoddir yn Nhabl 1.2. Cafodd yr

ymatebwyr y cyfle i ddewis mwy nag un sector, felly nid yw'r niferoedd yn cyfeirio at gynrychioli'r sector hwnnw yn unig.

**Tabl 1.2 Nifer o ymatebwyr yn ôl sector**

Sector	Sector sy'n cynrychioli eich sefydliad
Ffermio	521
Diddordebau amgylcheddol	160
Twristiaeth / lletygarwch	88
Arall	82
Sector preifat	65
Coedwigaeth	59
Trydydd sector	59
Cadwyni cyflenwi bwyd a phren	54
Sector cyhoeddus	34
Undeb lafur / cynrychiolydd	5

Daeth ymatebion eraill o amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys genweirio, marchogaeth a chychwyr.

Dull o ddadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.7 Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael ei wneud trwy ddau ddull ar wahân, yn ôl natur yr ymatebion a gyflwynwyd. Yn gyntaf, yr ymatebion i'r ymgyrchoedd ac yn ail yr ymatebion uniongyrchol. Amlinellir hyn mewn manylder isod.
- 2.8 Roedd y saith ymgyrch yn cynnwys testun safonol, a welir yn llawn yn Atodiad A. Cafodd ymatebwyr yr ymgyrchoedd y cyfle i roi sylwadau ychwanegol o fewn eu hymateb, ond dangosodd adolygiad o ymatebion yr ymgyrchoedd nad oedd y sylwadau hyn, er eu bod wedi rhoi cyd-destun, yn ychwanegu at y cynnwys ac felly ni chawsant eu cynnwys o fewn y dadansoddiad. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgyrchoedd yn [Adran 3](#) o'r ddogfen hon.
- 2.9 Cafodd yr holl ymatebion penodol a gyflwynwyd eu casglu gyda'i gilydd mewn cronfa ddata ganolog. Cafodd pob un ei adolygu yn ôl cwestiwn perthnasol yr ymgynghoriad er mwyn dangos y barnau mwyaf cyffredin a barnau gwahanol a oedd i'w gweld drwy'r

ymatebion. Pan drafodir ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r holl ddogfen hon, cyfeirir at yr ymatebion uniongyrchol (sef y rhai heblaw'r ymatebion ymgyrchoedd).

- 2.10 Mae ymatebion cyffredinol nad oedd yn cyfeirio'n benodol at gwestiynau'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a'u priodoli i'r cwestiwn perthnasol, lle bo'n briodol. Golyga hyn eu bod wedi cael eu cynnwys gyda'r ymatebion uniongyrchol eraill drwy'r holl ddogfen. Mae meysydd ychwanegol a gyflwynwyd gyda'r ymatebion cyffredinol ac nad ydynt i'w priodoli i gwestiwn penodol o'r ymgynghoriad wedi eu crynhoi yn Adran 0.
- 2.11 Mae Tabl 1.2 a Tabl 1.3 yn rhoi crynodebau o'r ymatebion a dderbyniwyd fesul cwestiwn yr ymgynghoriad. Mae Tabl 1.2 yn cynnwys y cwestiynau a oedd yn gofyn i ymatebwyr ateb trwy naill ai gytuno eu anghytuno neu fynegi ansicrwydd.

**Tabl 1.2. Crynodeb o ymatebion uniongyrchol i gwestiynau caeëdig yr ymgynghoriad**

Cwestiynau'r ymgynghoriad	Cytuno	Anghytuno	Ansicr	Ddim wedi ymateb
C1	194	306	169	367
QC	495	41	112	388
C5	234	137	235	430
C7	434	97	88	417
C8	226	198	189	423
	397	58	132	449
C10	380	82	126	448

- 2.12 Mae Tabl 1.3 yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ansoddol i bob cwestiwn.

**Tabl 1.3 Crynodeb o ymatebion uniongyrchol i gwestiynau agored yr ymgynghoriad**

<b>Cwestiwn yr Ymgynghoriad</b>	<b>Ymatebion</b>
C1	505
C2	499
C3	619
C4	628
C5	432
C6	515
C7	532
C8	529
C9	582
C10	493
C11	576
C12	485
C13	506
C14	552
C15	445
C16	577
C17	517
C18	438
C19	530
C20	577

- 2.13 Yn ogystal, mae Atodiad C yn cyflwyno dadansoddiad pellach o wyth o ymatebion sefydliadau i'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS), fel y gofynnwyd gan Lywodraeth Cymru.

### **3. Ymatebion Ymgyrchoedd**

- 3.1 Derbyniwyd 11,160 o ymatebion ymgyrchoedd, a gyflwynwyd trwy'r saith ymgyrch gan yr undebau ffermio a sefydliadau elusennol.
- 3.2 Mae'r safbwyntiau a gafodd eu cyfleu gan ddatganiadau'r ymgyrchoedd yn amrywio'n sylweddol. Roedd y rheini gan yr undebau ffermio yn gwrthwynebu'r cynigion yn gryf, gan eu bod yn codi pryderon cryf ynghylch yr heriau y bydd y sector ffermio yn eu hwynebu yn sgil Brexit, pe bai'r Rhaglen Rheoli Tir arfaethedig yn cael ei gweithredu. Roedd sefydliadau elusennol yn cefnogi cynigion o fewn yr ymgyngoriad ac yn rhoi anogaeth gref i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd y rhesymau am eu barn wedi eu seilio ar y cyfle y mae'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig yn ei gynnig i adfer natur a gwella'r amgylchedd.
- 3.3 Caiff datganiadau pob un o'r saith ymgyrch eu cyflwyno'n llawn yn Atodiad A, ac fe'u crynhoir isod, yn nhrefn y nifer o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgyrch.

#### Undeb Amaethwyr Cymru

- 3.4 Roedd y 3,221 o ymatebion ymgyrch a dderbyniwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru yn gwrthod y cynigion yn llwyr. Barn yr ymatebwyr hyn oedd bod y cynnig i ddisodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol gan y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn anghywir. Roeddent yn ystyried newidiadau o'r fath i fod yn rhai radical, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit, lle "mae'n diwydiannau bwyd yn wynebu'r ansicrwydd a'r tarfu mwyaf mewn cenhedlaeth". Roedd aelodau Undeb Amaethwyr Cymru'n rhybuddio yn erbyn yr "anfantais gystadleuol sylweddol" y byddai cael gwared ar daliadau uniongyrchol i ffermydd Cymru yn ei olygu i fusnesau, yn sgil parhau'r taliadau hyn i'r prif gystadleuwyr yn Ewrop a rhannau o'r Deyrnas Unedig. Daeth yr ymatebion i'r casgliad fod "y cymhlethdod, y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau Llywodraeth Cymru yn golygu na ddylid symud ymlaen â nhw, yn enwedig ar adeg o'r fath ansicrwydd gwleidyddol ac ariannol".



3.5 Roedd y risgiau yr ystyrir eu bod yn gysylltiedig â'r cynigion yn cynnwys:

- tarfu sylweddol a helaeth
- caledi ariannol
- colli ffermydd a busnesau gwledig.

#### NFU Cymru

3.6 Roedd y 2,846 o ymatebion ymgyrch a dderbyniwyd gan NFU Cymru yn deillio o bryder, yn sgil yr ansicrwydd ynghylch ymadawriad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Yn ôl datganiad yr ymgyrch, heb wybod natur y cysylliadau masnachol yn y dyfodol, na'r cyd-destun rheoleiddio, roedd yn anodd gwybod beth fydd ar fusnesau ei angen i Lywodraeth Cymru ei ddarparu. Er gwaethaf pryderon fod y cynigion yn gynamserol, fe wnaeth NFU Cymru godi wyth maes sy'n bwysig canolbwyntio arnynt yn eu barn hwy, fel y crynhoir isod.

3.7 Roedd ymatebwyr i'r ymgyrch yn cael dewis pa rai o'r wyth maes oedd yn bwysig yn eu barn hwy. Nid oedd dadansoddiad o wybodaeth ar gael i gynnal unrhyw ddadansoddiad pellach o'r meysydd a ddewiswyd gan ymatebwyr i'r ymgyngoriad.

3.8 Cynhyrchu bwyd

- Mae sicrhau cyflenwad parhaus o fwyd diogel, o ansawdd uchel, y gellir ei olrhain yn llawn, er budd y genedl.
- Bydd ffermwyr yn parhau i gynhyrchu bwyd wrth ofalu am y tirwedd a gwella'r amgylchedd.
- Mae'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn amhrisiadwy wrth gynnal cynhyrchu bwyd o safon uchel yng Nghymru.
- Roedd 83 y cant o ddefnyddwyr yng Nghymru'n cefnogi'r syniad o bolisi amaethyddol domestig newydd sy'n darparu cyllid i gefnogi ffermwyr wrth iddynt gyflenwi bwyd i'r genedl.
- Cydnabod yr heriau presennol a heriau yn y dyfodol sy'n wynebu cynhyrchu bwyd ledled y byd.

- Caniatáu ffermwyr Cymru i allu cystadlu â ffermwyr yng ngweddill y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

### 3.9 Yr amgylchedd

- Dylai pob ffermwr gael eu gwobrwyo'n deg am yr hyn maent eisoes yn ei gyflawni.
- Mae gan ffermwyr y sgiliau a'r profiad i gynnal a gwella'r amgylchedd naturiol.
- Sicrhau bod y polisi'n ymarferol a chyraeddadwy ac wedi'i lunio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr ffermwyr.

### 3.10 Cynhyrchiant

- Darparu cyllid i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith fferm modern, er mwyn sicrhau bod busnesau wedi eu harfogi'n dda i wynebu'r heriau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd y farchnad ar ôl Brexit.
- Rhaid i bolisi gydnabod bod ar ffermwyr angen sylfaen gadarn a hyder i'w galluogi i fuddsoddi yn eu busnes.
- Rhaid i bolisi adlewyrchu mai prif rôl holl ffermwyr Cymru yw cynhyrchu bwyd.
- Rhaid i bolisi gael ei ddatblygu gyda dealltwriaeth lawn o'r mesurau cynhyrchiant presennol yng Nghymru megis Cyswllt Ffermio, Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Cynlluniau Grant Busnes i Ffermydd.
- Sicrhau bod pob £1 a fuddsoddir gan lywodraeth mewn amaethyddiaeth yn cyflawni enillion o tua £7.40 fel a gyflawnir ar hyn o bryd.

### 3.11 Pontio

- Rhoi amser i ffermwyr addasu i fywyd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyfnod pontio digon hir yn sgil y diffyg eglurder ynghylch cysylltiadau masnachu yn y dyfodol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnig sefydlogrwydd.

- Llunio cynlluniau yn y dyfodol mewn partneriaeth â chynrychiolwyr ffermwyr a'u treialu er mwyn sicrhau bod y cynigion yn ymarferol a chyraeddadwy.
- Asesu effaith cynigion ar fusnesau ffermio ac ystyried effaith newidiadau ar yr economi wledig, iaith, diwylliant, cymunedau a gallu Gymru i fod yn hunan-gynhaliol.

### 3.12 Ffermwr gweithredol

- Cefnogi'r ffermwyr hynny sy'n ymwneud yn weithredol â chynhyrchu bwyd i'r genedl.
- Cynnwys o fewn y cynigion y ffermwr gweithredol nad yw'n berchennog ar y tir y mae'n ei ffermio.
- Cefnogi cynhyrchwyr bwyd gweithredol gan eu bod yn cyfrannu at gadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru, sy'n werth £6.9 biliwn i economi Cymru ac yn cyflogi dros 240,000 o bobl.

### 3.13 Rheoleiddio

- Cynnal y safonau uchel mae ffermwyr Cymru'n gweithredu iddynt.
- Peidio â chynyddu'r baich rheoleiddio o ganlyniad i Brexit, ei symleiddio lle bynnag bo'n bosibl.
- Mae lle i resymoli a lleihau'r nifer o gyrff sydd â rôl wrth gynnal arolygiadau fferm.
- Mae baich rheoleiddio wedi lleihau hyder ffermwyr yn eu busnes.
- Rhoi cyfle i gydnabod arferion da ar fferm.
- Ni ddylai ffermwyr Cymru fod o dan anfantais o gymharu â ffermwyr mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, Ewrop nac yng ngweddill y byd pan ddaw'n fater o reoleiddio.
- Dylai'r gyfundrefn reoleiddio fod yn gymesur â'r risgiau sy'n gysylltiedig, gan ganolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau sydd ar y cyhoedd ei eisiau, ac nid cael ei gyrru gan broses.

### 3.14 Cyllid

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddal Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfrif am yr addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch y refferendwm.
- Dylai Cymru dderbyn yr un swm o arian er gwaethaf Brexit a dylid neilltuo arian ar gyfer ffermio.
- Byddai seilio'r dyraniad o gyllid amaethyddol ar y gyfran o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn niweidiol iawn i Gymru.

### 3.15 Triniaeth gyfartal

- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw ffermwyr Cymru o dan anfantais ar ôl Brexit o ganlyniad i wahaniaethau mewn cymorth a beichiau rheoleiddio.
- Y prif gystadleuwyr o hyd fydd 27 gwlad arall yr Undeb Ewropeaidd (EU27), a does ar ffermwyr ddim eisiau gweld eu safle cystadleuol yn cael ei erydu mewn cymhariaeth â'r gwledydd hyn.
- Ail-ystyried diffyg darpariaeth o daliadau uniongyrchol o fewn yr ymgynghoriad, a chyflwyno darpariaeth o'r fath er mwyn helpu diogelu safle cystadleuol ffermwyr Cymru.

### Y Gronfa Natur Fyd-eang (WWF)

- 3.16 Roedd y 2,166 o ymatebion i'r ymgyrch gan y Gronfa Natur Fyd-eang (WWF) yn croesawu'r ymgynghoriad, gan weld y Rhaglen Rheoli Tir newydd fel cyfle i wella'r amgylchedd lleol trwy reolaeth gynaliadwy o'r tir, gyda chefnogaeth y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd datganiad yr ymgyrch yn amlinellu'r buddion i'r amgylchedd, gyda'r farn "heb amgylchedd iach a chadarn, ni fydd gennym economi a chymdeithas sy'n gynaliadwy ac yn gallu cyflawni llesiant ehangach".
- 3.17 Roedd datganiad ymgyrch y WWF yn cefnogi'n gryf y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, gyda'r gred y "dylid gwario arian cyhoeddus ar nwyddau cyhoeddus". Roedd datganiad yr ymgyrch yn galw hefyd ar i'r rhan fwyaf o gronfeydd y rhaglen gael eu neilltuo i'r Cynllun

Nwyddau Cyhoeddus, ac felly'n gosod anghenion natur yng nghraidd y rhaglen.

3.18 Roedd elfennau eraill roedd datganiad ymgyrch y WWF yn ymdrin â hwy yn cynnwys:

- Diogelu ac adfer byd natur.
- Hyder y Llywodraeth wrth weithredu'r rhaglen.
- Cefnogi byd natur a ffermio teuluol trwy reoli pob tir yn gynaliadwy.
- Cynnwys ffyrdd cliriach o fesur llwyddiant a gosod targedau, i fanteisio i'r eithaf ar botensial y rhaglen.
- Sicrhau nad yw Brexit yn tanseilio statws presennol Cymru fel arweinydd byd-eang mewn deddfwriaeth amgylcheddol.

Y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB)

3.19 Roedd y 1,490 o ymatebion ymgyrch a dderbyniwyd gan y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB) yn croesawu'r cynigion o fewn yr ymgynghoriad. Roedd y mudiad yn llawn angerdd dros amddiffyn natur a'r amgylchedd drwy'r holl ddatganiad ymgyrch, gyda'r farn fod adfer natur yn hanfodol. Roedd yr ymatebion yn cydnabod "os yw ein hamgylchedd yn gadarn, mae ein heconomi, iechyd a llesiant yn gadarn hefyd", ac felly'n fuddiol i holl bobl Cymru. Roedd yr RSPB yn dweud bod yn rhaid i'r rhaglen Rheoli Tir ddefnyddio arian cyhoeddus i "helpu ffermwyr a rheolwyr tir:

- i reoli'r tir yn gynaliadwy,
- adfer natur a bywyd gwylt, a
- darparu buddion amhrisiadwy mae pawb ohonom yn eu cymryd yn ganiatol, fel aer a dŵr glân".

3.20 Wrth gyflawni'r buddion hyn, mae'n hanfodol fod y ffordd o fesur gweithgareddau yn atgyfnerthu'r rhaglen i sicrhau newid ystyrllon a bod Llywodraeth Cymru'n aros yn driw i uchelgeisiau'r cynigion.

Ymddiriedolaeth Natur Cymru

- 3.21 Roedd y 1,308 o ymatebion ymgyrch gan Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn disgrifio'r Rhaglen Rheoli Tir newydd fel "cyfle unwaith mewn oes i ddatrys y problemau mae polisiau'r gorffennol wedi eu creu". Prif nod yr ymatebion hyn oedd dangos eu cefnogaeth i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.
- 3.22 Roedd byd natur yn ffactor allweddol trwy holl ddatganiad ymgyrch Ymddiriedolaeth Natur Cymru, a oedd yn honni "siarad dros fyd natur". Roedd yr ymateb yn cefnogi'r defnydd o arian cyhoeddus i ddarparu nwyddau cyhoeddus ac yn awgrymu "dylem fuddsoddi mewn adfer ein tir a'n bywyd gwylt fel y gall barhau i ddarparu'r holl bethau mae eu hangen arnom: cynefinoedd bywyd gwylt, rheoli llifogydd a sychder, dŵr ac aer glân, storio carbon a lleoedd i bawb ohonom eu mwynhau". Roedd rhesymau ychwanegol pam y dylai'r Rhaglen Rheoli Tir gael ei gwreiddio mewn polisi, a fyddai'n galluogi natur i adfer a goroesi yn cynnwys (fel a nodir yn ymateb yr ymgyrch):
- "Mae amgylchedd iach a chyflawnder o fywyd gwylt yn hanfodol er mwyn ein cadw ni, a chenedlaethau'r dyfodol, yn ddiogel, hapus, iach a ffyniannus".
  - Mae cynefinoedd yn dioddef o lygredd aer a dŵr o ffermio anghynaliadwy.

#### Ramblers Cymru

- 3.23 Roedd y 111 o ymatebion ymgyrch a gyflwynwyd gan Ramblers Cymru yn llwyr gefnogi'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd y cerddwyr yn gweld y Rhaglen Rheoli Tir fel "cyfle unigryw i weithredu dull newydd, a gall Cymru arwain y ffordd wrth atgyfnerthu dealltwriaeth a defnydd y cyhoedd o lwybrau a thir mynediad". Roedd yr ymatebion yn canmol addasrwydd paramedrau arfaethedig y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, ac yn nodi meysydd ychwanegol sy'n bwysig i fynediad. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys:

- “Sicrhau bod Rheolwyr Tir yn cyflawni eu hymrwymiaadau cyfreithiol presennol o ran mynediad dirwystyr i’r cyhoedd ar hawliau tramwy”.
- Cyflawni gwelliannau parhol i fynedfeydd y mae tiffeddianwyr yn gyfrifol amdanynt.
- Gwella’r rhwydwaith llwybrau.
- “Bod yn dryloyw, galluogi hyrwyddo cyfleoedd mynediad yn well er mwyn annog defnydd y cyhoedd”.
- Gweithio gyda Fforymau Mynediad Lleol.

#### Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)

- 3.24 Roedd y 18 o ymatebion ymgyrch a gyflwynwyd trwy ymgyrch Cymdeithas Ceffylau Prydain yn cefnogi’r Rhaglen Rheoli Tir arfaethedig gan gynnwys darpariaeth mynediad mewn Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Dywedodd datganiad yr ymgyrch y dylai’r rhaglen newydd roi cymhelliad ariannol i reolwyr tir gynyddu mynediad cyhoeddus i farchogion, ac ad-dalu rheolwyr tir am weithiau cyfalaf sy’n creu llwybrau newydd i farchogion. Yn enwedig, lle mae bylchau mewn rhwydweithiau hawliau tramwy presennol ac a fydd yn galluogi defnyddwyr i osgoi ffyrdd peryglus.
- 3.25 Codwyd amrywiaeth o awgrymiadau am welliannau a gellir gweld y rhan yn natganiad llawn yr ymgyrch yn Atodiad A. Crynhoir isod rai o’r gwelliannau a awgrymir i’r llwybrau ceffylau:
- Gwelliannau mewn lled llwybrau.
  - Gwella hygyrchedd gatiau i gydymffurfio â’r Ddeddf Cydraddoldeb, ac sy’n hawdd i farchogion, a’r rheini sydd ag anabledau, gyrraedd atynt.
  - Gwell marciau ac arwyddion ar lwybrau.
  - Darparu lle parcio i drelars ceffylau.
  - Rheoli llwybrau ceffylau.

## 4. Rhaglen Rheoli Tir i Gymru: Cwestiynau 1-2 yr ymgynghoriad

Rhaglen Rheoli Tir i Gymru

- 4.1 Mae Pennod 4 y Ddogfen Ymgynghori'n nodi'r pum egwyddor allweddol ar gyfer cymorth yn y dyfodol, sy'n ffurfio sail y Rhaglen Rheoli Tir arfaethedig i Gymru. Y pum egwyddor yw:
- Egwyddor 1 – cadw ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill ar y tir.
  - Egwyddor 2 – mae cynhyrchu bwyd yn hollbwysig.
  - Egwyddor 3 – creu diwydiant rheoli tir ffyniannus a chydnerth yng Nghymru.
  - Egwyddor 4 – bydd cymorth yn y dyfodol yn cwmpasu gweithgareddau i ddarparu nwyddau cyhoeddus ychwanegol.
  - Egwyddor 5 – dylai'r holl reolwyr tir allu manteisio ar gynlluniau newydd.
- 4.2 Fe wnaeth y bennod hon o'r Ddogfen Ymgynghori hefyd gyflwyno'r ddau gynllun arfaethedig – y Cynllun Cadernid Economaidd a'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn nodi cyddestun fframwaith deddfwriaethol Cymru.
- Cwestiwn 1
- 4.3 Cwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad oedd: Rydym yn cynnig Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus. Ydych chi'n cytuno mai'r cynlluniau hyn yw'r ffordd orau o gyflawni yn unol â'r egwyddorion?
- 4.4 Gofynnwyd i ymatebwyr os oeddent yn cytuno mai'r cynlluniau hyn oedd y ffordd orau o gyflawni yn unol â'r egwyddorion, gyda'r dewisiadau o atebion ydym, nac ydym ac ansicr. O'r ymatebwyr uniongyrchol i Gwestiwn 1, roedd 194 yn cytuno mai'r cynlluniau hyn oedd y ffordd orau o gyflawni'n unol â'r egwyddorion, roedd 306 yn anghytuno ac roedd 169 yn ansicr. Roedd yr ymatebwyr yn gallu gadael sylwadau ynghylch y cynlluniau arfaethedig.



- 4.5 Roedd 505 o sylwadau uniongyrchol mewn ymateb i ba ddewisiadau eraill fyddai orau ar gyfer y Rhaglen Rheoli Tir.
- 4.6 Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi pryderon am y cynlluniau arfaethedig. Roedd pryderon penodol yn cynnwys yr angen hanfodol am daliadau sylfaenol i reolwyr tir, y dylai fod canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd, y bydd meini prawf penodol yn ofynnol ar gyfer cymhwysedd rheolwr tir am gyllid, ac na ddylid gwneud penderfyniadau ar adeg o'r fath ansicrwydd, yn sgil Brexit. Ymdrinir â phob un o'r pwyntiau hyn mewn mwy o fanylder isod.
- 4.7 Cafodd yr angen am Gynllun Taliad Sylfaenol i reolwyr tir ei godi'n gyson drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid cadw rhyw ffurf o daliad sylfaenol, efallai trwy drydydd cynllun. Roedd ymatebwyr yn nodi'r angen am gyflog byw sylfaenol i'r prif ffermwr er mwyn osgoi tlodi a pharhau'n hyfyw ar yr adeg hon o ansicrwydd, yn enwedig i ffermwyr hŷn gan eu bod yn llai tebygol o allu manteisio ar gynlluniau newydd. Dywedodd un ymatebydd "bydd cael gwared yn llwyr ar unrhyw ffurf o lif incwm wedi'i warantu yn anrheithio'r diwydiant amaeth". Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cydnabod yr angen i gymorth ariannol gael ei dalu'n uniongyrchol i ffermwyr, oherwydd prisau isel ac anwadal y farchnad, a'r angen i gynnal a chadw peiriannau. Teimlai ymatebwyr fod angen i lif incwm sefydlog fod ar gael, yn enwedig hyd nes y bydd y sefyllfa fasnachu newydd yn glir ac y gall ffermwyr ail-fodelu eu busnesau'n unol â hynny.
- 4.8 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr effaith y byddai cael gwared ar y BPS yn ei gael ar fathau penodol o fferm ac y dylai fod uchafsymiau ar gyfer unrhyw daliadau yn y dyfodol i dirfeddianwyr mawr. Y farn oedd mai'r ffermydd a fyddai'n cael eu taro waethaf yn sgil colli taliad sylfaenol fyddai:
- ffermydd sy'n ddibynnol ar y tywydd
  - ffermydd teuluol
  - ffermydd bach neu ganolig eu maint

- ffermwyr sy'n denantiaid
- ffermydd mewn "ardaloedd llai ffafriol".

- 4.9 Awgrymwyd y byddai'n rhaid i'r ffermydd hyn ddwysáu cynnyrch neu byddai'n rhaid i ffermwyr adael eu tir, gan adael iddo ddirywio, gydag effaith o ganlyniad i hynny ar sgiliau a chymunedau ffermio. Dywedodd un ymatebwydd y byddai cael gwared ar y Cynllun Taliad Sylfaenol yn methu â chefnogi pob ffermwr a'i fod "y cynllun gwaethaf a gynigiwyd yn hanes ffermio yng Nghymru." Roedd pryder pellach ynghylch tiffeddianwyr a rheolwyr tir yn cael eu troi'n "geidwaid parciau". Teimlai un ymatebydd nad oedd y cynigion taliadau newydd yn canolbwyntio digon ar egwyddorion craidd ffermio ar gyfer cynhyrchu bwyd cynaliadwy a bod angen helpu ffermwyr i gynyddu cynnyrch trwy fuddsoddi mewn technolegau ac arferion ffermio newydd, na allai ffermwyr eu gwneud pe bai'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn cael ei ddi-ddymu.
- 4.10 Roedd ymatebwyr yn ofni y byddai buddsoddwyr a hapfasnachwyr yn manteisio ar y cynlluniau newydd trwy brynu tir fel buddsoddiadau pensiwn a lwfansau treth, gan leihau'r graddau y byddai tir ar gael i'r sector ffermio. Testun pryder arall oedd fod cael gwared ar y BPS yn canolbwyntio ar fuddiannau economaidd tymor byr ar draul y gwerth i genedlaethau'r dyfodol, ac felly nid oedd yn gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru'n ailadrodd yr angen i'r ddau gynllun roi lle i ffactorau cymdeithasol ac economaidd, yn unol â'r Ddeddf.
- 4.11 Roedd llawer o awgrymiadau ynghylch beth allai cynlluniau ar gyfer taliadau uniongyrchol eu cynnig yn y dyfodol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai rhyw fath o daliad uniongyrchol i ffermwyr barhau. Teimlai ymatebwyr fod hyn yn gyfrifol ac yn hyfyw yn gyllidol, gan fod ymchwil gan yr NFU wedi dangos "am bob £1 a fuddsoddir mewn ffermydd, mae enillion o tua £7.40 yn cael eu cyflawni." Teimlai eraill fod parhau taliadau uniongyrchol yn cael ei gefnogi gan gwsmeriaid, fel y gwelwyd mewn arolwg diweddar gan YouGov. Fe wnaeth un ymatebydd amlinellu'r ffordd raddol mae

Llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dirwyn y BPS i ben. Roeddent yn awgrymu rheoli'r pontio mewn ffordd debyg er mwyn peidio ag anfanteisio'r diwydiant. Cyfeiriodd ymatebydd arall at ffigurau o Lyfryn Incwm Ffermydd Cymru 2016/17 gan Brifysgol Aberystwyth, a oedd yn awgrymu nad oedd cynhyrchu cig oen a chig eidion yng Nghymru yn gynaliadwy heb y BPS. Roeddent o'r farn y byddai colli'r Taliad Sylfaenol yn troi'r ased glaswelltir yn rhwymedigaeth cynnal a chadw, lleihau'r cyflenwad o gig, cynyddu prisiau ac felly'n gwaethygu'r bwlch masnach.

4.12 Roedd ystyriaethau penodol am gyllid yn cynnwys:

- Dylid talu cymorth ariannol yn uniongyrchol i ffermwyr fel eu bod yn gwneud y dewis o ran y ffordd orau i'w ddefnyddio ar gyfer eu busnes.
- Mwy o gyfyngu ar uchafsymiau drwy ddefnyddio system tapro.
- Diogelu tir comin oherwydd ei bwysigrwydd fel adnodd pori, ecosystemau a hamdden.
- Cynlluniau di-gymorthdal fel na bydd y genhedlaeth iau yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru mwyach.
- Rhaglenni datblygu gwledig cyflawn sy'n cydnabod yr angen am gartrefi, cyfle am wasanaethau ac ansawdd bywyd i deuluoedd.
- Cyflog cyffredinol neu gyflog byw i ffermwyr i ddileu'r risg o dlodi.
- Sefydlu mecanwaith i gydnabod gwerth unigryw allbynnau trwy ddefnyddio gwartheg traddodiadol Cymreig.

4.13 Roedd cymorth a thâl ar gyfer cynhyrchu bwyd yn dod trwodd fel thema ganolog ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 1. Awgrymai'r mwyafrif o ymatebwyr y dylai cynhyrchu bwyd chwarae llawer rhan llawer mwy yn y cynlluniau arfaethedig. Roedd ymatebion cymysg ynghylch a ddylai hyn fod ar fwyd iach, o safon uchel, wedi'i gynhyrchu'n lleol, neu a yw cymorth amaethyddol ar gyfer cyflenwad digonol o fwyd rhad. Awgrymai ymatebwyr fod bwyd ei hun yn nwydd cyhoeddus ac felly y dylid ei gydnabod o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.

- 4.14 Roedd llawer o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cynhyrchu bwyd iach o safon uchel i bobl Cymru. Roedd yr ymateb gan Gyswllt Amgylchedd Cymru yn awgrymu bod angen gwreiddio cynaliadwyedd mewn busnesau fferm er mwyn “sicrhau eu gallu i gynhyrchu bwyd cynaliadwy i’w cymuned a chenedlaethau’r dyfodol”. Teimlai ymatebion ehangach y dylai hyn fod wrth wraidd polisi amaethyddol Cymru. Roeddent yn awgrymu y dylai’r rhaglen ystyried beth sydd ei angen ar gyfer diet iach a sicrhau bod cynhyrchu hyn yng Nghymru yn cael ei gefnogi. Roedd ymatebydd yn argymhell y dylid adolygu Egwyddor 2<sup>1</sup> i ddweud bod “cynhyrchu bwyd iach i bobl Cymru yn hanfodol”, gan fod data poblogaeth presennol yn amcangyfrif nad yw Cymru ond yn cynhyrchu tua chwarter dogn o ffrwythau a llysiau i bob pen o’r boblogaeth. Roedd pryder gan ymatebwyr fod y pwyslais ar yr amgylchedd, nid ar gynhyrchu bwyd. Dywedodd un ymatebydd mai cynhyrchwyr bwyd yw ffermwyr yn bennaf, a’u bod yn dymuno parhau i gynhyrchu bwyd o’r radd flaenaf, gan ofalu am y tirwedd a’r amgylchedd. Roedd yr RSPB, fodd bynnag, yn pwysleisio bod arferion presennol rheoli tir mewn rhai rhannau o Gymru yn difrodi’r sail sy’n hanfodol ar gyfer cynhyrchu bwyd a bod angen inni gefnogi ein ecosystemau er mwyn parhau i gynhyrchu bwyd.
- 4.15 Pryder arall ynghylch cynhyrchu bwyd oedd y defnydd o’r term “rheolwyr tir” o fewn y ddogfennaeth. Roedd hyn yn codi pryderon ynghylch cymhwysedd am gyllid. Roedd ymatebwyr yn gofyn ai’r ffermwr gweithredol sy’n derbyn y budd ariannol, yn hytrach na’r tiffeddiannwr, yn enwedig pan fo trwyddedau pori yn eu lle. Roedd ymatebwyr, gan gynnwys NFU Cymru, yn teimlo bod angen sicrhau bod y taliad yn cyrraedd y sawl sy’n gwneud y ffermio. Yn ogystal, roedd pryderon sylweddol ynghylch cymorth ariannol yn agored i’r holl reolwyr tir, gan y byddai hyn yn agor cymorthdaliadau i awdurdodau

---

<sup>1</sup> Egwyddor 2: Mae cynhyrchu bwyd yn hollbwysig i’n cenedl ac mae bwyd yn dal i fod yn gynnyrch pwysig sy’n deillio o’n tir. Mae hynny’n golygu parhau i gefnogi gweithgareddau economaidd lle mae hynny’n gynaliadwy ac yn hyfyw o safbwynt ariannol.

lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill, yn hytrach na chefnogi diwydiant amaeth Cymru.

4.16 Dywedodd llawer o ymatebwyr fod yn rhaid blaenoriaethu cynhyrchu bwyd, yn enwedig o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Teimlai ymatebwyr y gallai gwahanu cynhyrchu proffidiol a nwyddau cyhoeddus gael yr effeithiau canlynol:

- Annog parhau arferion rheoli tir dinistriol ac anghynaliadwy ac ymylu'r rheini sy'n darparu gwasanaethau cynaliadwy, di-fwyd.
- Arwain at oblygiadau economaidd nodedig yn yr economi wledig, gan greu effeithiau economaidd negyddol i gymunedau sydd eisoes yn fregus yn aml.
- Cynyddu dibyniaeth ar fewnforion, a allai gael effeithiau amgylcheddol a lles, yn rhai byd-eang a domestig, negyddol ehangach.
- Ardaloedd cynyddol o dir yn disgyn o ddefnydd amaethyddol. Gallai rhai cynlluniau fel ynni adnewyddadwy fod yn llawer mwy proffidiol i ffermwyr ac arwain at golli cynefinoedd bywyd gwyllt sydd angen glaswelltir.
- Arwain at ddad-stocio ardaloedd ucheldir Cymru (80 y cant o dir Cymru) ac effeithiau trychinebus yn sgil hynny wrth i incymau leihau.

4.17 Er mai cynhyrchu bwyd oedd y flaenoriaeth yn gyffredinol ym marn ymatebwyr, roedd llawer yn meddwl y byddai ffermio a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn helpu'r amgylchedd yn ei dro.

4.18 Yn ogystal, roedd ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 1 yn trafod yr amgylchedd a lles bywyd gwyllt. Roedd nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at ymdrechion presennol ffermwyr i helpu'r amgylchedd, nad oedd, yn ôl yr hyn a deimlent, o fewn yr egwyddorion. Dywedodd ymatebydd: "mae ffermwyr Cymru eisoes yn cynhyrchu da byw rhagorol, wedi eu bwydo ar laswellt yn bennaf, gan reoli'n cefn gwlad hardd", "heb ffermwyr yn trin y tir, gofalu amdano a'i ffermio, byddai ein cefn gwlad yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn mae ar hyn o bryd,

a byddai hyn yn ei dro yn difrodi llawer o gynefinoedd bywyd gwylt.”  
Dadleuwyd hefyd fod ffermwyr wedi gwella ansawdd dŵr.

- 4.19 Roedd ymatebion niferus a oedd yn ystyried y cydbwysedd rhwng darparu bwyd a nwyddau cyhoeddus. Teimlai ymatebwyr fod defnyddio synnwyr cyffredin yn hanfodol, ac er mai prif rôl ffermwyr oedd cynhyrchu bwyd, roeddent o ganlyniad yn rheoli'r tir. Roedd gan eraill farn gryfach y dylai materion amgylcheddol gael blaenoriaeth uchel ac y dylid felly cynnwys categori ar wahân o fewn y cynlluniau, megis 'Gofal am yr Amgylchedd'. Awgrymodd un ymatebydd y dylai ffermydd gael isafswm o 10 y cant o'u tir wedi ei neilltuo i amddiffyn bywyd gwylt trwy leiniau llydan ar ymylon caeau, adfer pyllau dŵr, ardaloedd gwlyptir a blodau gwylt wedi eu hau. Teimlai un arall y byddai taliadau seiliedig ar yr amrywiaeth o gynefin neu rywogaeth sy'n bresennol ar fferm yn cyflawni buddion ecolegol, er gwaethaf pwysau i rheoli'r tir mewn modd llai sensitif. Roedd Hybu Cig Cymru yn awgrymu cynllun gwobrwyo amgylcheddol cyffredinol gyda gwobr sylfaenol a mesurau'n ymwneud ag ansawdd dŵr, pridd ac aer, lleihau allyriadau carbon a bioamrywiaeth a gwobrwyo uwch am fesurau mwy datblygedig fel ail-sefydlu mawnogydd.
- 4.20 Roedd llawer o ymatebwyr yn cynnig strategaethau i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol. Awgrymai rhai ymatebwyr y dylid gosod gwasanaethau cyhoeddus yn gyntaf, mai darparu gwasanaethau ecosystemau ddylai'r flaenoriaeth fod i'r rheolwr tir yn hytrach na thalu i ffermwyr ar dir llai hyfyw yn economaidd. Byddai hyn wedyn yn naturiol yn dod yn rhan o gadernid economaidd y wlad. Teimlai ymatebwyr eraill y bydd y cynllun presennol yn ei chael yn anodd mynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol a chymdeithasol, gan eu bod yn aml yn gwrthdaro â'r agwedd o geisio hynny ag y bo modd o enillion economaidd tymor byr. Roedd awgrymiadau mwy penodol yn cynnwys cynllun grantiau ar gyfer offer mwy effeithlon a llacio rheolau cynllunio ynghylch ffynonellau cynaliadwy o ynni / ffrydiau incwm eraill (ee gosod llety gwyliau), er mwyn cadw pobl ifanc i ffermio.

- 4.21 Fe wnaeth rhai ymatebwyr i Gwestiwn 1 grybwyll bywyd gwyllt yn benodol. Y brif farn oedd nad oedd rheolaeth dda o dir yn caniatáu unrhyw gamddefnyddio. Teimlai un ymatebydd fod gan Gymru safonau lles uchel a theimlai un arall y byddai bywyd gwyllt yn ffynnu os caiff cynydau, cig a chynnyrch arall eu ffermio'n gywir. Dywedodd ymateb yr RSPCA i'r ymgynghoriad eu bod yn "siomedig nad yw lles ac iechyd anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu bwyd yn cael ei ddsbarthu fel nwydd cyhoeddus yng nghynigion Llywodraeth Cymru am system daliadau amaethyddol ddiwygiedig."
- 4.22 Wrth drafod gweithredu'r cynllun, fe wnaeth nifer o ymatebwyr grybwyll cymhwysedd. Teimlai'r mwyafrif y dylai'r cynlluniau fod yn agored i ffermwyr gweithredol yn unig ac na ddylent gynnwys rheolwyr coedwigaeth na rheolwyr tir eraill. Roeddent i gyd yn teimlo bod angen cyfeirio cymorth at y ffermwr sy'n gweithio, yn enwedig mewn ffermydd teuluol bach er mwyn cadw sgiliau a chefnogi ffermwyr ifanc.
- 4.23 Roedd nifer o ymatebwyr a oedd yn bryderus y byddai'r cynllun arfaethedig yn rhoi Cymru mewn perygl o fethu â chystadlu gyda'r Deyrnas Unedig a gweddill Ewrop. Teimlai ymatebwyr y dylai unrhyw gynllun a gynigir alluogi Cymru i gyflawni yn unol â gweddill y Deyrnas Unedig a pheidio ag anfanteisio ffermydd Cymru. Y farn oedd nad oedd y cynlluniau arfaethedig yn ystyried cadernid economaidd na heriau sy'n wynebu cynhyrchu bwyd yn y dyfodol. Dywedodd yn ymatebydd y bydd "trawsnewid y cynllun cymorthdaliadau ffermydd yn llwyr yn drychinebus i bob busnes sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a'r gymuned ehangach" yn sgil yr hinsawdd presennol o ansicrwydd. Roedd galwadau am gadw pethau fel y maent hyd nes bydd y sefyllfa yn glir ar ôl Brexit.
- 4.24 Roedd gofid ychwanegol ynghylch ansicrwydd Brexit. Roedd llawer o ymatebwyr yn argymhell y dylai ffermwyr gael eu cefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod pontio ac y dylid gwneud penderfyniad ar ôl i'r sefyllfa fasnachu newydd ddod yn glir ynghylch a ddylid newid y cynllun cymorthdaliadau fferm. Roedd un ymatebydd yn argymhell fod yn rhaid

i gynlluniau fod yn rhai esblygol o gymharu â'r taliadau uniongyrchol presennol a newid dros gyfnod hirach o amser. Roeddent yn teimlo bod pum mlynedd i ddod â thaliadau uniongyrchol i ben yn anghyfrifol ar ran Llywodraeth Cymru gan y byddai'n dinistrio'r gymuned wledig, gyda "Brexit gwael neu ddim cytundeb yn edrych yn fwy ac yn fwy tebygol". Dywedodd ymatebwyr y dylid gwneud newidiadau'n raddol gan fod ffermio yn ei hanfod yn broses hirdymor, neu barhau â'r taliadau uniongyrchol fel y maent. Roedd mudiadau fel yr RSPB a Chymdeithas Adaryddiaeth Cymru yn cefnogi newid, fodd bynnag, gan ddweud nad oedd cadw pethau fel y maent yn ddewis ac na fyddai'n gwarantu gwerth am arian cyhoeddus na dyfodol ffermio a bywyd gwyllt.

- 4.25 Roedd llawer o ymatebwyr yn cynnig cynllun cyfunol sy'n gwobrwyo rheolaeth ac sy'n cyflawni cadernid economaidd cynaliadwy a nwyddau cyhoeddus ee cynllun rheoli fferm gyfan. Roedd ymatebwyr yn argymhell cynllun a fyddai'n cynnwys budd cyhoeddus a budd cymdeithasol ac a oedd wedi'i integreiddio â pholisi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a pholisi bwyd Cymru. Roedd y mudiad cenedlaethol Paramaethu Cymru yn annog "cynllun integredig sengl, heb ddim taliadau am arferion sy'n ddinistriol i'r amgylchedd, yn hytrach na'r dull dau gynllun gyda thaliadau gwahanol am Gadernid Economaidd a Nwyddau Cyhoeddus, gan y gallai hynny gefnogi parhau ffermio sy'n ddinistriol yn amgylcheddol law yn llaw â lleiniau bach yn unig o dir yn cael ei neilltuo i fyd natur, gyda'r ddau yn derbyn cymorth cyllid cyhoeddus." Roedd awgrymiadau eraill yn amrywio o bontio cyllid tuag at systemau organig ac amaeth-ecolegol i gymorthdaliadau i ffermwyr gweithredol am bob cilol/litr o fwyd maent yn ei gynhyrchu.
- 4.26 Cafodd dull dau-gynllun ei feirniadu gan y gallai un cynllun negyddu'r llall. Awgrymwyd y gallai ffermwyr rannu eu tir yn lleiniau ar gyfer amaethyddiaeth ddwys, sy'n ddinistriol i'r amgylchedd ac yn lleiniau wedi eu neilltuo i ddibenion amgylcheddol, gyda chyllid cyhoeddus yn cefnogi'r ddau fath o dir. Y farn oedd hefyd y gallai hyn ddigwydd



gyda thir mwy ffafriol a llai ffafriol, er enghraifft y tir isel ar gyfer ffermio dwys a'r ucheldir yn cael ei ffermio er budd cyhoeddus. Y farn oedd y gallai'r arferion hyn arwain at leihad mewn cynhyrchu bwyd neu hyd yn oed gefnu ar amaethyddiaeth. Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod angen cymryd gofal arbennig hefyd nad oes unrhyw ddewisiadau o gynlluniau economaidd yn niweidiol i nwyddau cyhoeddus. Ysgrifennodd Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol fod mynediad i'r ddau gynllun yn bwysig er mwyn cefnogi dull cynaliadwy o gynhyrchu bwyd a rheoli tir amgylcheddol law yn llaw â'i gilydd.

- 4.27 Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu bod yn "siomedig fod cyn lleied o bwyslais wedi cael ei roi ar gynlluniau Datblygu Gwledig eraill sy'n cefnogi'r cymunedau gwledig ehangach fel LEADER". Roedd eu hymateb yn cydnabod angen am ystyriaeth bellach ochr yn ochr â Chronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Undedig ac am i Lywodraeth Cymru gryfhau'r elfen hon mewn unrhyw gynnydd, er mwyn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy.
- 4.28 Roedd nifer bach o ymatebwyr yn cefnogi parhad marc sicrhau ansawdd. Roeddent yn annog marc sicrhau ansawdd a fyddai'n gosod nodau i fferm yn seiliedig ar ddarparu nwyddau cyhoeddus a bwyd o safon neu gynhyrchu coed. Awgrymai rhai y gellid cynnig hyn ar lefelau sylfaenol ac uwch.

#### Cwestiwn 2

- 4.29 Ail gwestiwn yr ymgynghoriad oedd: A oes angen i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael mynediad at gynlluniau newydd?
- 4.30 Gofynnwyd i ymatebwyr os oedd angen i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael mynediad at gynlluniau newydd, gyda'r dewisiadau o oes, nac oes ac ansicr. Gofynnwyd Cwestiwn 2 wedyn i ymatebwyr, os felly, pa gamau gweithredu fyddai orau?

- 4.31 Roedd mwyafrif (495) ymatebwyr yr ymgynghoriad i Gwestiwn 3 yn cytuno bod angen gweithredu i sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael mynediad at gynlluniau newydd, gyda 499 yn disgrifio pa gamau gweithredu fyddai orau.
- 4.32 Y farn gyffredinol oedd mai'r ffermwr gweithredol ddylai dderbyn y buddion a'r cymorth ar gyfer rheoli'r tir. Dywedodd un ymatebydd fod traean o'r tir amaethyddol yng Nghymru â thenantiaid iddo ac o'r herwydd mae eu gallu i gael mynediad at gymorth y Llywodraeth yn bwysig. Teimlai ymatebwyr bod angen i unrhyw gynllun newydd fod ar gael i ffermydd tenantiaid a chaniatáu'r hyblygrwydd iddynt ofalu am y fferm a'i hamgylchedd heb gyfyngiadau. Cefnogwyd hyn gan Gymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru, a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd peidio at allgàu ffermwyr tenant rhag cael mynediad at gymorth o'r ddau gynllun ar sail telerau eu cytundebau tenantiaeth neu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r denantiaeth. Teimlai ymatebion y Joint Food Sovereignty y dylai cymhwysedd fod yn seiliedig ar ddiffiniad Cyswllt Ffermio o 550 o oriau. Roedd NFU Cymru yn teimlo'n gryf y dylid cydnabod y sector tenantiaid, fel na chânt eu hanfanteisio. Yn ogystal, y byddai'n rhaid cael newidiadau sylweddol i gyfraith tenantiaeth er mwyn caniatáu mynediad cyfartal i'r cynlluniau.
- 4.33 Aeth ymatebwyr ymlaen i ddweud na ddylai tiffeddianwyr elwa ar yr unig sail o fod yn berchen y tir ac y dylid cynorthwyo ffermydd â thenantiaid i gael manteisio ar y cynlluniau hyn heb ofn o landlord yn elwa. Roedd ymatebwyr yn codi pryderon mai'r risg fyddai, heb uchafsymiau pendant a sicrwydd o fewn y cynlluniau nwyddau, y gallai tiffeddianwyr yng Nghymru elwa'n ariannol, tra bod ardaloedd helaeth o'n cefn gwlad yn segur heb fawr ddim rheolaeth. Dywedwyd y dylai cyllid fod yn bennaf seiliedig ar ganlyniadau synhwyrol o gynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchedd ac na ddylai neb dderbyn cymorthdal dim ond am fod yn berchen ar erwau. Dywedodd amryw o ymatebwyr y dylid cael caniatâd perchnogion, oherwydd natur hirdymor posibl y cynlluniau, megis plannu coed. Roedd ymatebwyr yn nodi bod hyd tenantiaethau busnesau fferm yn amrywio ac yn

dweud y dylid eu caniatáu ar sail fwy hirdymor er mwyn caniatáu i ffermwyr fanteisio ar benderfyniadau rheoli hirdymor. Dywedodd un ymatebydd y dylid gweithredu isafswm hyd tenantiaeth (efallai bum mlynedd) i fod yn gymwys am y cynlluniau. Dywedodd ymatebydd y dylai'r cynlluniau fod yn 100 y cant teg i bawb er mwyn rhoi cyfle cyfartal i unrhyw un sy'n berchen tir neu'n rhentu tir, fel y cefnogir gan Gymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru.

- 4.34 Ystyriaeth ychwanegol ynghylch ffermwyr tenant yn gallu manteisio ar y cynlluniau oedd ofnau o renti'u chwyddo. Roedd pryder gan ychydig ymatebwyr y gallai gwerthoedd rhenti godi o ganlyniad i incwm ychwanegol. Awgrymwyd y gallai fod gwobr ar wahân i dirfeddianwyr am ganiatáu i'w tir gael ei ffermio'n weithredol yng nghyd-destun manteision treth yn hytrach na chael ei dynnu allan o'r gronfa amaethyddol. Ar y llaw arall, roedd barn na ddylid darparu incwm na chymhellion ychwanegol i landlordiaid, rhywbeth a allai helpu lleihau prisiau tir a galluogi ffermwyr ifanc i fod yn berchen ar eu tir eu hunain.
- 4.35 Codwyd pryderon ychwanegol gan ffermwyr tenant a ffermwyr gweithredol mewn ymateb i Gwestiwn 2, ac amlinellir y rhain isod.
- Awgrymodd ymatebwyr mai'r trwyddedau pori sy'n rhwystro'r ffermwyr ar hyn o bryd rhag cael mynediad at gymorth.
  - Ni ddylai taliadau i ddad-ddofi tir fod yn werth mwy na thaliadau i dir ffermio; dylai'r cymhelliad fod i gynhyrchu bwyd.
  - Fe wnaeth un neu ddau ymatebwyr godi pryderon ynghylch bod y cynlluniau o fudd i dirfeddianwyr trwy ddarparu taliad ymddeol.
  - Dywedwyd bod angen i'r cynlluniau gymell ffermwyr a chynhyrchwyr hŷn i ymddeol yn gynt a throsglwyddo i'r cenedlaethau nesaf lle caiff ffyrdd traddodiadol eu herio a'u profi.
  - Mae angen am ateb digidol i gasglu a chadw gwybodaeth ymlaen llaw a chysylltu ymgeiswyr yn awtomatig â chynlluniau addas ar sail cymorth blaenorol a hanes diddordeb neu ddata.

- Mae angen symleiddio'r amrywiaeth bresennol o gynlluniau cymorth a pholisi o dybio cymhwysedd gan ymgeiswyr, yn hytrach na'r baich o brofi yn disgyn arnynt hwy bob tro – gweler trethiant Denmarc a chynlluniau taliadau Gogledd Iwerddon.
  - Mae rhentu tir eisoes yn faich economaidd ychwanegol sy'n rhwystro rheolaeth hirdymorth ac amgylcheddol o'r tir.
- 4.36 Yn ogystal, roedd ar ffermwyr gweithredol eisiau cadw'u diffiniad presennol yn hytrach na rheolwr tir gweithredol. Roedd y term rheolwr tir gweithredol yn cael ei ystyried fel un rhy agored, na fyddai'n diogelu ffermydd teuluol Cymru ac nad oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd.
- 4.37 Teimlai'r mwyafrif o dirfeddianwyr y dylid cael eu caniatâd i'w ffermydd tenant gymryd rhan mewn cynlluniau mwy hirdymor gan y gallai eu tir gael ei newid mewn ffordd na fyddai efallai'n addas gyfer eu cynlluniau hirdymor neu gynlluniau olynwyr fel rheolwyr tir. Awgrymodd un ymatebydd fod angen i landlordiaid a thenantiaid gydweithio tuag at nodau cyffredin gan nad oedd er budd i'r landlord gael tenantiaid anhyfyw neu aflwyddiannus.
- 4.38 Y farn gyffredinol o gyfnodau tenantiaeth oedd fod y prydlesi presennol yn rhy fyr ac nad ydynt yn cynnig fawr o sicrwydd. Dywedwyd bod cynnydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf mewn tenantiaethau amaethyddol yn cael eu gosod am bum mlynedd neu lai a thenantiaethau gan gynnwys tŷ ac adeiladau yn syrthio'n fyr o 10 mlynedd. Teimlai ymatebwyr nad oedd amodau presennol tenantiaethau yn cynnig sail resymol i hyrwyddo busnesau fferm cedyrn a chynaliadwy. Teimlent fod angen i Lywodraeth Cymru ddiwygio'n sylweddol y trefniadau ar gyfer lesdaliadau ffermydd er mwyn cynnig diogelwch ychwanegol i denantiaid presennol ac annog tenantiaethau fferm yn y dyfodol. Dywedwyd bod tenantiaethau mwy hirdymor yn caniatáu ffermwyr i fanteisio ar benderyniadau rheoli hirdymor, gan gynnwys y cynlluniau arfaethedig.

- 4.39 Roedd pryder y byddai landlordiaid yn gyndyn o ganiatáu tenantiaethau mwy hirdymor, fodd bynnag. Awgrymai tîrfeddiannwyr fod contractau hirdymor (ee ar gyfer plannu coed) yn opsiwn, fodd bynnag ni ddylai hyn gyfyngu ar tenantiaethau tymor byrrach neu anysgrifenedig ac y dylai fod cyfleoedd ar gael iddynt mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Roeddent yn dweud bod ffermwyr yn ymddangos fel pe na baent yn sylweddoli pe na bai'r tîrfeddiannwr yn gallu hawlio unrhyw daliadau yn y dyfodol neu daliadau tebyg yna y byddai rhenti'n codi'n unol â hynny.
- 4.40 Roedd gan ymatebwyr nifer o awgrymiadau ar gyfer helpu gweithredu'r cynllun, a gaiff eu crynhoi isod.
- Llywodraeth Cymru i helpu tenantiaid i gael mynediad at gynlluniau newydd trwy sicrhau bod gan gytundebau tenantiaeth ddarpariaethau wedi eu hymgorffori ynddynt i ganiatáu i'r tenantiaid ddefnyddio'r tir yn addas ac y gellid trosglwyddo'r cynlluniau i denantiaid yn y dyfodol.
  - Ymgyrch gyfathrebu glir, di-jargon a fyddai'n dangos i bobl yr hyn mae ganddynt hawl iddynt ar ôl Brexit.
  - E-bostio tenantiaid gyda dolen at wybodaeth am gynlluniau newydd.
  - Sicrhau nad oes gwahaniaethu o blaid defnyddwyr digidol a bod y negeseuon ar gael i'r holl denantiaid.
  - Lleihau gwaith papur a chanolbwyntio ar ymweliadau fferm ar gyfer cydymffurfio.

## 5. Cynllun Cadernid Economaidd: Cwestiynau 3-7 yr Ymgynghoriad

5.1 Mae'r Cynllun Cadernid Economaidd wedi cael ei gynnig i ddarparu "buddsoddiadau wedi'u targedu ar gyfer rheolwyr tir a'u cadwyni cyflenwi, yn arbennig i gefnogi gweithgareddau cynhyrchu bwyd o ansawdd da". Disgwylir i'r Cynllun fod yn seiliedig ar fod gan fusnesau strategaeth busnes gredadwy a'r potensial i gynnig enillion ar fuddsoddiad. Bydd yn berthnasol i gymorth ar draws pum maes allweddol:

- Cynyddu potensial y farchnad
- Gwella cynhyrchiant
- Arallgyfeirio
- Rheoli risg yn effeithiol
- Cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac arloesi.

### Cwestiwn 3

5.2 Roedd Cwestiwn 3 yn gofyn i ymatebwyr: O'ch profiad chi o raglenni cyfredol, beth fyddai'n gweithio'n dda yn y dyfodol yn eich tyb chi?

5.3 O'r 1,036 o ymatebion uniongyrchol i'r ymgynghoriad, roedd 619 yn cynnig ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd amrywiaeth helaeth o ymatebion i'r cwestiwn, nad oedd wedi eu cyfyngu i'r Cynllun Cadernid Economaidd gan fod yr ymatebion yn ymdrin â meysydd yn amrywio o gyfleoedd cynigion ar gyfer y dyfodol i effeithiolrwydd y cymorth presennol. Caiff rhai o'r prif bynciau a godwyd eu trafod isod.

5.4 Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr y dylai cynlluniau yn y dyfodol, yn bennaf oll, fod yn fwy hygyrch ac yn symlach. Roedd cydnabyddiaeth gref fod llwyddiant unrhyw gynllun yn y dyfodol yn dibynnu ar faint fydd yn ceisio amdanynt. Felly, dylai fod wedi ei gynllunio fel y gellir ei ddeall yn glir a'i fod yn hygyrch er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Dywedodd un ymatebydd fod y "Cynlluniau presennol yn llawer rhy gymhleth ac yn golygu bod nifer mawr o bobl yn gwneud

dim ond gweinyddu'r cynlluniau". Awgrymai Fforwm Organig Cymru fod y rhaglen newydd yn gyfle i fynd i'r afael â methiannau'r drefn bresennol, megis dull heb fod yn rhy haearnaidd a fydd yn caniatáu ar gyfer creu cynefinoedd trwy gydweithio â chymdogion, arian dros ben ar gost gwaith cyfalaf, ail-gyflwyno'r dull Swyddog Prosiect, a chymell arloesi.

- 5.5 Dywedodd ymatebwyr fod ar y ffermwr angen cynllun sy'n cymryd cyn lleied ag sy'n bosibl o'i amser ac sy'n syml i'w reoli. Cafodd y teimlad hwn ei adleisio gan lawer o ymatebwyr, yn enwedig ynghylch gelyniaethu ffermwyr hŷn sy'n ei chael yn anodd ymdrin â biwrocratiaeth a gofynion gweinyddiol. Teimlai nifer o ymatebwyr fod lefel sylfaenol o gymorth yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallai ffermwyr barhau i weithredu a thrwy hynny gael mynediad at raglenni eraill. Dywedodd NFU Cymru "ei bod yn glir y dylai'r dull o weithio ar gyfer y dyfodol gael ei gynllunio fel bod pob ffermwr ac nid yr ychydig yn elwa; y dylai weithio ar draws pob sector ac mae angen iddynt fod yn syml i ymgeisio amdanynt".
- 5.6 Fe wnaeth ymatebwyr ystyried y defnydd presennol o wasanaethau ymestyn a'u defnydd mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol. Yn gyffredinol, y farn a fynegwyd oedd bod gwasanaethau o'r fath, er bod iddynt fwriad da, yn methu oherwydd diffyg cydlyniant, diffyg canolbwyntio ar y pwynt cyswllt a sianelu cyllid i ymgynghorwyr yn hytrach nag yn fwy cynhyrchiol i ffermwyr eu hunain. Roedd eraill hefyd o'r farn fod y diffyg hyblygrwydd, yn enwedig ynghylch cyrsiau'n ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth, yn rhwystr i wella'r holl weithwyr amaethyddol. Fe wnaeth nifer o ymatebion gynnig barn ar y gwasanaeth a ddarperir trwy Cyswllt Ffermio gyda theimlad tuag ato'n gymysg. Roedd y rheini a siaradodd yn gadarnhaol am y rhaglen o'r farn ei bod yn ffordd werthfawr o helpu ffermwyr i symud eu busnes ymlaen a'i fod yn effeithiol wrth gynnig cyngor ar wella arferion ffermio. Cafodd ei grybwyll gan nifer o ymatebwyr fel ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth ac o rwydweithio o fewn y gymuned ffermio. Roedd y rheini a siaradodd yn negyddol am y cynllun o'r farn ei fod yn

rhy anhyblyg ac yn ymestyn allan yn llawer rhy eang i gyflawni o ddifrif i'r sector.

- 5.7 Roedd nifer sylweddol o sylwadau'n asesu'r cynllun Glastir â barnau cymysg. Roedd mwyafrif o ymatebwyr yn tynnu sylw at lwyddiant yn cynllun, yn enwedig o ran gwelliannau amgylcheddol, gwaith cyfalaf, cefnogi'r gymuned leol ehangach ac roedd Cymdeithas y Pridd yn cefnogi mabwysiadu dull fferm gyfan. Mae'r system gymorth effeithiol sydd ar waith gyda Glastir yn un rheswm dros ei lwyddiant, awgryma Cymdeithas y Pridd. Ond teimlai rhai fod angen i unrhyw gynllun yn y dyfodol ddysgu o fethiannau Glastir; yn enwedig ei ddiffyg hyblygrwydd, ei anallu i gyfrif am amodau lleol, a bygythiadau o gosbau ariannol. Teimlai un ymatebwydd fod "Y fiwrocratiaeth a'r gymhlethdod o fewn Glastir yn ormod ... gall weithiau fod yn llethol i un busnes ac yn anodd iawn ei ddilyn".
- 5.8 Roedd ar nifer o ymatebwyr eisiau gweld uchafswm yn cael ei roi ar gymorthdal, a'i bod yn ofynnol bod yn ffermwr gweithredol, er mwyn sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol ac nad oedd yn gwobrwyo tiffeddianwyr mawr yn annheg. Roedd lleiafrif o'r rheini a ymatebodd yn anghytuno, roedd arnynt eisiau gweld uchafsymiau taliadau yn cael eu lleihau a chymorthdaliadau'n cael eu cysylltu'n ôl â chynyrchu ac o bosibl yn canolbwyntio ar gynhyrchiant yr hectar. Roedd rhywfaint o amheuaeth y byddai busnesau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi (megis proseswyr ac archfarchnadoedd) yn cael mynediad at gymorth, oherwydd teimlid bod y rhain eisoes yn gwneud mwy o elw na chynhyrchwyr sylfaenol. Roedd y gofyniad i wneud taliadau i ddechrau ac wedyn derbyn cyllid hefyd yn cael ei ystyried i fod yn gyfyngol ac yn broblem benodol i berchnogion ffermydd llai.
- 5.9 Roedd teimladau cryf hefyd y dylai unrhyw gynlluniau newydd gydnabod y rheini a oedd eisoes yn gweithredu mewn modd llesol yn amgylcheddol ac y dylid ystyried arferion da presennol yn ogystal â'r potensial i wella. Roedd llawer o'r ymatebion o'r farn fod angen i gynlluniau wobrwyo'r rheini sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau



amgylcheddol, ond na ddylai hyn danseilio canlyniadau blaenorol i wella ecosystemau, lles anifeiliaid a lleihau allbynnau carbon.

- 5.10 Roedd ymateb Dŵr Cymru'n tynnu sylw ar yr angen am "fwy o bwyslais ar ganlyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth" gyda chyfran uwch o ymweliadau cydymffurfio i gadarnhau bod y buddsoddiad a addawyd wedi ei wneud ac wedi cyflawni'r canlyniadau a ddisgwyliid. Fodd bynnag, dywedodd Dŵr Cymru y bydd hi'n bwysig na fydd Llywodraeth Cymru'n haernaidd ynghylch y mathau o fuddsoddiad y dylai'r rheolwr tir eu gwneud, gan y bydd yn llesteirio cystadleuaeth ac y bydd iddo'r risg posibl o or-gyflenwi.
- 5.11 Teimlai llawer y dylai unrhyw daliadau fod yn gysylltiedig â gweithgaredd. Dylai cynlluniau yn y dyfodol felly fod yn seiliedig ar allbynnau bwyd/da byw sy'n gysylltiedig â'r tir a gaiff ei ffermio, gyda rhai ymatebwyr yn ychwanegu y dylai cynllun ychwanegol roi cyfle i ffermwyr osod eu tir neu rannau ohono mewn cynlluniau rheolaeth neu amgylcheddol penodol. Roedd cefnogaeth hefyd i dargedu cynlluniau newydd at ffermwyr gweithredol er mwyn rhwystro'r rheini a oedd yn cam-hawlio'r cymorthdaliadau sydd ar gael.
- 5.12 Yn ogystal, roedd ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd cysondeb ar draws ffiniau ac yn enwedig â gweddill y Deyrnas Unedig, aneffeithiolrwydd grantiau cyfalaf wrth gefnogi ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid a'r angen i sefydlu ffermydd hyfyw nad ydynt yn ddibynnol ar rhyw ffurf neu'i gilydd o'r Cynllun Taliad Sylfaenol.
- 5.13 Mae meysydd eraill a nodwyd yng Nghwestiwn 3 wedi eu crynhoi isod.
- Mae angen ystyriaeth penodol i Gymru ynghylch yr angen i ddatblygu'r Cynllun Cadernid Economaidd a'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus law yn llaw â'i gilydd, a'r budd o'u cysylltu â'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, Datganiadau Ardal a Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig, fel yr amlygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc – o’r tu fewn ac o’r tu allan i’r sector.
- Mae Cymdeithas y Pridd yn ailadrodd yr angen i sicrhau bod y gwir gost (adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni’r canlyniadau cynhyrchiol ac ehangach, megis dal a storio ac allyriadau carbon) o gynhyrchu’n cael ei chydabod a’i gwerthfawrogi. Maent yn cefnogi’n gryf gynllun ar wahân i gefnogi ffermio organig.
- Camau gweithredu i wella prisiau am gynnyrch a chyflawni enillion sefydlog, yn enwedig adnabod marchnadoedd allforio, sefydlogi anwadalwch prisiau a gwell marchnata, fel a amlygwyd gan Gymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru.
- Cynllun i gynnig cyngor ariannol, technegol a busnes i helpu busnesau i ddod yn gynaliadwy yn economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- Cymorth i bob ffermwr trwy system dryloyw a chydradd, nid i ychydig o ffermwyr trwy system ddyrys ac afresymol.
- Cynllun a fyddai’n parchu gwybodaeth ffermwyr. Dywedodd un ymatebydd, “Caniatáu i ffermwyr reoli’r tir gyda dim ond yr hyn sydd raid o reoleiddio a synnwyr cryf o synnwyr cyffredin”.
- Gwella marchnata ac elw i fwyd organig a bwyd a gynhyrchir yn lleol.
- Cefnogaeth i arallgyfeirio i gynhyrchu bwyd, ynni a nwyddau cyhoeddus. Roedd un ymateb ynghylch arallgyfeirio yn ei ddisgrifio fel hyn: “Gellir dadlau y dylai fod yn un o’r ystyriaethau hollbwysig ar gyfer cadernid yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys datblygu sgiliau a’r potensial ar gyfer twristiaeth a chyfraniadau amgylcheddol”.
- Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru yn cydnabod yr angen am atgyfnerthu’r codau arferion da presennol gyda pherthynas agosach rhwng rheolwyr cynlluniau a rheolaethau cynllunio.
- Cymorth yn ystod cyfnodau o dywydd drwg.

- 5.14 Roedd pedwerydd cwestiwn yr ymgynghoriad yn gofyn: Ydych chi'n cytuno â ffocws y Cynllun Cadernid Economaidd ar dyfu'r cyfleoedd mewn marchnadoedd ar gyfer cynnyrch o'r tir drwyddi draw yn y gadwyn gyflenwi, yn hytrach na chyfyngu'r cymorth i fusnesau rheoli tir yn unig?
- 5.15 Roedd 1,036 o ymatebion yr ymgynghoriad i Gwestiwn 4. Roedd 628 o sylwadau o'r ymatebion uniongyrchol. Roedd ymatebion yr ymgynghoriad yn mynegi barn gymysg ynghylch a ddylai'r Cynllun gefnogi cyfleoedd o farchnad yn tyfu ar gyfer pob cynnyrch drwyddi draw yn y gadwyn gyflenwi, neu gyfyngu'r cymorth i fusnesau rheoli tir yn unig.
- 5.16 Teimlai nifer mwy o ymatebwyr fod cyfyngu cymorth i fusnesau rheoli tir yn unig yn ffordd fwy effeithiol o greu cadernid economaidd. Roedd barn gref na ddylid rhoi cymorth i neb ond y bobl sy'n gweithio'r tir, gan eu bod yn eu hystyried eu hunain yn fwy agored i anwadalwch y farchnad a bod busnesau yn y gadwyn gyflenwi eisoes yn broffidiol ac felly na fyddai arnynt angen cymorth pellach. Roedd llawer o'r ymatebion o'r farn nad oedd gan gynhyrchwyr cynradd yr un pŵer roedd eraill yn y gadwyn gyflenwi yn ei fwynhau ac felly'n cefnogi sefydlu cymdeithasau cydweithredol mewn ymgais i hyrwyddo cydweithio rhwng ffermwyr bach i ddod yn gadarnach yn economaidd. Roedd cryn ofn hefyd y byddai unrhyw gynlluniau a fyddai o fudd i gynhyrchwyr eraill yn y gadwyn gyflenwi yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd economaidd cynhyrchwyr cynradd. Dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad: "Bwriadwyd y cyllid a ddyranwyd i Gymru at ddefnydd amaethyddol, fodd bynnag, o dan y cynigion mae cyfle i Gyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, ymgeisio am gyllid sy'n gwbl amhriodol gan eu bod yn gorff a gyllidir gan Lywodraeth Cymru".
- 5.17 Roedd ymatebwyr o'r farn fod angen sicrhau y caiff y farchnad ei rheoleiddio a bod mwy yn cael ei wneud i reoli grym archfarchnadoedd (ee labelu bwyd, peidio â rhoi'r lle mwyaf blaenllaw i gynhyrchion o dros y môr, triniaeth o gynhyrchwyr cynradd, etc). Un pryder a godwyd sawl gwaith oedd gallu'r corfforaethau aml-wladol

hyn i ddarganfod bylchau yn y cyllid a manteisio arno. Teimlai un ymatebydd fod “angen i’r cynllun cadernid economaidd ganolbwyntio ar y tir ei hun yn hytrach na’r gadwyn gyflenwi ar ôl y giât. Mae perygl gwirioneddol yma y bydd proseswyr, manwerthwyr etc. yn cael eu gwobrwo am weithiau i gynyddu elw’r cadwyni cyflenwi ar draul cynhyrchu cynradd bwyd”.

- 5.18 Teimlai nifer mawr o ymatebwyr fod angen mwy o gymorth ar rannau o’r gadwyn gyflenwi, ond y dylai unrhyw gymorth fod yn gyfyngedig. Roedd awydd penodol o fewn yr ymatebion hyn i gymryd camau i fyrhau’r gadwyn gyflenwi. Dywedodd un o’r ymatebion mai “o’r fferm i’r fforc yw’r ffordd iawn i fynd ond rydym ymhell o fod yn cymell y dull hwn o weithredu”. Roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai cymorth fod ar hyd y gadwyn gyflenwi yn cydnabod ei bod yn bwysig parhau i ganolbwyntio cymorth ar gynhyrchu cynradd ac elfennau eraill y gadwyn gyflenwi. Roedd cydnabyddiaeth fod rhyng-ddibyniaethau lluosog o fewn y gadwyn gyflenwi, felly mae angen sicrhau bod y cydbwysedd yn iawn. Rhoddwyd pwyslais penodol ar gefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gyda ffermydd Cymru’n wynebu’r her ar hyn o bryd o ddiffyg capasiti yn agos adref. Byddai annog lladd-dai, hufenfeydd, storfeydd grawn a gweithfeydd prosesu bwyd ar raddfa fach yn lleol, ym marn llawer o ymatebwyr, yn gwella’r diwydiant yn sylweddol trwy sicrau y gellir trin cynnyrch Cymreig yn lleol. Yn ogystal, roedd Confor yn cydnabod os oes cymorth ar gael i’r sector prosesu bwyd/amaethyddol, dylai fod ar gael i’r sector prosesu coed hefyd, ond dylid canolbwyntio ar gynhyrchu yn hytrach na phrosesu.
- 5.19 Roedd rhai o’r ymatebion yn mynegi’r farn y byddai dull cyfannol yn fwy effeithiol, ac y dylai cymorth fod ar gael ar hyd yr holl gadwyn gyflenwi. Teimlai’r ymatebwyr a gytunai â’r farn hon fod Llywodraeth Cymru yn iawn i gydnabod bod hyfywedd busnesau ffermio yn y dyfodol iawn mor ddibynnol ar gryfder a sicrwydd y gadwyn gyflenwi, ag ar lefelau cynhyrchu. Roedd y teimlad hwn yn cael ei adleisio gan ychydig a deimlai fod cynhyrchwyr cynradd yn dibrisio pwysigrwydd cael marchnad sefydlog a chadarn. Roedd ymatebwyr eraill yn

cefnogi dull cyfannol yn betrusgar gan ddweud bod “angen i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw unrhyw gymorth a ddarperir i dyfu cyfleoedd yn y farchnad yn arwain at gystadleuaeth annheg, yn enwedig lle gallai endidau mwy yn y gadwyn gyflenwi werthu'n rhatach na busnesau llai”.

- 5.20 Teimlai nifer bach fod angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo bwyd Cymreig a datblygu diwylliant bwyd ffyniannus yng Nghymru. Awgrymwyd nifer o syniadau, megis hyrwyddo cogyddion Cymreig, cynnydd mewn marchnadoedd ffermwyr, tai bwyta a thafarnau gastro o'r radd flaenaf, a sioeau bwyd. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr angen am fwy o gyllid i ddatblygu gwerthfawrogiad o'r hyn sydd gan fwyd Cymreig i'w gynnig ac ychwanegu mwy o werth yng Nghymru. Gellid datblygu hyn trwy raglenni addysg mewn ysgolion. Roedd un ymatebydd yn nodi bod angen cymorth ariannol i farchnata cynhyrchion, a bod angen inni ddatblygu ein brand ein hunain yng Nghymru, i ddangos beth sy'n ein gwneud ni'n wahanol i weddill y Deyrnas Unedig. Roedd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlygu'r cyfle i'r Cynllun Cadernid Economaidd gael ei gysoni â brand cenedl, sy'n cefnogi gwerthoedd brand cynaliadwy yn y sector rheoli tir. Byddai hyn yn hwyluso integreiddio cynhyrchion o ansawdd uchel â'r ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli, gyda gwell integreiddio mewn rheoleiddio, cymhellion a'r arferion gorau drwy'r holl sector. Fodd bynnag, dywedodd ymatebydd arall y byddai'n effeithiol cronni adnoddau a gweithio gyda chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig.

#### Cwestiwn 5

- 5.21 Roedd Cwestiwn 5 yn gofyn i ymatebwyr ai'r pum maes arfaethedig o gymorth yw'r rhai cywir i wella eu cadernid economaidd, ac a oedd unrhyw feysydd na chawsant eu cynnwys ond y dylid eu cynnwys.
- 5.22 O'r 984 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a ymatebodd i Gwestiwn 5, atebodd 234 mai'r meysydd arfaethedig oedd y rhai cywir i wella cadernid economiadd, roedd 235 yn ansicr, ac atebodd 137 na. Yn y

cwestiwn agored, cynigiodd 432 o ymatebwyr welliannau i'r meysydd arfaethedig o gymorth, neu awgrymu meysydd newydd i gael eu cynnwys.

- 5.23 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr a grybwyllodd Faes 1: Cynyddu Potensial y Farchnad, yn cytuno â'r Ddogfen Ymgynghori, yn yr ystyr ei bod yn bwysig cynnwys hyn o fewn y cynllun. Roedd sylwadau'n cynnwys ei bod yn bwysig datblygu cysylltiadau masnach rhyngwladol (y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd) yn sgil y twf economaidd mewn lleoedd eraill. Yn yr un modd, fe wnaeth eraill y sylw ei bod yn bwysig cynnal cysylltiadau masnach yr UE yn sgil yr allforion a'r mewforion presennol. Fe wnaeth nifer mawr o ymatebion grybwyll yr angen i dyfu marchnad ddomestig am fwyd a diod Cymreig. Fe wnaeth rhai sefydliadau godi pryder ynghylch datblygu clystyrau i gynhyrchwyr ac ar hyd y gadwyn gyflenwi, gan ddweud y gall roi rheolaeth i fânwerthwyr dros gynhyrchwyr, ac nad oes hanes o lwyddiant wedi bod wrth ddatblygu cysylltiadau o'r fath yng Nghymru hyd yma. Fe wnaeth nifer bach o ymatebwyr grybwyll nad yw cyrff sy'n bod eisoes yng Nghymru ac iddynt y nod o hyrwyddo bwyd a diod Cymru yn gwneud hynny'n ddigonol. Roedd lleiafrif yn anghytuno â'r farn hon, gan ddweud y gallai canolbwyntio ar allforion fod yn anfantais i gynhyrchwyr bach, ac y gallai rhoi cymorthdal i allforion amaethyddol achosi canlyniadau niweidiol i ffermwyr mewn gwledydd sy'n datblygu.
- 5.24 O ran Maes 2: Gwella Cynhyrchiant, fel wnaeth nifer mawr o ymatebwyr y sylw bod risg y gallai cynnydd mewn cynhyrchiant wrthdaro ag arferion cynaliadwy (ee defnydd o adnoddau, plaladdwyr). Barn amlwg oedd bod yn rhaid i unrhyw symudiad tuag at gynyddu cynhyrchiant gyd-ddigwydd ag arferion cynaliadwy – er enghraifft, cynnal iechyd y pridd. Barn arall oedd mai cyfyngedig oedd y potensial i wella cynhyrchiant oherwydd bod ffermwyr eisoes wedi gweithredu mesurau i ddod yn fwy cynhyrchiol, fod daearyddiaeth yn llesteirio'r graddau y gellid cynyddu cynhyrchiant, a bod cynlluniau sy'n bod eisoes yng Nghymru ac iddynt y nod o gyflawni hyn. Yn yr un

modd, fe wnaeth NFU Cymru y sylw fod, er mwyn cyflawni mwy o gynhyrchiant o fewn y sector, angen i Lywodraeth Cymru ddeall yn llawn y rhwystrau a'r galluogwyr presennol a wynebir gan ffermwyr ar hyn o bryd. Safbwynt arall o fewn yr ymatebion oedd fod "proffidioldeb" yn bwysicach na "chynhyrchiant", gan ddweud bod ffermwyr wedi cynyddu cynhyrchiant, ond bod costau cynyddol datblygu allbwn wedi gwasgu elw. Fe wnaeth ymatebwyr eraill grybwyll yr angen i ddarparu cymorth a/neu hyfforddiant ar gyfer technoleg a dulliau newydd i gynyddu cynhyrchiant.

- 5.25 Derbyniodd Maes 3: Arallgyfeirio nifer mawr o sylwadau gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Roedd llawer o'r rhain yn codi pryderon am y cynnig hwn, ond am amryw o wahanol resymau. Un farn, o fewn nifer o ymatebion, oedd bod gan lawer o ffermwyr eisoes fusnes a oedd wedi arallgyfeirio, a bod y marchnadoedd i ffermwyr newydd wneud hynny yn "orlawn" (neu'n gorlenwi). Cafodd hyn ei grybwyll yn benodol o safbwynt twristiaeth (megis datblygu llety gwely a brecwast ar dir fferm). Pwynt cysylltiedig oedd y gallai arallgyfeirio fod â risg uchel – gall fod angen swm sylweddol o fuddsoddiad rhag blaen, heb unrhyw warant o ennill hyn yn ôl. Yn ymateb NFU Cymru nodwyd yn yr un modd y dylai cymorth ar gyfer arallgyfeirio cynnwys cyllid yn hytrach na chanllawiau a chynghor yn unig. Barn arall ynghylch Maes 3 oedd y gall ffermydd yn yr ucheldir yn enwedig ei chael hi'n neilltuol o anodd arallgyfeirio. Barn arall yn erbyn y cynnig hwn oedd mai cynhyrchu bwyd a rheoli tir ddylai prif nod y Cynllun Cadernid Economaidd fod, ac y gall arallgyfeirio danseilio'r nod hwn.
- 5.26 Awgrymai rhai ymatebion fod i arallgyfeirio yr un risgiau o niwed amgylcheddol â chynyddu cynhyrchiant (Maes 2), gan awgrymu y dylai pob arallgyfeirio gynnal arferion cynaliadwy. Cafodd hyn ei grybwyll yn benodol ynghylch ynni adnewyddadwy – roedd llawer yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu neu'n symleiddio'r broses, ac yn cymryd camau i wneud caniatâd cynllunio yn fwy ffafriol i ddatblygiadau o'r fath. Yn yr un modd, awgrymai nifer bach o ymatebion y dylid annog cynhyrchu garddwriaethol, yn hytrach na

stoc anifeiliaid, er mwyn lleihad allyriadau CO<sub>2</sub> ac mewn ymateb i ddefnyddwyr yn symud tuag at ddietau seiliedig ar blanhigion. Fe wnaeth eraill y sylw fod angen datblygu seilwaith i alluogi arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig – megis band eang a signal ffonau symudol.

5.27 Fe wnaeth Maes 4: Rheoli Risg yn Effeithiol hefyd dderbyn nifer mawr o sylwadau penodol. Barn gyffredinol oedd bod y BPS yn ddull effeithiol o reoli risg, ac awgrymwyd y dylai taliadau barhau. Er enghraifft, crybwyllodd un ymateb ei fod yn fater o “bryder mawr” nad oedd y BPS wedi’i gynnwys yn y cynigion, a dywedodd un arall fod y pum maes arfaethedig yn annigonol heb barhad y BPS i gefnogi cynhyrchu cynradd. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd rhai fod angen gweithredu mesurau i ddiogelu rhag risg masnachol – gan grybwyll newidiadau i fewnforion ac allforion ar ôl Brexit. Barn arall, gan gynnwys barn o fewn ymateb Ymddiriedolaeth Natur Cymru, oedd y dylid cydnabod newid hinsawdd fel risg yn sgil yr effaith y bydd yn ei gael ar allbynnau ffermio, ochr yn ochr â’r rôl sydd gan reolwyr tir a Llywodaeth Cymru wrth helpu lliniaru hyn. Awgrymodd RSPB Cymru y dylai cymorth o’r fath ganolbwyntio ar ymyraethau sy’n galluogi ffermwyr i lliniaru risg yn effeithiol ar sail tystiolaeth gadarn (cyngor, a data). Dywedodd un ymatebydd, er enghraifft, nad oedd yn teimlo bod paragraff 5.41 yn rhoi “unrhyw sicrwydd gwirioneddol”. Roedd nifer llai o ymatebwyr yn mynegi’r farn y dylai iechyd anifeiliaid fod yn flaenoriaeth yn y cynllun – gyda chyfeiriadau penodol at TB.

5.28 Roedd nifer cyfyngedig o sylwadau ynghylch Maes 5: Cyfnewid Gwybodaeth, Sgiliau ac Arloesi. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a grybwyllodd y maes hwn yn cytuno ei fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen. Dywedodd nifer mawr o ymatebion y dylid targedu’n arbennig ddyfodiaid iau a newydd i’r sector. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu cyrsiau neu sefydliadau penodol – gydag amryw o sylwadau cadarnhaol am y cymorth presennol a ddarperir gan Cyswllt Ffermio. Roedd cyrsiau a sefydliadau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth Nuffield
- coetiroedd cymunedol ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli



- cymdeithasau amaethyddol, clybiau trafod a mudiadau tebyg sy'n bod eisoes fel modd o ledaenu gwybodaeth (ee cyllid i siaradwyr)
- symud oddi wrth ddyddiau agored, tuag at ddysgu mwy ymarferol, lle gall ffermwyr arbrofi gyda syniadau a thechnegau newydd
- prosiectau arddangos fel y gall ffermwyr wneud dewis ar sail gwybodaeth ynghylch pa gyrsiau i ymuno â hwy a pha sgiliau i'w dysgu (awgrymwyd gan Dŵr Cymru)
- gwybodaeth a chyingor ynghylch hanes a threftadaeth y tir a ffermir (awgrymwyd gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Dyfed a Gwynedd)
- buddsoddi neu greydau treth i gefnogi ymchwil a datblygu (awgrymwyd gan Gymdeithas y Gyfraith Amaethyddol ac RSPB Cymru)
- dylid cynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus fel elfen orfodol o'r cynllun (awgrymwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Cymru).

5.29 Roedd barn leiafrifol nad oedd yn cytuno â'r cynnig. Dywedodd un y dylid cael gwared ar Faes 5 oherwydd anghenion sgiliau amrywiol pob fferm, a barn arall oedd na ddylid gwario arian cyhoeddus ar addysg y rheini sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Roedd rhai sylwadau'n awgrymu y gellid gwella Cyswllt Ffermio.

5.30 Gwnaed cyfres o sylwadau'n cytuno â'r pum maes, gan eu bod yn cynnwys cwmpas y sector – fodd bynnag o fewn y rhain, dywedodd cyfran fawr fod y meysydd yn rhy 'amwys' a bod angen mwy o fanylion arnynt er mwyn ymateb yn briodol. Yn yr un modd, awgrymai nifer o sylwadau ei bod yn anodd ateb heb wybod beth fyddai dyfodol perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

5.31 Dywedodd nifer o sylwadau y dylai'r meysydd gynnwys mwy o bwyslais ar rôl diwylliant wrth reoli tir Cymru – megis y Gymraeg, a phwysigrwydd cymunedau bach. Yn yr un modd, awgrymai rhai sylwadau nad yw gwahaniaethau rhwng y mathau o ffermydd a

ffermwyr wedi cael eu cydnabod o fewn y pum maes (ucheldir a thiroedd isel, ffermwyr tenant a'r sector a berchnogir, bach a mawr).

5.32 Roedd hefyd rywfaint o argymhellion cyfannol ynghylch arferion amgylcheddol a chynaliadwyedd, gan gynnwys hyrwyddo garddwriaeth uwchlaw ffermio anifeiliaid, hyrwyddo ynni adnewyddadwy, iechyd pridd, systemau dŵr, tir wed'i neilltuo i flodau gwyllt ar gyfer gwenyn, ac y dylai'r meysydd gyfateb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn yr un modd, fe wnaeth nifer o ymatebwyr grybwyll iechyd a lles anifeiliaid, yn enwedig ynghylch Clwy'r Traed a'r Genau a TB. Awgrymai un y dylid cynnwys mesurau fel lleihau'r defnydd o wrthfotigau. Yn ogystal, fe wnaeth nifer mawr o ymatebion grybwyll y dylai'r pum maes flaenoriaethu cynhyrchu bwyd a / neu ddiogelu'r cyflenwad bwyd.

5.33 Fe wnaeth rhai ymatebion awgrymu meysydd ychwanegol penodol:

- maes yn canolbwyntio ar bobl ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r sector (awgrymwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru)
- gwella perfformiad amgylcheddol, er mwyn sicrhau bod popeth a gynhyrchir yn gynaliadwy, er enghraifft ar sail ansawdd pridd, cynefinoedd dŵr croyw a lefelau a ammonia yn yr aer
- ehangu Sectorau Strategol Allweddol er mwyn sicrhau na chaiff diwydiannau coedwigol eu hesgeuluso
- dau faes arall a gynigiwyd:
  - dylai chweched maes fod yn ffordd adeiladol allan o'r sector i'r rheini sy'n ei chael yn anodd ennill incwm. Fe wnaeth yr ymatebydd hwn grybwyll bod risg anghymesur o hunanladdiad yn y sector, a bod diddymu'r BPS yn debygol o achosi gofid i ffermwyr
  - gallai seithfed maes fod yn gronfa strategol genedlaethol i gynyddu cystadleurwydd o fewn y sector.

5.34 Roedd materion eraill a gafodd sylw gan ymatebwyr yn cynnwys:

- gellid ail-drefnu strwythur y pum maes i gynnwys cymorth "ar daliad" a chymorth "system ehangach"

- mae cymorth i greu coetiroedd yn gofyn am weithredu i oresgyn y rhwystrau presennol
- nid yw'r meysydd arfaethedig yn trafod yn fanwl y berthynas fasnach gyda Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn y dyfodol
- nid yw'r pum maes yn cynnig dim byd newydd o gymharu â'r strategaethau presennol ar gyfer y sector
- ni ddylid defnyddio'r term "rheolwyr tir" wrth gyfeirio at "ffermwyr"
- Incwm Byw Sylfaenol i bawb yng Nghymru i sicrhau cadernid economaidd yn ystod y pontio at reolaeth tir cwbl gynaliadwy.

## Cwestiwn 6

- 5.35 Roedd Cwestiwn 6 yn gofyn i ymatebwyr pa rai, o'r pum maes arfaethedig ar gyfer cymorth, yw'r blaenoriaethau o ran cyllid a'r drefn o'u darparu. Roedd yn gofyn a oedd angen rhoi rhai mesurau ar waith cyn rhai eraill.
- 5.36 Fe wnaeth cyfanswm o 515 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn. Nid oedd yr ymatebion ar y cyfan yn gwahaniaethu rhwng blaenoriaeth trefn na lwfans cyllid – ac felly mae'r crynodeb yn trafod y meysydd yn nhermau blaenoriaeth yn fwy cyffredinol.
- 5.37 O fewn yr ymatebion, y farn gyffredinol oedd mai Maes 1: Cynyddu Potensial y Farchnad, a Maes 2: Gwellu Cynhyrchiant, ddylai fod yn flaenoriaethau i'r cynllun. O ran Maes 1, roedd y rhesymau pam y dylai fod yn flaenoriaeth yn cynnwys bod datblygu masnach newydd yn bwysig yn wyneb perthynas fasnachu aneglur yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd a phartneriaid masnachu byd-eang eraill. Yn yr un modd, gan dynnu sylw at ansicrwydd marchnadoedd allforio, awgrymodd llawer o ymatebwyr (megis gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur) y dylid cryfhau marchnadoedd domestig – fel ar gyfer cig oen Cymreig.
- 5.38 Barn gyffredinol oedd y dylai mwy o gynhyrchiant fod yn gysylltiedig â chynnydd ym mhotensial y farchnad, neu'n dilyn o ganlyniad i hynny. Awgrymai rhai ymatebwyr fod cynnydd mewn cynhyrchiant bwyd yn

bwysig er mwyn diwallu anghenion byd-eang. Awgrymodd amryw o ymatebion (gan gynnwys gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru) y gellir gwneud enillion cyflym trwy wella iechyd anifeiliaid. Dywedodd un ymatebydd, er enghraifft, y gall afiechydon lesteirio twf ac y gall BVD gostio £46.50 y flwyddyn am bob buwch i ffermwyr. Roedd barn leiafrifol yn gosod Maes 2 fel blaenoriaeth is – gan ddweud y byddai'n dilyn o fuddsoddiad mewn meysydd eraill (yn bennaf Maes 5). Barn arall oedd bod Maes 2 yn golygu risgiau i'r amgylchedd.

- 5.39 Roedd rhai ymatebion yn gosod Maes 3: Arallgyfeirio fel y flaenoriaeth, ond y farn gyffredinol, lle crybwyllwyd hi, oedd ei fod yn flaenoriaeth is na'r Meysydd eraill (yn enwedig Meysydd 1 a 2). Roedd rhesymau dros hyn yn cynnwys y dylid cadw cymorthdaliadau amaethyddol yn llwyr o fewn y sector, bod eisoes ormodedd o ffermydd wedi'u harallgyfeirio yng Nghymru, ac nad yw pob fferm yn gallu arallgyfeirio. Lle'r oedd ymatebwyr yn ystyried Maes 3 fel y flaenoriaeth, roedd y rhesymau'n cynnwys bod Cymru'n rhy ddibynol ar gig coch ac y dylai arallgyfeirio i'r sectorau coedwigaeth a garddwriaeth, er budd economaidd ac amgylcheddol. Roedd rhesymau eraill a roddwyd yn cynnwys y gall twristiaeth gefnogi ffermydd sy'n gweithio, ac y gall gefnogi ynni adnewyddadwy.
- 5.40 Roedd Maes 4: Rheoli Risg yn Effeithiol yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn flaenoriaeth uwch na Maes 3, ond yn flaenoriaeth is na Meysydd 1 a 2. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr a oedd yn crybwyll rheoli risg yn pwysleisio'r angen i gadw taliadau BPS fel ffordd o liniaru anwadalwch y farchnad, a bod llawer o fusnesau ffermio yn dibynnu ar y cynlluniau taliadau presennol am incwm. Barn gyffredinol oedd bod llawer o ffermydd na fyddant yn goroesi heb daliadau BPS. Barn arall oedd bod rheoli risg yn effeithiol yn bwysig yn wyneb ansicrwydd canlyniad trafodaethau Brexit. Dywedodd Fforwm Organig Cymru, "Rheoli risg yn effeithiol ddylai fod y flaenoriaeth gyda thaliadau sy'n cydnabod gwerth arferion presennol ac sy'n helpu diogelu'r amgylchedd a chefnogi rheoli da byw a thir". Roedd rhai

ymatebion yn cysylltu Maes 4 â Maes 3, gan awgrymu y gall arallgyfeirio helpu lleihau unrhyw risgiau i'r sector amaethyddol yn ehangach.

5.41 Roedd ychydig o ymatebwyr yn gosod Maes 2: Cyfnewid Gwybodaeth, Sgiliau ac Arloesi, fel y flaenoriaeth uwchlaw'r meysydd eraill – fodd bynnag y farn gyffredinol oedd bod Maes 5 yn eilradd i Feysydd 1 a 2. Lle'r oedd Maes 5 yn cael ei ystyried fel y flaenoriaeth, pwysleisiodd arloesi a'r angen i ddod â chenedlaethau iau i'r sector. Roedd rhai ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i ddarparu gwybodath a hyfforddiant i alluogi ffermwyr / rheolwyr tir i ymdrin â'r dysgu cyflym y byddai ei angen ar ôl Brexit. Roedd ymatebwyr eraill yn cyfeirio'n benodol at sut y byddai sgiliau a hyfforddiant yn cael eu gweithredu. Roedd awgrymiadau'n awgrymu:

- byddai angen ymgynghorwyr yn y cynllun, i benderfynu lle byddai trosglwyddo gwybodaeth yn fwy effeithiol na grant
- mae gan sefydliadau addysg uwch y seilwaith eisoes i gyflymu trosglwyddo gwybodaeth o fewn y sector
- bydd canllawiau ar gyfer cyflawni nwyddau cyhoeddus yn helpu sicrhau bod mwy yn manteisio ar y cynllun
- dylai ffermwyr gael cyfleoedd mwy ffurfiol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
- mae Cymru'n cynnal partneriaethau gyda gwledydd a sefydliadau ehangach, yn enwedig sefydliadau addysg a chanolfannau technoleg.

5.42 Roedd rhai ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn awgrymu blaenoriaethau gwahanol ar gyfer y pum maes. Barn gyffredinol (gyda rhai yn cyfeirio at Reoli Risg) oedd yr angen i gynnal taliadau BPS naill ai ar sail hirdymor / parhaol, neu rhyw ffurf arall o incwm ar gyfer ffermwyr. Yn ymateb NFU Cymru, maent yn dweud bod angen modelu empirig i ddangos sut y gall y cynllun Cadernid Economaidd "liniaru ar gyfer y bwch" o ddod â thaliadau uniongyrchol i ben. Yn gysylltiedig â hyn roedd nifer o ymatebion a oedd yn awgrymu y dylid darparu mwy o

gymorth ariannol i fusnesau ffermydd llai. Roedd barn gyffredin arall yn awgrymu y dylai'r amgylchedd fod yn flaenoriaeth uchel i'r cynllun, er enghraifft trwy hyrwyddo pori cynaliadwy, yr economi gylchol, lleihau'r defnydd o gemogolion amaethyddol, a chysoni â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Dywedodd nifer mawr o ymatebion na ellir blaenoriaethu'r meysydd oherwydd y dylid eu penderfynu ar sail achosion unigol, yn wyneb anghenion gwahanol ffermydd unigol. Fe wnaed y sylw gan rai fod trin pob nod ar ei ben ei hun yn creu'r risg o greu cyllidebau anghynaliadwy yn sgil rhaniad artiffisial o dasgau. Roedd amryw o ymatebion yn crybwyll yr angen a'r cyfle i ddatblygu'r sector coetiroedd a choedwigaeth yng Nghymru o fewn y cynllun.

5.43 Roedd meysydd blaenoriaeth eraill a awgrymwyd yn cynnwys:

- iechyd anifeiliaid
- rheoli iechyd ac afiechydon planhigion (gan gynnwys rheoli chwyn goresgynnol)
- lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- cymorth i ffermydd bach a ffermydd teuluol
- mynd i'r afael â'r lleihad mewn lladd-dai lleol
- tryloywder yn y gadwyn gyflenwi
- cyflwyno polisiau caffael sy'n hyrwyddo cynnyrch Cymreig.

5.44 Roedd lleiafrif o ymatebion yn gwbl wrthwynebus i'r cynllun – gan ddweud y dylai taliadau uniongyrchol barhau i ffermwyr, ac nad oedd y meysydd blaenoriaeth a awgrymwyd yn caniatáu ar gyfer hyn.

#### Cwestiwn 7

5.45 Roedd Cwestiwn 7 yn gofyn a ddylai Llywodraeth Cymru fod yn buddsoddi mewn pobl, i gyflwyno syniadau, sgiliau a phobl newydd i faes rheoli tir a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

5.46 O'r 1,036 o ymatebwyr uniongyrchol, atebodd mwyafrif clir o 434 y dylai, dywedodd 97 na ddylai ac roedd 88 yn ansicr. Roedd y cwestiwn yn gofyn wedyn i'r rhai a atebodd yn gadarnhaol, gynnig

awgrymiadau ar y ffordd orau o weithredu'r buddsoddiad, ac roedd 532 o sylwadau.

- 5.47 Argymhellwyd nifer o syniadau gan ymatebwyr ar gyfer buddsoddi mewn rheoli tir a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Gellid dosbarthu'r rhain yn chwe chynnig gwahanol: cenedlaeth y dyfodol, cynlluniau, hyfforddiant, ysgolion, yr amgylchedd, a marchnata.
- 5.48 Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr fod cenedlaethau iau neu genedlaethau'r dyfodol o ffermwyr o dan anfantais sylweddol o gymharu â'r rheini yn y diwydiant yn y gorffennol. Roedd y gallu i lunio gyrfa o fewn y sector yn cael ei ystyried yn anodd neu'n ofer yn sgil y diffyg cymorth wrth sefydlu a datblygu eu busnes. Roedd nifer o ymatebion yn nodi'r rhwystrau mae pobl ifanc yn eu hwynebu, a oedd yn waeth i'r rheini nad oedd yn dod o deulu ffermio ac nad oedd felly'n berchen ar dir. Teimlai'r ymatebwyr fod angen mwy o gefnogaeth ar lawr gwlad i helpu'r rheini a oedd yn cychwyn yn y sector.
- Awgrymwyd cyfleoedd i gysylltu tîrfeddianwyr â ffermwyr newydd ar gychwyn, trefnu teithiau astudio i annog cyfnewid gwybodaeth gyda rheolwyr tir o bob rhan o'r byd a gwella proffidioldeb ffermio.
- Awgrymodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol y gellid cefnogi newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth trwy gefnogi "Ffermydd ar raddfa fach, gan gynnwys ffermydd Gofal ac amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned, a gaiff eu rheoli / perchnogi gan gyfran llawer uwch o ferched a phobl ifanc o gymharu â'r brif ffrwd". Yn yr un modd, roedd sylwadau eraill yn nodi bod ffermwyr hŷn yn rhwystr i olyniaeth ffermwyr y dyfodol, gyda llawer ananfodlon neu'n methu â gwerthu na phrydlesu tir. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cymhellion fel cynllun ymddeoliad neu dulliau newydd o denantiaeth dymor byr i ffermwyr hŷn yn lliniaru problemau o'r fath, trwy fod yn rhyddhau tir.
- 5.49 Awgrymwyd nifer o gynlluniau gan ymatebwyr i gefnogi'r ddarpariaeth o sgiliau mewn rheoli tir yng Nghymru. Teimlai nifer mawr o ymatebion fod Cyswllt Ffermio wedi bod yn llwyddiant mawr wrth ddarparu cymorth i ragolygon busnes rheolwyr tir ac y byddai cynlluniau tebyg yn cael eu croesawu. Roedd cynigion eraill yn

cynnwys cynllun prentisiaethau a chynllun ymgynghori ar ddefnydd tir. Roedd ymatebwyr hefyd yn cynnig sefydlu banc tir cenedlaethol ac ardaloedd datblygu gwledig, fel cymhelliad i hybu buddsoddiad ac er budd yr economi wledig ehangach. Roedd un o'r ymatebion yn trafod sut roedd rheoli tir yn debygol o newid gan ddweud "Mae'n debygol y bydd angen i set sgiliau sylfaenol rheolwr tir y dyfodol fod yn ehangach ac yn fwy trosglwyddadwy (datrys problemau, negodi, mentergarwch, manteisio i'r eithaf ar dechnoleg, marchnata etc.) ac mae dadl gref fod mwy o croes-ffrwythloni syniadau gyda'r rhwydweithiau myfyrwyr ac addysg ehangach yn angenrheidiol". Roedd bron bob un o'r ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd unrhyw gynlluniau o'r fath i gefnogi ffermwyr wrth iddynt addasu i hinsawdd ariannol ac amgylcheddol sy'n newid.

- 5.50 Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â darparu hyfforddiant ac uwchsgilio i ffermwyr y presennol a'r dyfodol. Roedd rhai o'r farn fod y gwasanaethau a'r sefydliadau presennol yng Nghymru yn methu â chyfateb i'w hanghenion, gydag un yn dweud bod cynlluniau o'r fath yn "dibynnu'n ormodol ar ddiffiniadau cul o sgiliau achrededig i ddiwydiant penodol ac nad ydynt yn caniatáu ar gyfer profiad neu arbenigedd a enillwyd yn y sector seiliedig ar dir". Roedd llawer yn mynegi teimladau tebyg, gan gredu y byddai dull a fyddai'n blaenoriaethu gwybodaeth a sgiliau ffermwyr sydd wedi eu meithrin dros genedlaethau yn fwy buddiol. Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru yn cefnogi gweld y bobl fel ased sydd yr un mor werthfawr yn y newid byd-eang a domestig, felly bod angen cynnig cymorth busnes technegol wedi'i integreiddio â rhaglenni polisi rhanbarthol a lleol. Roedd mwy o bwyslais ar gefnogi cyfnewid cymheiriaid yn cael ei awgrymu'n aml ac yn cael ei gefnogi gan y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol.
- 5.51 Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn tynnu sylw at y rôl bwysig sydd gan ysgolion a cholegau wrth gyflwyno sgiliau mewn rheoli tir. Roedd cefnogi colegau a myfyrwyr aeddfed yn flaenoriaeth benodol, ond roedd llawer yn mynegi awydd i amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd



gael ei gynnwys ar y cwricwlwm cenedlaethol yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Roedd un sylw'n awgrymu y dylid gefeillio ffermydd arloesol gydag ysgolion i hyrwyddo addysg mewn sgiliau newydd. Roedd un arall yn canmol gwaith y Gwartheg ar Daith a oedd yn llwyddiannus wrth ddangos y diwydiant amaeth i blant ysgol ac yn mynegi awydd i gael dulliau tebyg o ymwneud â'r cyhoedd yn ehangach.

- 5.52 Roedd nifer bach o sylwadau'n cyfeirio'n benodol at yr amgylchedd, gan ddweud y dylid diffinio ffermwyr fel "curadwyr a meithrinwyr y tirwedd", tra bod un arall yn awgrymu y dylai cadernid economaidd gael ei yrru gan arferion cynaliadwy. Roedd un sylw'n nodi sut roedd diogelu amgylchedd a thirweddau Cymru yn ystyriaeth bwysig wrth geisio hybu twristiaeth.
- 5.53 Fe wnaeth rhai grybwyll pwysigrwydd marchnata er mwyn annog recriwtiaid newydd i'r diwydiant. Roedd un o'r sylwadau'n awgrymu awydd i amaethyddiaeth gael ei bortreadu fel sector a oedd yn rhoi boddhad wrth weithio ynddo.

## 6. Cynllun Nwyddau Cyhoeddus: Cwestiynau 8-15 yr Ymgynghoriad

6.1 Nod y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig yw galluogi rheolwyr tir i gael eu talu am gynhyrchu canlyniadau nad oes marchnad iddynt ar hyn o bryd, ond sydd â'r potensial i gynnig buddion sylweddol i bobl Cymru. Y chwe paramedr o'r cynllun a amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori yw:

- Paramedr 1 – cwmpas y cynllun – pa nwyddau cyhoeddus
- Paramedr 2 – agored i bawb – sicrhau bod yr holl reolwyr tir yn cael y cyfle i fod yn gymwys
- Paramedr 3 – cyfleoedd i weithredu – defnyddio dull gofodol
- Paramedr 4 – nwyddau cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth – sicrhau gwerth am arian
- Paramedr 5 – ychwanegedd – ffocws ar reoli tir yn weithredol
- Paramedr 6 – cyngor i reolwyr tir – sut i roi arweiniad priodol.

### Cwestiwn 8

6.2 Roedd wythfed cwestiwn yr ymgynghoriad yn gofyn: Rydym wedi nodi ein paramedrau arfaethedig ar gyfer y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. A ydynt yn briodol? Gyda'r dewisiadau ymateb, ydynt, nac ydynt ac ansicr. Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn: Fyddech chi'n newid unrhyw beth? Gyda'r un dewisiadau. Yn olaf, roedd Cwestiwn 8 yn gofyn i ymatebwyr: Os felly, beth? (fyddent yn ei newid)

6.3 O'r 1,036 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, roedd 189 o'r ymatebwyr hyn o'r farn nad oedd y paramedrau yn briodol, gan ateb 'na', roedd 198 yn 'ansicr' ac roedd 226 yn canfod y paramedrau yn briodol, gan ateb 'ydynt'.

6.4 Pan ofynnwyd i ymatebwyr a fyddent yn newid y paramedrau arfaethedig, atebodd 58 'na', atebodd 132 'ansicr' ac atebodd 397 y byddent. Mae ymatebion y rheini a oedd yn dymuno newid y paramedrau wedi eu crynhoi isod.

## Paramedr 1: Cwmpas y cynllun

- 6.5 Y farn gyffredinol ymysg ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd yr angen i gynnwys nwyddau cyhoeddus ychwanegol o fewn cwmpas y cynllun.
- 6.6 Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru, yn gweld y cwmpas arfaethedig yn rhy gyfyng ac yn dadlau dros restr lawnach o nwyddau cyhoeddus. Gosodwyd pwysigrwydd hefyd ar gadw cwmpas y cynllun yn hyblyg, gan y bydd hyblygrwydd yn caniatáu i feysydd nad ydynt wedi eu nodi ddod ar gael o dan y cynllun. Roedd Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn mynegi barn wahanol trwy ddatgan eu cytundeb â phob maes o fewn y cwmpas arfaethedig.
- 6.7 Roedd ymatebwyr yn awgrymu amrywiaeth o nwyddau cyhoeddus ychwanegol i'w cynnwys, gyda chynhyrchu bwyd yn cael ei annog yn daer. Caiff y nwyddau cyhoeddus eraill a awgrymwyd eu crynhoi yng Nghwestiwn 10 (gweler paragraff 6.49 ymlaen). Roedd cynhyrchu bwyd yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol i fywyd ac felly dyma'r mwyaf o'r nwyddau cyhoeddus. Roedd rhai o'r farn fod hepgor cynhyrchu bwyd yn ddiffyg, gan nodi goroesiad economaidd a buddion amgylcheddol hunan-gynhaliath fel rhesymau dros eu barn. Roedd un ymatebydd yn galw am gydnabod cynhyrchu bwyd fel budd cyhoeddus, gan nodi ffigurau diweddar gan Defra a oedd yn dangos cwmpas yn y graddau mae Prydain yn cynhyrchu ei bwyd ei hun – i lawr i 61 y cant. Roedd aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru hefyd yn gwrthwynebu absenoldeb cynhyrchu bwyd ac yn “teimlo'n gryf fod y sicrwydd o gynhyrchu bwyd diogel o ansawdd uchel yn rhywbeth y dylai pob aelod o gymdeithas yng Nghymru fod â hawl iddo, a heb y ffynhonnell warantedig a dyfir gartref, ni ellir sicrhau hyn”. Sylw arall a wnaed oedd os yw Lloegr a'r Alban yn cydnabod cynhyrchu bwyd fel nwydd cyhoeddus, bydd ffermio yng Nghymru o dan anfantais a gallai hyd fod â'r potensial o “ddifa busnesau Cymreig”.
- 6.8 Cyflwynwyd barn wahanol gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a oedd yn croesawu'r gydnabyddiaeth y gallai nwyddau cyhoeddus

amgylcheddol a chymdeithasol bellach wrthbwysu cynhyrchu bwyd. Yn wahanol i'r farn gyffredinol, dywedodd yr ymateb hwn "os mai'r nod yw sofraniaeth bwyd, yna nod y polisi ddylai fod i leihau allforion bwyd. Os mai'r nod yw sicrwydd bwyd, yna'r polisi ddylai fod i gael cysylltiadau da a pholisi masnach i gefnogi mewnforynion a chadwyni cyflenwi rhyngwladol, ond nid ar unrhyw gost".

- 6.9 Roedd y nwyddau cyhoeddus a nodir o fewn yr ymgynghoriad yn derbyn cefnogaeth oherwydd y buddion lluosog y gallent eu cyflawni. Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod gan ddiogelu pridd y gallu i ddarparu sylfaen ar gyfer y nwyddau cyhoeddus eraill, yn benodol; datgarboneiddio, cynefinoedd gwydn, atal llifogydd ac ansawdd aer a dŵr. Roedd y Sustainable Soils Alliance "yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i gydnabod effaith pridd ar y nwyddau/dangosyddion eraill hyn, a sicrhau nad yw unrhyw strategaeth ar gyfer iechyd ac adfer pridd yn cael ei gosod mewn seilo o safbwynt rheoleiddio, gwerthuso na chyllidebol". Rhoddodd un ymatebydd y farn wahanol y dylai diogelu pridd fod yn fater o hunan-fudd ffermydd, mater rheoleiddio a gwydnwch yn hytrach na nwydd cyhoeddus. Roedd ymateb arall yn cefnogi cynnwys datgarboneiddio ac addasu i newid hinsawdd, wrth gydnabod yr angen i ddiogelu storffeydd carbon coetiroedd a chynyddu cysylltedd gorchudd o goed yng Nghymru.
- 6.10 Roedd diffyg diffiniad gwrthrychol na chanfyddiad cyffredin o beth mewn gwirionedd yw'r term nwydd cyhoeddus, yn achosi ymatebwyr i holi'n gyson am gwmpas y cynllun. Roedd un ymatebydd yn cydnabod y bydd nwyddau cyhoeddus yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac felly, roedd yn bwysig fod y pwnc yn agored i drafodaeth gyhoeddus i benderfynu'r blaenoriaethau hyn a sicrhau nad yw nwyddau cyhoeddus yn cael eu gorchymyn gan grwpiau pwysu neu fuddiannau carfannol. Roedd y mater hwn o ganfyddiad yn dod i'r amlwg hefyd ynghylch treftadaeth a hamdden fel nwyddau cyhoeddus, lle'r oedd llawer o ymatebwyr yn ystyried treftadaeth fel nwydd cyhoeddus yn ei hawl ei hun, ac yn awgrymu gwahanu'r ddau.

6.11 Mae'r cynllun yn bwriadu cyflawni amrywiaeth helaeth o nwyddau cyhoeddus, ond roedd ymatebwyr yn gyson o dan yr argraff fod canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol. Y farn gyffredinol a oedd yn cael ei chyfleu oedd ei bod yn iawn rhoi gwarchod a gwella'r amgylchedd yng nghanol y cynllun. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dal y farn hon, wrth gydnabod bod "amaethyddiaeth yn cyfrif am ddegfed ran o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr y Deyrnas Unedig" ac y byddai cyflawni rheolaeth tir mwy cynaliadwy yn cynnig amrywiaeth o fuddion o ran twf economaidd gwledig, gwasanaethau ecosystemau a thwristiaeth gwledig. Roedd WWF Cymru yn cytuno bod yn rhaid i ganlyniadau amgylcheddol gael blaenoriaeth ac roedd ymatebion yn awgrymu cyfatebiaeth agos rhwng polisi defnydd tir a pholisi lliniaru newid hinawdd. Roedd barn wahanol a gyflwynwyd gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn ystyried bod y cynllun yn canolbwyntio'n rhy gul ar ganlyniadau amgylcheddol.

Paramedr 2: Agored i bawb

6.12 Roedd ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch Paramedr 2 ac yn rhannu'r farn gyffredinol y dylai'r contract nwyddau cyhoeddus gael ei wneud gyda'r ffermwr gweithredol.

6.13 Rhoddodd ymatebwyr sawl rheswm dros gyfyngu'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus i'r ffermwyr eu hunain yn unig. Daliai rhai y dylai'r contract fod gyda'r ffermwr gweithredol yn hytrach na'r rheolwr tir, gan mai hwy sy'n cymryd risgiau entrepreneuriaid ac ariannol y contract. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru Sir Drefaldwyn yn cydnabod bod yr Undeb Ewropeaidd yn cryfhau rheolau ffermwyr gweithredol, sy'n golygu y byddai Cymru o dan anfantais ac na fyddai ar gae chwarae gwastad gyda chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig pe cymeradwyid y cynllun hwn.

6.14 Roedd llawer yn rhybuddio yn erbyn y potensial i fusnesau brynu'r tir ac elwa o'r cynllun er gwaethaf eu cyfraniad cyfyngedig i'r economi wledig. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru: "wrth gael ei gyplu â'r cynnig i ddisodli'r rheol Ffermwr Gweithredol â pholisi agored i bawb,

byddai cefnu ar uchafsymiau taliadau yn gwaethygu'r graddau y gallai unigolion preifat a thirfeddianwyr corfforaethol mawr gymryd arian oddi wrth teuluoedd ffermio a chymunedau gwledig". Wrth ystyried hyn, roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn annog gweithredu uchafswm taliadau i'r cynllun, a fyddai islaw'r lefel bresennol ac yn cyfrif yn llawn am gostau llafur.

6.15 Ynghyd â llawer o ymatebwyr, dywedodd CLA Cymru na ddylai cyllid i gyrrff cyhoeddus fod o fewn cylch gwaith y Cynlluniau Nwyddau Cyhoeddus, gan eu bod yn eiddo i'r Llywodraeth. Roedd un ymatebydd yn disgrifio gweithgaredd o'r fath fel "sianelu arian yn ôl i lywodraeth leol sy'n gam annoeth i economi ehangach Cymru".

6.16 Roedd barn wahanol yn cytuno y dylai'r cynllun fod ar gael i bawb. Credai un ymatebydd y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer polisi rheoli tir cynaliadwy sy'n edrych ar bob tir a phob math posibl o reoli tir, gan arwain at "agwedd fwy cyfannol at gynghori, cyflawni a chanlyniadau". Roedd eraill yn cytuno ar y sail na ddylai cymhwysedd ar gyfer y cynllun gael ei gyfyngu a'i benderfynu gan ffactorau fel nifer o erwau.

Paramedr 3: Cyfleoedd i weithredu

6.17 Roedd y farn amlycaf ymysg ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn mynegi gwrthwynebiad i'r dull targedu gofodol. Roedd llawer, gan gynnwys Undeb Amaethwyr Cymru (cangen Sir Drefaldwyn), yn amau pa mor gyfoes a chywir oedd y mapio gofodol. Roedd y defnydd o swyddogion maes neu swyddogion prosiect yn cael ei gefnogi'n gyson gan ymatebwyr. Y teimlad oedd nad oedd mapio digidol yn cymryd lle asesiadau ar lawr gwlad a gyflawnir ar yr adeg briodol o'r flwyddyn gan bobl sydd wedi cymhwyso'n briodol. Roedd cyd-drafod â'r trefeddiannwr wrth wneud penderfyniadau yn cael ei ystyried yn hanfodol, rhywbeth y byddai defnyddio swyddogion maes yn ei hwyluso. Roedd un ymatebydd yn dadlau dros rôl y rheolwr tir wrth ymchwilio a llunio'r prosiectau maent yn eu rhedeg, gan y byddai hyn yn sicrhau bod prosiectau nwyddau cyhoeddus yn gweddu â gweithgareddau rheoli tir eraill ac y byddai'n ddeniadol i ffermwyr.

- 6.18 Roedd NFU Cymru yn awgrymu dull haenog wrth benderfynu'r cyfleoedd i weithredu. Wrth wneud hynny, dylid adnabod a chefnogi nwyddau cyhoeddus cyffredin trwy ddull haen-sylfaen gyda haen gysylltiedig o gytundebau unswydd wedi eu targedu, a fyddai'n llai mewn nifer ac yn cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau arbenigol.
- 6.19 Roedd yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol yn cynnig barn wahanol, gan nodi pwysigrwydd blaenoriaethau wedi eu targedu'n ofodol er mwyn sicrhau y byddai cynlluniau'n darparu nwyddau cyhoeddus yn y lleoliadau mwyaf priodol.
- 6.20 Roedd cyfran o ymatebwyr yn gwrthwynebu cynnig yr ymgynghoriad bod yn "rhaid derbyn y dewisiadau presennol", gyda'r farn fod yn rhaid i ffermwyr fod yn rhydd i ddewis cymryd cam gweithredu neu beidio.
- Paramedr 4: Nwyddau cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- 6.21 Roedd y dull seiliedig ar dystiolaeth yn destun cynnen. Roedd ymatebwyr yn gyson yn cydnabod pwysigrwydd y dull seiliedig ar dystiolaeth a nodir ym Mharamedr 4. Roedd y canolbwyntio ar ganlyniadau'n cael ei weld fel rhywbeth hanfodol ar gyfer newid gwirioneddol, gydag un ymatebydd yn mynnu "dylai disgwyliadau fod yn uchel gyda thargedau heriol". Roedd cyfranogwr arall yn awgrymu teilwra'r contractau nwyddau polisi fel bod hyfywedd masnachol allbynnau ffermydd mewn perygl pe na lynid at y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd y gefnogaeth hon yn cael ei gwrth-ddweud gan bryder ymatebwyr eraill, lle'r oedd y graddau roedd ffermwyr ar drugaredd newidynnau allanol, yn enwedig y tywydd, yn cael ei nodi'n gyson fel ffactor llesteiriol wrth gyflawni canlyniadau a ragamcenir. Roedd llawer yn rhybuddio yn erbyn y niwed posibl y gallai'r Paramedr hwn ei achosi i reolwyr tir, oherwydd y graddau'r oeddent yn agored i ffactorau allanol o'r fath. Trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau, yn ôl dadl NFU Cymru, byddai'r ymgynghoriad yn plannu anwadalwch mewn mecanwaith sy'n ceisio darparu sefydlogrwydd a chyflawni gwydnwch gwledig.

- 6.22 Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn cydnabod y potensial hwn i niweidio'r rheolwr tir unigol, gan nodi'r posibilrwydd o wahaniaethu rhwng busnesau fferm. Dywedodd yr undeb, "o dan Gynllun Nwyddau Cyhoeddus bydd y taliad y gall ffermwr fod yn gallu'i dderbyn yn dibynnu ar yr ardal lle maent yn ffermio a beth sy'n bresennol ar y fferm – o bosibl hefyd y graddau y mae cymdogion yn barod i gydweithredu – gan agor y potensial am wahaniaethu anferth rhwng busnesau fferm o safbwynt cael mynediad at yr unig gynllun taliadau sydd ar gael i'r diwydiant". Mae hyn yn rhywbeth roedd llawer o ymatebwyr yn ei ddisgrifio fel "loteri cod post".
- 6.23 Roedd ymatebwyr yn nodi'r materion canlynol, sy'n gofyn am sylw cyn gweithredu Paramedr 4.
- Penderfynu ar ddulliau mesur. Mae rhai nwyddau cyhoeddus yn hynod o anodd eu mesur ar lefel leol iawn, megis purdeb dŵr neu agwedd weledol. Mae angen i'r cynllun sicrhau nad yw'r ffactorau hawdd eu mesur yn cael y flaenoriaeth. Dylid gosod metrigau y cytunwyd arnynt er mwyn darganfod effaith gwahanol fesurau a defnyddio corff a all ddyfarnu lle bo anghytundeb (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru).
  - Rhoi blaenoriaeth i fonitro. Roedd ymatebwyr yn gyson yn cefnogi'r defnydd o broses fonitro effeithiol. Dywedodd Dŵr Cymru y bydd monitro yn sicrhau y bydd penderfyniadau buddsoddi'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Roedd llawer yn rhybuddio yn erbyn defnyddio Glastir fel model ar gyfer monitro nwyddau cyhoeddus.
  - Datblygu llinellau sylfaen. Roedd Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol o'r farn ei bod yn hanfodol fod y llinell sylfaen y byddai unrhyw gynllun gwella'n cael ei fesur mewn cymhariaeth â hi yn cael ei diffinio'n briodol. Awgrymodd un ymatebydd y gallai PONT fod â rôl wrth sefydlu llinellau sylfaen.
  - Roedd ymatebwyr, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn mynnu bod yn rhaid i'r cynllun gynnwys nodau, blaenoriaethau, targedau a cherrig milltir.



6.24 Roedd yr anhawster wrth benderfynu gwerth yn cael ei godi'n gyson gan ymatebwyr. Roedd sicrhau gwerth am arian yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, oherwydd o'r blaen, roedd asiantaethau statudol wedi bod yn ddiffygiol yn eu dull o fonitro a gorfodi, gan arwain at arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi heb ennill dim budd cyhoeddus. Roedd ymatebydd yn cydnabod bod tystiolaeth werthuso ar hyn o bryd yn defnyddio amrywiaeth o unedau, fframiau amser a graddfeydd ac felly fod angen dull cydlynol. Roedd yr ymatebydd hwn yn galw ar i gyfraddau tâl am y nwyddau cyhoeddus adlewyrchu gwerth y buddiolwr a chost cynhyrchu a chyflawni, gan sicrhau bod y rheolwr tir yn cael ei ddigolledu'n briodol. Roedd NFU Cymru yn galw am fwy o wybodaeth i roi dealltwriaeth o'r fethodoleg ar gyfer adnabod nwyddau cyhoeddus a'u canlyniadau procsi a'r broses a ddefnyddid i benderfynu'r gwerthoedd.

Paramedr 5: Ychwanegedd

6.25 O'r rheini a gyfeiriodd at bamedr 5, roedd cytundeb cyffredinol y dylid cynnal, cydnabod a gwobrwyo'r cyfraniadau presennol at yr amcanion. Roedd NFU Cymru yn mynegi siom gyda honiad Llywodraeth Cymru nad oedd, yn gyffredinol, agweddau y tu hwnt i gynhyrchion economaidd yn cael eu cyflawni gan y sector preifat, gan ddweud bod hyn yn anghywir ac yn gamarweinol yn wyneb y dystiolaeth glir o amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau a gaiff ei gyflawni gan ffermwyr yng Nghymru. Roedd CLA Cymru yn awgrymu defnyddio paramedr cynnal neu barhau i helpu cydnabod gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud a'r gwaith sydd ei angen i gynnal hyn. Teimlai ymatebwyr yn gryf na ddylid defnyddio ychwanegedd i gosbi'r rheini sydd eisoes yn cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel, gyda phryder na allai'r rheini a oedd wedi ymwneud yn weithgar â chynlluniau nwyddau cyhoeddus blaenorol barhau i ychwanegu am byth.

6.26 Roedd ymatebydd yn amau Paramedr 5 o safbwynt ffermio ymyrraeth isel. Roedd rhai ffermwyr yn dymuno defnyddio technegau ymyrraeth isel i adfer prosesau naturiol, ond ni fyddent yn denu taliad o dan y

paramedr hwn er gwaethaf cyflawni amrywiaeth o nwyddau cyhoeddus o'u tir.

6.27 Roedd pwysigrwydd cadw'r cynllun yn agored yn cael ei ailadrodd gan ymatebwyr. Roedd un ymatebydd yn gweld cyflawni nwyddau cyhoeddus fel rhywbeth rhy haearnaidd ac yn annog cadw'r cynllun yn agored i wahanol atebion cyflawni i wahanol ffermydd. Roedd eraill yn pwysleisio na ddylai'r cynllun fod yn cau neb allan ac y dylai fod yn berthnasol i'r rheini a oedd yn dymuno gwneud ymrwymadau cryf i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.

6.28 Roedd eraill yn awgrymu dewisiadau ar gyfer trefniadau cyllido, a oedd yn cynnwys:

- cosbi gweithgaredd difrodus a gwobrwyo newidiadau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
- gwneud newid yn orfodol
- ei gwneud yn ofynnol fod trawsgydymffurfio yn amod unrhyw grant.

Paramedr 6: Cyngor i reolwyr tir

6.29 Y farn gyffredinol ymysg ymatebwyr oedd yr angen i gadw'r cymorth cyngori yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn codi pryderon bod Llywodraeth Cymru wedi colli arbenigedd ac yn argymhell defnyddio ffynonellau ehangach o arbenigedd megis trydydd partïon. Roedd gwrthwynebiad tebyg ynghylch y defnydd o Cyswllt Ffermio "nad oes ganddynt ddealltwriaeth na ellir weithiau, am resymau gwahanol, atgynhyrchu yn y cae bethau a gaiff eu dyfeisio ar bapur", yn ôl un unigolyn.

6.30 Dylid cydnabod ffermwyr fel asedau mewn rheoli tir, gan fod ganddynt eisoes y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus, yn ôl ymatebwyr. Roedd un ymatebydd yn cydnabod bod ffermwyr yn adnabod eu tir yn well nag unrhyw ymgynghorwyr ac ychwanegodd Dyfroedd Cymru na ddylai'r cynllun fod yn rhy haearnaidd ond yn hytrach yn galluogi rheolwyr tir i fanteisio i'r eithaf ar eu sefyllfa, sgiliau, diddordeb a'r galw. Wrth

gydnabod ffermwyr fel asedau, roedd ymatebwyr yn nodi bod angen dull wedi'i deilwra o'u cefnogi. Roedd Coed Cymru a CLA Cymru hefyd yn cytuno bod angen i gymorth cynghori symud oddi wrth gyfleoedd cyfyngedig gan nad yw pob rheolwr tir yn cael at gyngor yn yr un ffordd.

- 6.31 Roedd y defnydd o swyddogion achos ar gyfer cymorth cynghori yn cael ei annog yn gyson gan ymatebwyr, dull o gyflawni sy'n cynnig y teilwra roedd llawer wedi gofyn amdano. Er gwaethaf hyn, roedd gallu staff i gyflawni contractau cwbl newydd ac unswydd yn bryder allweddol, rhywbeth roedd NFU Cymru yn ei ddisgrifio fel tasg amhosbil yn yr amser sydd ar gael.

#### Newidiadau Ychwanegol

- 6.32 Roedd terminoleg y cynllun yn cael ei amau'n gyson drwy'r ymatebion. Roedd y term nwyddau cyhoeddus yn cael ei ystyried yn rhy amwys a diystyr; rhywbeth a allai gyfyngu ar effeithiolrwydd gweithredu'r cynllun. Roedd ymatebwyr yn galw am ddefnyddio terminoleg syml, neu ddiffiniad cyffredin, wedi'i adolygu gan gymheiriaid. Roedd angen eglurder a gwahaniaethu rhwng nwyddau cyhoeddus, nwyddau preifat a'r term adnoddau ar y cyd gan ymatebwyr a oedd yn cydnabod cymhlethdod tynnu llinellau pendant rhyngddynt. Fe wnaeth ymatebwyr awgrymu'r defnydd o 'Gynllun Gwella Amgylcheddol' yn lle Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.
- 6.33 Awgrymodd ymatebwyr newidiadau ychwanegol i drefniadau rheoli cynlluniau. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell mewnblannu'r gwaith o gyflawni cynlluniau i'r fframwaith darparu adnoddau naturiol, a'r defnydd o flaenoriaethau polisi adnoddau naturiol fel sail i reoli a defnyddio tir yng Nghymru. Roedd y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau amgylcheddol yn profi i fod yn broblem, gydag ymatebwyr ac ymateb Undeb Amaethwyr Cymru yn rhybuddio yn erbyn pentyrrau mawr o waith gweinyddol, yn enwedig "yn ystod y fath gyfnod a fyddai'n ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith

Llywodraeth, a gwneud hynny ar adeg pan fo gwaith hanfodol a brys sy'n gysylltiedig â Brexit eisoes yn achosi straen sylweddol".

- 6.34 Roedd cynnig yr ymgynghoriad i symud y tu hwnt i gyfrifiad y gost gyfredol a achosir a'r incwm a gollir, yn destun cynnen ymysg ymatebwyr. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn galw am ail-ystyried y cynnig i wneud taliadau uwchlaw'r cyfrifiadau hyn gan y byddai'n torri rheolau'r WTO ac o bosibl yn arwain at waharddiadau masnach yn erbyn y Deyrnas Unedig, ac felly'n cael effaith niweidiol ar ffermydd Cymru. Roedd NFU Cymru yn croesawu'r cynnig gan y byddai hyn yn caniatáu i ffermwyr gael eu gwobrwyo'n deg am y nwyddau maen yn eu cynhyrchu, gyda'r amod bod y polisiau a'r lefelau taliadau newydd wedi eu llunio i weithredu o fewn ffiniau rheolau'r WTO.
- 6.35 Roedd newidiadau a gwrthwynebiadau eraill i'r cynllun yn cynnwys:
- Dylid integreiddio'r cynlluniau Nwyddau Cyhoeddus a Chadernid Economaidd oherwydd roedd ar ffermwyr angen gweld budd rheolaeth amgylcheddol i gynhyrchiant y fferm gyfan, a gefnogwyd gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.
  - Roedd rhai'n codi'r mater o ansicrwydd gwleidyddol ac yn rhybuddio yn erbyn newid hyd nes roedd y Llywodraeth yn gwybod mwy am y tirwedd gwleidyddol.
  - Mwy o wybodaeth ac eglurder ar y cynlluniau a sut y byddent yn cael eu cyflawni, eu mesur a'u talu amdanynt.
  - Cyflwyno uchafsymiau taliadau i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.
  - Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn galw am eglurder ar yr effaith y byddai'r cynigion yn ei gael ar statws treth y busnes fferm.
  - Roedd Llywodraeth Awstralia wedi nodi y dylai polisi amaethyddol ganolbwyntio ar ddarparu bwyd ac na ddylai gael ei gyfeirio fel cyfrwng i fynd i'r afael â phob mathau o faterion amgylcheddol.
  - Roedd angen rhagor o drafod ac ymgynghori â'r cyhoedd.

## Cwestiwn 9

6.36 Nawfed cwestiwn yr ymgynghoriad oedd: Mae'r cynllun hwn i fod i gynnig y cyfle i reolwyr tir gael mynediad at ffrwd incwm newydd sylweddol wrth i'r BPS ddod i ben. Sut allem ni wella'r hyn sy'n cael ei gynnig i ddenu rheolwyr tir tra'n bod hefyd yn gwireddu ein gweledigaeth ac yn cyflawni ein hamcanion? Mae'r 582 o ymatebion a dderbyniwyd wedi eu crynhoi isod.

### Ffactorau allweddol i lwyddiant

6.37 Roedd ymatebwyr yn cynnig meysydd roeddent yn darogan y byddent yn hanfodol i ddenu rheolwyr tir a llwyddiant y cynllun yn y pen draw. Y thema amlycaf drwy'r ymatebion oedd pwysigrwydd incwm a gwobr. Barnwyd bod cyflwyno'r cynllun fel cyfle ac iddo well taliadau sy'n darparu ffrwd incwm ddibynadwy a gwerthfawr yn allweddol bwysig er mwyn annog unrhyw un i newid arferion yn wirfoddol. Wrth gydnabod diwedd y BPS, dywedodd WWF Cymru: "mae'n rhesymegol mai cymhelliad cryf i ddenu rheolwyr tir fydd sicrhau bod y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn darparu incwm sylweddol a dibynadwy tebyg". Roedd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Natur o'r farn fod cyfleu'n glir y bydd cyflawni nwyddau cyhoeddus yn talu'r biliau yn y tymor hir, tymor canolig a'r hirdymor yn hanfodol er mwyn i'r cynllun weithio. Roedd thema gref o gadernid economaidd, gyda llawer yn crybwyll bod yn rhaid i'r cynllun fod yn hyfyw yn economaidd er mwyn iddo fod yn werth ei wneud.

6.38 Roedd cytundeb cyffredinol ymysg ymatebwyr fod yn rhaid i'r cynllun fod yn hygyrch, teg a syml, elfennau a fyddai'n gwneud y cynllun yn gyfle deniadol. Roedd CLA Cymru yn haeru y bydd hyblygrwydd a phragmatiaeth o fewn dyluniad y cynllun yn galluogi perthnasoedd cadarnhaol. Ychwanegodd Undeb Amaethwyr Cymru yr angen i sicrhau y bydd y cynllun ar gael i ffermwyr tenant a hynny gyda chyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth. Roedd ymatebwyr yn adlewyrchu'r farn hon ac yn annog cynllun a oedd â symlrwydd a rhwyddineb yn

rhan gynhenid ohono. Wrth wneud hynny mae'n hanfodol cadw rheolau ac amcanion yn realistig a syml gan ddarparu cyngor a chanllawiau ar gyfer gweithgareddau nas cyflawnir yn arferol gan reolwyr tir. Roedd llawer yn galw ar i'r cynllun gael ei weinyddu'n rhwydd, gan ganiatáu'r isafswm o fiwrocratiaeth a'r uchafswm o hwyluso. Roedd rhai yn cynghori'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus i ddysgu oddi wrth Glastir, a oedd â gormod o fiwrcratiaeth yn ymwneud ag ef.

- 6.39 Mae ar reolwyr tir angen help a chefnogaeth i ymwneud â'r cynllun, yn ôl ymatebwyr. Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd y defnydd o ymgynghorwyr a rheolwyr prosiect hawdd cysylltua â hwy yn cael ei argymell. Bydd penodi swyddogion prosiect gyda phrofiad eang yn helpu rheolwyr tir i sylweddoli'r potensial o arallgyfeirio a sicrhau bod yr opsiynau cywir yn cael eu dewis, ac felly'n lleihau'r baich a roddir yn gyfan gwbl ar y rheolwr tir. Roedd NFU Cymru yn tynnu sylw at brofiadau yn Seland Newydd, lle'r oedd nifer o ffermwyr wedi dioddef problemau iechyd meddwl yn sgil effaith diwygio amaethyddol pellgyrhaeddol. Roedd gweithredu Ymddiriedolaethau Cymorth Gwledig yn Seland Newydd yn cael ei ganmol gan NFU Cymru wrth alw am rwydwaith cymorth cynhwysfawr tebyg yng Nghymru.
- 6.40 Mae addysg yn hanfodol er mwyn newid y feddylfryd o fewn y sector ac felly hyrwyddo mwy o atyniad i'r cynllun. Y farn oedd, er mwyn cyflawni'r symudiad tuag at y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, bydd yn rhaid i reolwyr tir confensiynol newid eu harferion, rhywbeth y gellid ei annog trwy addysg ynghylch y pwnc o werth amgylcheddol.
- 6.41 Yn unol â'r thema gyson, roedd ymatebwyr yn galw am gynnwys cynhyrchu bwyd i ddenu rheolwyr tir i'r cynllun. Soniodd ymatebydd am barodrydd ymysg rheolwyr tir i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol law yn llaw â chynhyrchu bwyd ac roedd yn awgrymu y dylai polisi yn y dyfodol fanteisio ar hyn, gan sicrhau nad yw cynhyrchu bwyd a'r amgylchedd yn cael eu gweld fel pe baent yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

6.42 Awgrymiadau eraill y barnwyd eu bod yn allweddol er mwyn denu rheolwyr tir oedd prosiectau hirdymor a buddsoddiad tirfeddianwyr yn y weledigaeth.

Gwelliannau

6.43 Y prif welliant i'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad, a awgrymwyd gan ymatebwyr fel rhywbeth hanfodol ar gyfer denu ffermwyr i'r cynllun, oedd mwy o ganolbwyntio ar gymorth i'r ffermwr gweithredol. Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch cyfyngu cwmpas y cynllun i'r ffermwr gweithredol yn unig ac felly ganiatáu i gyllid digonol fod ar gael i'r ffermwr. Roedd rhai yn codi amheuan pam fod rheolwyr tir yn cael eu hystyried yn y cynigion, ac y byddai hyn yn awgrymu bod sefydliadau ac ystadau mawr yn fwy abl na ffermwyr presennol. Yn hytrach, dylai'r cynllun gefnogi'r rheini y mae eu hincwm yn gyfan gwbl o'r tir a chyfyngu'r swm a dderbynnir i bob busnes.

6.44 Byddai gweithio gyda'r ffermwr gweithredol yn gwella'r cynllun arfaethedig yn sylweddol. Dywedodd un ymatebydd: "mae'n hanfodol fod ffermwyr a rheolwyr tir, gyda'u hadnabyddiaeth agos o'r tir a'u profiad, yn bartneriaid wrth lunio'r mesurau nwyddau cyhoeddus sy'n briodol ac yn ymarferol ar gyfer y tir maent yn ei reoli". Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd yn cefnogi'r gwelliant hwn, yn dadlau dros rôl y rheolwr tir wrth gyd-lunio'r cynllun newydd; roedd y sefydliad yn gweld hyn fel ffordd o ennyn diddordeb mwy o ffermwyr.

6.45 Roedd ymatebwyr yn galw am gynnwys mwy o eglurder yn y cynigion, gan eu bod yn gadael gormod o gwestiynau heb eu hateb ar hyn o bryd. Roedd rhai wedi eu dadrithio gan y diffyg amcan o'r incwm o sicrheid wrth ymuno â'r cynllun, ac felly'n galw am eglurder ynghylch y swm o arian a'r gyfran o adnoddau i'w dyrannu i'w cynlluniau.

6.46 Gallai'r dull seiliedig ar ganlyniadau arwain at sectorau mawr o'r gymuned sy'n dal tir yn ymddieithrio o'r cynllun. Roedd ymatebydd yn cydnabod bod rhai rheolwyr tir na fyddai'n dymuno ymrwymo i ffrwd cyllid a oedd yn denu risgiau o'r fath, lle nad yw canlyniadau efallai'n cael eu gwireddu yn sgil gweithredoedd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Roedd yr ymateb hwn yn gwahodd Llywodraeth Cymru i esbonio sut y gellir cysoni cynllun seiliedig ar ganlyniadau â'r risgiau sy'n gysylltiedig â dull o'r fath. Roedd yr RSPB yn cydnabod bod taliadau seiliedig ar weithredoedd yn dal i fod yn bwysig, yn enwedig wrth edrych tuag at sicrhau graddau uchel o ymuno â'r cynllun.

6.47 Roedd gwelliannau eraill yn cynnwys:

- annog prentisiaethau i bobl ifanc sydd â syniadau newydd
- contractau hyblyg o ran hyd er mwyn rhoi lle i newidiadau ym mlaenoriaethau ffermwyr
- cyfyngu'r swm o gyllid a dderbynnir fesul busnes gan y byddai hyn yn sail i adeiladu busnes
- ehangu cwmpas y cynllun
- adolygu sut y caiff yr egwyddorion craidd eu gweithredu yn yr ymgynghoriad
- mwy o bwyslais ar drawsgydymffurfio.

6.48 Cyflwynwyd awgrymiadau ychwanegol ar gyfer denu rheolwyr tir i'r cynllun, fel y manylir isod.

- cynhyrchu brand a gefnogir gan y Llywodraeth ar gyfer cynnyrch megis label safon aur
- cyllido'r rheolwr tir trwy daliad rheoli sylfaenol, taliad anwadalwch a thaliad am gyflawni canlyniadau amgylcheddol
- Creu grŵp ymchwil a thrafod wedi'i ffurfio o 10 o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a 15-20 o ffermwyr blaengar Cymru.
- Canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd sy'n cyflawni gwelliant amgylcheddol, i fynd i'r afael â materion er budd y cyhoedd fel ffermio organig, creu coetiroedd a bioamrywiaeth.
- Peidio â gwahanu'r ddau gynllun.
- Creu prosiectau arddangos i roi tystiolaeth o enillion cyflym ac i ennyn a chynyddu diddordeb.
- Roedd Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn awgrymu mecanwaith ar gyfer strwythuro'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus a oedd yn



cynnwys adfer adnoddau naturiol, cynnal adnoddau naturiol a gwella adnoddau naturiol.

#### Cwestiwn 10

- 6.49 Roedd y degfed cwestiwn yn gofyn: a oes unrhyw nwyddau cyhoeddus eraill y dylid eu cefnogi yn eu tyb chi? Roedd ymatebwyr yn cael y dewisiadau ymateb o oes, nac oes ac ansicr. Roedd ymatebwyr yn cael eu holi wedyn, os felly, pam? O'r 1,036 o ymatebwyr, roedd 448 na wnaeth ateb y cwestiwn, dywedodd 82 na, roedd 126 yn ansicr, ac atebodd mwyafrif o 380 oes. Bydd atebion i ail elfen y cwestiwn yn cael eu crynhoi o fewn yr adran hon.
- 6.50 Cynhyrchu bwyd / sicrwydd bwyd, mynediad, addysg, lles anifeiliaid, uwchbridd, treftadaeth a rheolaeth amgylcheddol oedd yr ystyriaethau a gafodd eu crybwyll fwyaf cyson fel ychwanegiadau at y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.
- 6.51 Cynhyrchu bwyd oedd y nwydd cyhoeddus a gafodd ei annog fwyaf cyson o bell ffordd. Fel y nodwyd eisoes, roedd llawer yn gwrthwynebu hepgor cynhyrchu bwyd o'r cynigion, gan ei ystyried fel y nwydd cyhoeddus pwysicaf oll. Teimlai ymatebwyr mai cynhyrchu bwyd oedd eu prif gyfrifoldeb ac wrth wneud hynny yng Nghymru roeddent yn lleihau dibyniaeth ar ffactorau allanol a allai gynyddu mewn anwadlwch yn sgil Brexit a newid yn yr hinsawdd. Dywedodd un ymatebydd "does bosib nad oes unrhyw nwydd gwell [na chynhyrchu bwyd], sy'n cyfrannu at iechyd a chyfoeth y genedl". Teimlai rhai o'r ymatebwyr hefyd y byddai cymell cynhyrchu bwyd iach yn annog dietau iachach a mwy cynaliadwy, ac felly'n cyfrannu at y nod lleisant o Gymru iachach. Roedd ymatebydd yn awgrymu y dylai'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus gynnwys cynhyrchu bwyd fel "y canlyniad gorau bosibl i'r cyhoedd yw os ydym yn gallu bod mor agos ag sy'n bosibl i fod yn hunangynhaliol mewn cynhyrchu bwyd cynhenid cynaliadwy, nid yn unig am resymau economaidd ond oherwydd carbon a bioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang".

- 6.52 Roedd llawer yn crybwyll mynediad wrth ateb Cwestiwn 10, ond roedd barnau amrywiol ynghylch y nwydd cyhoeddus hwn. Roedd rhai yn annog mynediad ehangach i dir, er mwyn annog a chaniatáu ar gyfer hamdden; gan bwysleisio'r pwysigrwydd o gael cyn lleied ag sy'n bosibl o effaith ar y tir wrth gefnogi gweithgareddau sydd ag amrywiol fuddion iechyd ac amgylcheddol. Roedd ymatebydd yn gweld y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus fel cyfle ar gyfer y cysylltiad a'r integreiddio y mae angen mawr amdanynt rhwng y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu tir comin, ei reoli gweithredol a'i gofrestru cyfreithiol. Awgrymwyd hefyd y dylid caniatáu hawliau mynediad tebyg ynghylch afonydd. Roedd eraill yn annog dyfarnu taliadau i reolwyr tir sydd â llwybrau ar eu tir er mwyn helpu eu cynnal a'u hatgyweirio. Mynegwyd anfodlonrwydd tuag at y driniaeth wael o'r llwybrau hyn gan y cyhoedd, yn enwedig o ran sbwriel, ymosodiadau gan gŵn ar dda byw, a thresmasu. Dyna pam fod ymatebwyr o blaid gweld ffermwyr yn mabwysiadu'r rôl o gynnal llwybrau, gan y byddent yn gallu monitro'r materion hyn a mynd i'r afael â hwy.
- 6.53 Roedd ymatebwyr yn galw am gynnwys addysg helaeth o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Teimlai llawer fod addysgu'r cyhoedd yn hanfodol, gan ei fod yn creu parch tuag at y broses gynhyrchu bwyd, yr amgylchedd, a'r ecosystem. Roedd datblygu mwy o ddealltwriaeth o'r sector yn cael ei ystyried hefyd fel ffordd allweddol o gefnogi cefn gwlad fel cymuned, gydag un ymatebydd yn dweud "mae arnom angen mwy o ddinasyddion Cymru i ddeall sut mae natur yn gweithio, datblygu cariad a pharch at y tir a pheidio â'i gamddefnyddio".
- 6.54 Roedd nifer mawr o ymatebwyr o'r farn fod lles anifeiliaid yn nwydd cyhoeddus allweddol, sydd ar goll ar hyn o bryd o'r cynllun arfaethedig. Roedd yr ymatebion hyn yn canolbwyntio'n benodol ar wobrwyo'r rheini sy'n ceisio diogelu bioamrywiaeth yn ogystal â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol. Roedd un ymatebydd yn ystyried y methiant i gydnabod lles anifeiliaid o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus fel diffyg dealltwriaeth o'r goblygiadau iechyd cyhoeddus

ac ecolegol sy'n gysylltiedig â safonau gwael mewn lles anifeiliaid. Awgrymai un ymatebydd, wrth chwarae ar eiriau, fod dadl Nwyddau Cyhoeddus gref dros weld a chefnogi ein "National Parks" fel "National Arks".

- 6.55 Teimlai rhai ymatebwyr fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i warchod uwchbridd yn y cynllun; gan awgrymu nad oedd rôl pridd yn cael ei ystyried yn ei chyfanrwydd. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru "Priddoedd yw'r un ffactor sy'n integreiddio'r holl brif elfennau sy'n dylanwadu ar y tirwedd, hinsawdd, daeareg, topograffi a defnydd tir, ynghyd â llystyfiant ... Mae angen i warchodaeth pridd ystyried yr amrediad llawn o wasanaethau ecosystem mae priddoedd yn eu cefnogi megis bioamrywiaeth, cynefinoedd, ailgylchu maethynnau, rheoleiddio llif ac ansawdd dŵr, ailgylchu deunyddiau gwastraff organig i'r tir". Mae hyn yn fater o frys penodol wrth ystyried, fel y dywedodd un o'r ymatebwyr, bod yr FAO (Sefydliad Bwyd ac Amaethyddol y Cenhedloedd Unedig) yn credu os bydd y graddau presennol o ddiraddio'n parhau, y gallai'r cyfan o uwchbridd y byd fod wedi mynd o fewn 60 mlynedd.
- 6.56 Cafodd rheolaeth amgylcheddol ei grybwyll gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys argymhellid i gefnogi torri allyriadau, hyrwyddo ffynonellau cynaliadwy o ynni a chefnogi cymorth ar gyfer cerbydau trydan. Roedd ymatebion lluosog yn awgrymu y dylai'r holl nwyddau cyhoeddus gael eu hystyried yn gyntaf yn ôl eu heffaith wrth gyfrannu at newid hinsawdd.
- 6.57 Roedd nifer o ymatebion yn cefnogi cynnwys treftadaeth o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. O'r ymatebion hyn, roedd y mwyafrif yn galw am wahanu treftadaeth oddi wrth hamdden, gan ddadlau bod treftadaeth yn nwydd cyhoeddus yn ei hawl ei hun. Roedd Historic Houses yn cytuno fel mwy o le i dreftadaeth nag a gynigir yn yr ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr o'r farn fod amddiffyn a gwella safleoedd a nodweddion hanesyddol yn dasg bwysig ond yn teimlo hefyd y byddai diogelu bywiogrwydd gwledig, cydlyniant cymdeithasol a'r diwylliant Cymraeg yn diogelu cymunedau'r dyfodol.

- 6.58 Roedd rhai ymatebwyr yn siomedig fod iechyd a llesiant wedi eu hepgor o'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd ymatebion yn cyfeirio at bwysigrwydd tirwedd hardd wrth gyflawni llw o fuddion iechyd cyhoeddus, gan ystyried hefyd y rôl y mae rheolwyr tir yn ei chwarae mewn gwasanaethau rhagnodi cymdeithasol.
- 6.59 Roedd nifer bach o'r ymatebion yn awgrymu y dylid cynnwys ffermio organig o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd un ymatebydd o'r farn ei fod yn "cyflawni nwyddau cyhoeddus a grybwyllwyd eisoes fel dŵr o ansawdd da, pori a chnydio da, priddoedd da o gynnwys carbon uchel a ffawna bioamrywiol". Roedd unigolion yn cydnabod hefyd fod gan ffermydd organig fywyd gwyllt sydd 50 y cant yn fwy toreithiog, gyda thraean yn fwy o rywogaethau ar gyfartaledd, ffigurau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Pridd.
- 6.60 Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer nwyddau cyhoeddus yn cynnwys:
- y diwydiant coedwigaeth a phren
  - seilwaith cymdeithasol, i gefnogi gynhyrchiant a thwristiaeth
  - cyflwyno Brand Cymru ar gyfer gwerthu, allforio a masnachu ein cynnyrch gyda'n partneriaid byd-eant
  - lles poblogaethau peillio
  - coetiroedd hynafol
  - ansawdd aer
  - cynllun cyllido carbon
  - pŵer a chynhyrchu trydan
  - cynhyrchu cig eidion sugno.

#### Cwestiwn 11

- 6.61 Yr unfed cwestiwn ar ddeg yn yr ymgynghoriad oedd: Gallai nifer o nwyddau cyhoeddus gymryd blynyddoedd lawer, weithiau degawdau, i gael eu gwireddu'n llawn, er enghraifft dal a storio carbon trwy goed llydanddail. Er mwyn cyflawni'r rhain, efallai y bydd angen i reolwyr tir ymrwymo i gontract hirdymor. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd cytundebau o'r fath yn gweithio? Beth fydd manteision neu

anfanteision cytundebau o'r fath yn eich tyb chi? Mae'r 576 o ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu hamlinellu isod.

- 6.62 Yr agwedd amlycaf ymysg ymatebwyr oedd y pryder y byddai ffemwyr tenant yn cael eu hallgàu o'r cynllun. Roedd y cynllun cael ei weld fel un annichonadwy oherwydd y cytundebau gosod byrrach mae tenantiaid yn eu dal, sy'n aml yn parhau tair blynedd, gan olygu na allant ymrwymo i gontractau hirdymor o'r fath. Dywedodd Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Faesyfed y bydd perchnogion yn fwy tebygol o gael gwared ar y tenant ac ymgymryd â'r contract eu hunain. Roedd pryder o'r fath yn arwain at gefnogaeth gyson i gontractau trosglwyddadwy sydd ynghlwm wrth y tir.
- 6.63 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn sylweddoli pwysigrwydd contractau trosglwyddadwy, lle dylai'r tiffeddiannwr fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i drosglwyddo cytundebau i berchnogion y dyfodol. Roedd CLA Cymru yn cyngori defnyddio barn gyfreithiol i ddeall canlyniadau contractau hirdymor ar werthiant tir a throsglwyddo'r buddion sy'n gysylltiedig â'r contract nwyddau cyhoeddus. Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r contract nwyddau cyhoeddus fod ynghlwm wrth y tir, nid yr unigolyn, rhywbeth a fyddai'n ei wneud yn haws ei drosglwyddo. Roedd ymatebydd yn awgrymu defnyddio cyfamod cadwraeth, cytundeb gwirfoddol gyda'r tiffeddiannwr a chorff cyfrifol sy'n mynd gyda'r tir, am byth.

Anfanteision

- 6.64 Roedd y mater o hwylustod gwleidyddol yn cyfrannu at y llawer o anfanteision a grybwyllwyd ynglŷn â chytundebau hirdymor. Teimlai ymatebwyr y byddai newidiadau mewn llywodraeth yn y dyfodol yn tarfu ar gontractau mwy hirdymor. Roedd Hybu Cig Cymru yn cydnabod y risg hwn gan ddweud "Gallai blaenoriaethau Llywodraeth newid dros amser, ac efallai na fydd newidiadau mewn Llywodraeth yn parhau i gefnogi'r un canlyniadau". Byddai hyn yn gadael y rheolwr tir mewn sefyllfa neilltuol o fregus, gan y byddant yn buddsoddi amser a chyfalaf mewn cynllun na fydd efallai'n parhau at ei derfyn. Roedd

cefnogaeth i'r syniad posibl o gydweithio gydag asiantaethau eraill a fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod y cytundeb yn parhau, er gwaethaf unrhyw newidiadau yn y tirwedd gwleidyddol.

- 6.65 Roedd teimladau cryf o ansicrwydd yn achosi gwrthwynebiad i'r contract hirdymor. Codwyd y pwnc o newid yn yr hinsawdd gan ymatebwyr, a oedd yn nodi na wyddom y pwysau ar dir cynhyrchu wrth symud i amgylchedd tywydd mwy anwadal. Dywedodd un unigolyn a oedd yn cydnabod y fath ansicrwydd, "y peth olaf sydd arnom eisiau ei wneud fel busnes a ffermwyr yw ymrwymo'n tir â chynllun sy'n clymu'n dwylo y tu ôl i'n cefnau". Roedd rhai o'r farn fod Cwestiwn 11 yn amherthnasol yn wyneb ansicrwydd goblygiadau Brexit. Mae Cymru'n ansicr pa gyllid fydd yn cael ei dderbyn ar ôl 2022 a bydd lleihad mewn cyllid yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i anrhydeddu cynlluniau hirdymor o'r fath. Roedd cyfran fach o ymatebwyr yn cyfeirio at faterion fel poblogaeth sy'n cynyddu a phrinder bwyd a fyddai'n ychwanegu at ddyfodol ansicr y sector.
- 6.66 Roedd colli tir cynhyrchiol yn cael ei weld fel anfantais allweddol i'r contract nwyddau cyhoeddus. Cydnabuwyd na ellir, unwaith y bydd coetir wedi ei blannu a'i ddosbarthu fel coetir ar y rhestr eiddo genedlaethol, ei dynnu oddi arni (byddai hyn yn cael ei ystyried fel dad-goedwigo o dan y Ddeddf Coedwigaeth) ac felly byddai tir cynhyrchiol yn cael ei gollu. Roedd cangen Undeb Amaethwyr Cymru Sir Drefaldwyn yn gofyn a fyddai ffermwyr yn derbyn cymorthdal am y colli tir hwn. O ran yr uchod (6.65), roedd ymatebwyr yn cydnabod anfanteision lleihau tir cynhyrchiol, y bydd ei angen mewn blynyddoedd i ddod pan fydd cynhyrchu bwyd yn cael ei ddwysáu.
- 6.67 Roedd teimlad nad yw contractau hirdymor bob amser yn gweddu i'r hinsawdd economaidd ac roedd darogan cyson y byddai'r y gost o sefydlu cynlluniau yn gorbwyso'r taliad. Roedd un ymatebydd yn nodi y gallai trosi tir amaethyddol yn goetir achosi gwerthoedd net presennol negyddol arno i lawer o ffermwyr. Roedd un ymatebydd yn darlunio anghydnawsedd y cynllun â'r hinsawdd economaidd presennol trwy gymharu rheoli 600 erw o goed sy'n cynhyrchu hanner

swydd gyda fferm laeth 600 erw sy'n darparu pedair neu bum swydd ac felly'n cyfrannu mwy at yr economi.

- 6.68 Roedd gwrthwynebiad i ymrwymiad hirdymor yn bryder amlwg arall. Roedd yr ymatebwyr yn ystyried contractau hirdymor fel datgymhelliad, yn sgil natur deinamig busnesau fferm y mae angen iddynt addasu eu gweithgareddau i esblygu gyda gofynion cyfnewidiol y farchnad.

Manteision

- 6.69 Roedd y farn fwy hirdymor o contractau yn cael ei ganmol gan ymatebwyr a oedd yn cydnabod y sefydlogrwydd a'r sicrwydd mae hyn yn ei gynnig i fusnesau. Roedd ymatebwyr yn ystyried incwm gwarantedig contractau o'r fath fel mantais allweddol, sy'n caniatáu i reolwyr tir gael cyfnod o sicrwydd ariannol. Byddai'r incwm hirdymor yn galluogi cynllunio hirdymor, rhywbeth roedd ymatebwyr yn galw amdano, yn enwedig yn ystod adeg o anhrefn gwleidyddol. Cefnogwyd hyn gan yr ymateb gan Confor eu bod yn "croesawu'r dull hwn a fabwysiadir yng Nghymru fel rhan o bolisi defnydd tir integredig ehangach ac iddo gefnogaeth helaeth a fframwaith ar gyfer cyflawni cyllid nwyddau cyhoeddus".

- 6.70 Roedd cefnogwyr yn crybwyll y pwynt y byddai'r cytundebau hyn yn gweithio'n well ar gyfer nodweddion pwysig y tirwedd ac mai hwy oedd y dewisiadau mwyaf buddiol ar gyfer gyrru newid a gwelliant yn yr amgylchedd. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn "cydnabod prif fantais cytundebau rheoli hirdymor i gyflawni newid hirdymor mewn rheolaeth tir trwy fuddsoddi". Roedd yr ymrwymiad i gyflawni nodau hirdymor a fyddai'n cael ei fewnblannu yn y contract hirdymor yn cael ei ganmol gan ymatebwyr, a oedd o'r farn mai dyma oedd y dull mwyaf synhwyrol.

Nodweddion hanfodol y contract hirdymor

- 6.71 Roedd ymatebwyr yn rhagweld cytundebau o'r fath yn gweithio pe baent yn cynnwys amrywiol nodweddion. Law yn llaw â darparu contractau trosglwyddadwy sydd ynghlwm wrth y tir, roedd

ychwanegu cymal terfynu yn cael ei argymell yn helaeth. Roedd y llawer o ansicrwydd sy'n amgylchynu'r sector ac anallu ffermwyr tenant i ymrwmo i gontractau hirdymor yn rheswm dros alwadau ymatebwyr am gynnwys cymal terfynu. Roedd darparu taliadau cynnal yn cael ei gefnogi'n gyson, gyda llawer yn pwysleisio pwysigrwydd cael eu cyllido o'r flwyddyn gyntaf a thrwy gydol y contract. Roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys WWF Cymru, yn dadlau y dylai cyllid cael ei ddyrannu trwy gyfraniad sylweddol ar gostau cyfalaf cychwynnol, taliad rheoli blynyddol llai, yna diweddu gyda thaliad seiliedig ar ganlyniad.

- 6.72 Awgrymwyd y byddai angen cytuno ar fetrigau priodol ac eang er mwyn i'r contractau hyn a'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus weithio. Dylai'r cytundeb fod yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gadarn, a fyddai'n gwneud blaenoriaethu'n haws ac yn cynnwys monitro parhaus trwy ddefnyddio metrigau. Byddai hyn yn cyflawni cynaliadwyaeth, gwella cynhyrchiant ffermydd ac yn cyfleu gwerth am arian i'r trethdalwr fel y byddai'r achos busnes dros barhau cyllid rheoli tir yn gryf.
- 6.73 Teimlai llawer o ymatebwyr y dylai hyblygrwydd fod yn rhan annatod o'r contract hirdymor. Roedd yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol fod y cytundebau yn hyblyg fel y gellid, pe deuai digwyddiadau annisgwyl fel clefyd coed ynn neu glefydau anifeiliaid, ail-asesu cynlluniau a lle bo'n bosibl, symud at ddulliau gwahanol. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn rhybuddio yn erbyn anhyblygrwydd cynlluniau blaenorol, megis Glastir, lle'r oedd cydymffurfio ag amodau contractau'n cael blaenoriaeth dros fioamrywiaeth. Roedd ymatebwyr yn argymell cytundebau wedi eu teilwra ar gyfer y fferm unigol gyda'r cyfle i reolwyr tir a Llywodraeth Cymru gymryd saib ac adolygu'r contract a chytuno â'i gilydd ar adolygiadau i gontractau er mwyn sicrhau y gallai canlyniadau barhau'n berthnasol a chyraeddadwy.
- 6.74 Roedd gwahaniaeth barn ynghylch hyd y cytundebau arfaethedig. Roedd rhai o'r farn mai gorau po hiraf y contract, gan nodi sefydlogrwydd a'r potensial am ganlyniadau mwy fel rhesymau dros



hyn. Roedd eraill yn nodi mai po hiraf y contract y lleiaf fyddai'r niferoedd fyddai'n mynd amdano oherwydd ffactorau fel newidiadau yn y farchnad. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn cydnabod fod rhai gweithredoedd a fyddai'n darparu buddion o safbwynt nwyddau cyhoeddus na fyddai'n gofyn am gcontractau hir. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y gallai cytundeb hirdymor fod yn amhoblogaidd gyda thirfeddianwyr ac "felly gallai byddai gallu cynnig contractau o amrywiol hydoedd fod yn fantais".

6.75 Mae nodweddion eraill a awgrymwyd wedi eu hamlinellu isod.

- Roedd Lantra Cymru'n dadlau'r angen am Swyddogion Maes medrus sy'n gallu sylwi ar unrhyw beryglon hirdymor o "or-ymrwymo" tir i ddibenion nwyddau cyhoeddus.
- Mae darparu addysg a chefnogaeth i'r rheolwr tir yn hanfodol er mwyn gweithredu'r contract hirdymor yn llwyddiannus.
- Defnyddio Cynllun Rheoli i ragflaenu unrhyw benderfyniad ar gytundeb, sy'n rhoi eglurder ar amcanion; rhyngweithiau â thir cyfagos; problemau, bygythiadau a chyfleoedd; monitro canlyniadau a chyflwr safleoedd.
- Dewisiadau mewn cyfraith megis tîr feddianwyr yn talu gwahanol lefelau o dreth.
- Arolygu cynlluniau'n drylwyr.
- Dylai taliadau fod yn gysylltiedig â'r farchnad (wedi eu cysylltu â mynegai) gan ei bod yn amhosibl darogan beth fydd gwerth unrhyw nwyddau cyhoeddus mewn blynyddoedd i ddod.

#### Cwestiwn 12

6.76 Y deuddegfed cwestiwn oedd: Gallai dull cydweithredol o ddarparu nwyddau cyhoeddus ddarparu mwy o werth am arian na gweithgarwch ar wahân mewn rhai achosion. Sut allai'r cynllun hwyluso'r dull hwn? Sut allai cyrff cyhoeddus a phreifat gyfrannu at bartneriaethau o'r fath?

6.77 Mae'r 485 o ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu crynhoi isod.

## Cefnogaeth i'r dull cydweithredol

6.78 Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn gweld gwerth mewn mabwysiadu'r dull cydweithredol. Y canfyddiad o well gwerth am arian y byddai dull o'r fath yn ei gynhyrchu oedd y prif reswm dros gefnogi cydweithredu. Roedd y Grŵp Fframwaith ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn cydnabod y byddai dull cydweithredol, lle byddai cyrff cyhoeddus a phreifat yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell gwerth am arian a chanlyniadau ar y cyd, yn fanteisiol. Roedd eraill yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol cydweithio i sicrhau y byddai'r cynllun yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Trwy weithio gyda'i gilydd, mae gan y sector y gallu i wneud cyfraniad sylweddol a chynaliadwy i'r effaith cyffredinol ar yr amgylchedd. Roedd un ymatebydd yn cytuno bod "cydweithio yn ddymunol ac yn angenrheidiol i wella'r ddarpariaeth o fuddion amgylcheddol ar raddfa eang". Roedd rhesymau eraill dros gefnogi'r dull hwn yn cynnwys:

- cysondeb y dull â pholisi cenedlaethol (yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- rhwystro dyblygu
- hwyluso dysgu ar y cyd.

## Sut i hwyluso dull cydweithredol

6.79 Y farn gyffredinol gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd yr angen i ddefnyddio cymhellion i annog cydweithredu. Roedd llawer yn cydnabod bod cydweithredu yn golygu her ym mhob sector ac felly dylid defnyddio cymhellion i annog y dull a gynigir. Gwnaed awgrymiadau ar gyfer defnyddio mwy o gymhellion ariannol neu ddyrannu bonws i'r rheini sy'n ymwneud â gweithio mewn grwpiau fel modd o annog cydweithredu. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y dylai'r cynllun arfaethedig "gymell cyflawni canlyniadau ar y raddfa briodol a hyrwyddo cydweithredu rhwng rheolwyr tir".

6.80 Rhagwelwyd y bydd angen dull wedi'i ddiffinio o gydweithredu. Roedd ymatebwyr yn argymhell amrywiol ddulliau lle gellid rhoi cydweithredu ar waith. Roedd defnyddio partneriaeth ar raddfa tirwedd yn cael ei

gefnogi'n helaeth, yn sgil y canfyddiad mai dull o'r fath oedd yn debygol o gyflawni'r canlyniadau gorau. Dywedodd United Utilities mai "gweithio mewn partneriaeth ar raddfa sylweddol yw'r allwedd i gyflawni canlyniadau amgylcheddol yn llwyddiannus". Roedd cyflawni ar raddfa fawr o'r fath yn cael ei gefnogi hefyd yn ffurf dalgylchoedd, dull sydd wedi cynhyrchu gwaith da hyd yma yn ôl yr Organic Growers Alliance a oedd yn galw am ei ymestyn yn barhaus, a Llywodraeth Seland Newydd a oedd wedi cefnogi dulliau torfol ar gyfer lliniaru anawsterau lleol. Rhoddwyd Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog fel enghraifft, lle'r oedd sefydliadau'n dod at ei gilydd a rhannu amcan gyffredin. Trwy weithio ar raddfa tirwedd, mae gwaith ffermwyr yn gysylltiedig ym mhob ardal ac felly'n "cyfrannu'n fwy effeithiol tuag at ganlyniadau amgylcheddol, yn hytrach na chreu ardaloedd tameidiog o gynefin o ansawdd da o fewn anialdiroedd bioamrywiaeth", yn ôl y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur.

- 6.81 Mae dull blaenoriaethu yn allweddol a chrynohir y dulliau a awgrymir ar gyfer cyflawni hyn yng Nghwestiwn 13 (gweler paragraff 6.92 ymlaen). Cyflwynwyd dull olynol o'r gwaelod i fyny i ddilyn blaenoriaethu gan rai ymatebwyr. Mae dull o'r fath yn gweld ffermwyr, cymunedau a busnesau'n gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno cynnig ar sut y gallent cyflawni nwyddau cyhoeddus ar y cyd, felly'n hwyluso cydweithredu.
- 6.82 Roedd dulliau eraill a awgrymwyd yn cynnwys:
- defnyddio cwmnïau cydweithredol
  - defnyddio rhwydweithiau neu fforymau lleol
  - dull organig ar draws amryw o ffermydd
  - cydweithio â phrifysgolion a fydd yn ymchwilio i'r defnyddio mwyaf effeithlon o dir mewn gwahanol ardaloedd.
- 6.83 Mae cydweithio effeithiol eisoes yn digwydd, fel y profwyd gan ymatebwyr a oedd yn galw am ddefnyddio modelau tebyg o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd Cynlluniau Rheoli Cynaliadwy yn cael eu cefnogi'n gyson fel esiampl, lle'r oedd y prosiect BRICs yn

cael ei argymell yn sgil ei uchelgeisiau i ddatblygu mesurau ffermio cynaliadwy ar draws amrywiaeth o sectorau trwy weithio mewn partneriaethau cryf. Roedd y model clystyrau o ffermwyr, fel a hyrwyddir gan Cycling UK yn cael ei weld fel un neilltuol o fuddiol. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- Rhaglen Fenter Cyswllt Ffermio
- Cynllun peilot talu am ganlyniadau yn Wensleydale
- Dulliau cydweithredol a gaiff eu llywodraeth gan gyrff amgylcheddol anllywodraethol megis Prosiect Pumlumon a Phrosiect Pontbren.
- Tir Cymen a chynlluniau Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif
- Cylch Peiriannau Sir Benfro.

6.84 Roedd cyflawni'r cynllun ar lefel daliad unigol yn ddewis arall a gyflwynwyd gan ymatebwyr. Dywedwyd y dylai'r cynllun alluogi'r posibilrwydd i brosiect gael ei gychwyn yn unigol, gyda chymdogion yn ymuno'n ddiweddarach. Teimlai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Gwarchod Glöynnod Byw Cymru y gellid sicrhau cydweithio trwy ddarparu cyngor wedi'i dargedu'n lleol i gyflawni sawl gweithred annibynnol â'r un un thema iddynt. Barn wahanol a ddelid gan Gyngor Sir Conwy oedd bod diffygion cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, lle'r oedd prosiectau'n cael eu datblygu ar wahân, wedi arwain at gyflawni ychydig iawn o fudd amgylcheddol.

6.85 Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn hanfodol er mwyn rhoi'r dull cydweithredol ar waith yn llwyddiannus. Roedd CLA Cymru o'r farn fod trefniadau llywodraethu a phroblemau rheoli adnoddau cyffredin yn cael eu hesgeulso'n fawr. Dywedodd y mudiad "Mae angen rhoi sylw priodol i hyn wrth lunio unrhyw gynllun yn y dyfodol os yw'r cysyniad o nwyddau cyhoeddus a rheoli buddion cyffredin am gael eu cyflawni'n llwyddiannus". Roedd eraill yn adleisio'r pryderon hyn gyda galwadau am dryloywder. Mae ar y dull cydweithredol angen eglurder gan bob partner o safbwynt atebolrwydd a chyfrifoldeb. Mae'n

hanfodol fod trefniadau rhwng cyrff yn cael eu llunio'n dda er mwyn sicrhau bod pob parti'n gwybod beth a ddisgwylir ganddynt.

- 6.86 Mae rôl Llywodraeth Cymru yn allweddol wrth yrru cynllun cydweithredol. Roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried mai Llywodraeth Cymru oedd yn y sefyllfa orau i annog, hyrwyddo a chymell cydweithredu. Roedd yn ofynnol gan WWF Cymru i Lywodraeth Cymru fabwysiadu rôl arweiniol gyda'r gallu i adnabod pa ganlyniadau sy'n angenrheidiol a chymell gweithgareddau.
- 6.87 Mae nodweddion hanfodol eraill ar gyfer hwyluso dull cydweithredol yn cynnwys:
- cyngor a chefnogaeth i annog cydweithredu
  - hyrwyddo ymddiriedaeth, parch a thegwch ym mhob agwedd o'r cynllun
  - hyblygrwydd sy'n arwain at weithgaredd blaengar
  - cydweithio a gaiff ei yrru gan y rheolwr tir
  - cyfathrebu gan swyddogion prosiect a fydd yn gweinyddu'r cynllun.

Cyfraniad cyrff cyhoeddus a chyrrff preifat

- 6.88 Roedd cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn destun cynnen allweddol. Roedd mantais cydweithrediad o'r fath yn cael ei gydnabod yn gyson gydag ymatebwyr yn gweld hyn fel rhywbeth angenrheidiol mewn rhai sefyllfaoedd megis symiau dŵr neu ddarparu mynediad. Dywedodd y Ganolfan Defnydd Tir Cynaliadwy ym Mhrifysgol Bangor fod y pwysigrwydd o bontio sefydliadau gyda chynlluniau cydweithredol i'w weld mewn sawl lleoliad. Er gwaethaf hyn, roedd ymatebwyr yn rhybuddio yn erbyn rhai agweddau o gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Codwyd amheuan ynghylch parodrwydd sefydliadau cyhoeddus a phreifat i gydweithio, gyda theimladau bod y gagandor rhwng cyrff amgylcheddol a ffermwyr yn lletach nag erioed.

- 6.89 Roedd y swyddogaeth mae cyrff cyhoeddus yn ei chyflawni yn y cynllun hefyd yn destun anghytundeb ymysg ymatebwyr. Gosodwyd pwysigrwydd ar rôl y sector cyhoeddus wrth ddiffinio'r strategaeth. Teimlai ymatebwyr y dylai cyrff cyhoeddus hwyluso diffinio blaenoriaethau a rhoi syniadau ar waith ar gyfer yr ystad gyhoeddus. Dywedwyd mai cyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cerddwyr ddylai fod yn arwain y symudiad tuag at gydweithio gan fod ganddynt y data angenrheidiol i hwyluso hyn. Er gwaethaf y gefnogaeth hon, y farn oedd bod cynnwys cyrff cyhoeddus yn lleihau atyniad y cynllun gyda llawer yn gwrthwynebu eu mynediad at gyllid. Roedd cyrff cyhoeddus yn cael eu gweld fel pe baent yn brin o ymwybyddiaeth fasnachol ac yn gynhenid wastraffus ac felly na ddylent gael mynediad at gyllid y cynllun. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru "er y dylai cyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth gael eu harchwilio a'u datblygu o dan unrhyw bolisi yn y dyfodol, mae'n bwysig nad yw cynnwys cyrff anllywodraethol na chyrff eraill yn cael ei bennu fel rhywbeth sy'n ofynnol, a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod partneriaethau yn rhai cyfartal a gwirioneddol ac nid o dan gysgod rhai cyrff".
- 6.90 Dywedodd NFU Cymru yr hoffent weithio gyda Llywodraeth Cymru ac unrhyw un "â theimlad angerddol" dros fwyd, tirwedd ac amgylchedd Cymru. Fe wnaethant ychwanegu "trwy weithio gyda'n gilydd gallwn wireddu'n gweledigaeth am ddiwydiant amaethyddol Cymreig cynhyrchiol, blaengar a phroffidiol sy'n darparu swyddi, twf a buddsoddiad i Gymru".
- Gwrthwynebiad i'r dull cydweithredol
- 6.91 Y prif reswm dros wrthwynebu'r dull cydweithredol oedd y gwrthdrawiad buddiannau na fyddai cytundebau o'r fath yn gallu eu goresgyn. Y farn oedd fod yr amhosibilrwydd o gyrraedd consensws ymysg ffermwyr sy'n gymdogion yn debygol o lesteirio dull cydweithredol mewn llawer ardal. Roedd y dull hwn yn cael ei weld hefyd fel un cymhleth a beichus o safbwynt gweinyddu a llwyth

gwaith. Roedd rhesymau ychwanegol dros wrthwynebu'r dull yn cynnwys:

- o brofiadau blaenorol, nid yw cydweithredu'n gweithio
- nid yw'r sefyllfa bresennol ynghylch mynediad yn ffafriol i gydweithredu
- y risg o greu sefyllfa gwbl annheg lle caiff nifer o reolwyr tir eu rhwystro rhag elwa oherwydd cymydog sy'n gwrthod cymryd rhan.

### Cwestiwn 13

- 6.92 Trydydd cwestiwn ar ddeg yr ymgynghoriad oedd: Gall rhai camau gweithredu ddarparu nwyddau cyhoeddus lluosog yn yr un lleoliad. Er enghraifft, gall adfer mawnogydd ddwyn manteision ar gyfer dal a storio carbon a lleihau perygl llifogydd. Fodd bynnag, gallai rhai lleoliadau fod yn addas ar gyfer nwyddau cyhoeddus lluosog o weithgareddau gwahanol. Er enghraifft, gallai un lleoliad fod yn addas naill ai i blannu coed ar gyfer dal a storio carbon, neu gael ei droi'n ôl yn wlypdir ar gyfer bioamrywiaeth. Sut allai lleoliadau ar gyfer manteision unigol, lluosog neu fanteision sy'n cystadlu â'i gilydd gael eu blaenoriaethu?
- 6.93 Mae'r 506 o ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi eu crynhoi isod.
- Dulliau blaenoriaethu
- 6.94 Y farn gyffredinol ymysg ymatebwyr oedd defnyddio dull blaenoriaethu sy'n ystyried beth sydd orau i'r tir ac i'r rheolwr tir. Wrth wneud hynny, roedd cefnogaeth gyson i ddull o flaenoriaethu yn ôl achosion unigol. Byddai dull o'r fath yn canolbwyntio ar y tir, yn cael ei arwain gan ffermwyr ac yn defnyddio gwybodaeth leol, os yw am fod yn unol â'r egwyddorion allweddol ar gyfer blaenoriaethu roedd ymatebwyr yn eu hargymell.
- 6.95 Mae'n bwysig fod y cynllun yn canolbwyntio ar dir. Roedd ymatebwyr yn cydnabod y byddai adnabod blaenoriaethau yn ôl ardal unigol yn

sicrhau bod y camau iawn yn cael eu cymryd yn y lle iawn. Byddai dull o'r fath yn sicrhau bod y rheolwr tir yn dewis yr opsiwn sy'n gweddu i'r ardal, rhywbeth sydd o bwysigrwydd neilltuol wrth ystyried bod gwahanol ardaloedd yn galw am flaenoriaethau gwahanol. Rhoddodd un ymatebydd yr enghraifft o'r rheini sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd sydd â risg llifogydd, a phwy felly ddylai gymryd camau i liniaru'r risg, gan gydnabod nad yw hyn yn flaenoriaeth benodol i Gymru gyfan. Roedd y pwyslais lleol yn cael ei adlewyrchu yn y gefnogaeth i ddefnyddio gwybodaeth leol wrth benderfynu ar flaenoriaethau. Roedd ymatebwyr yn cydnabod rôl glir arbenigedd leol wrth flaenoriaethu anghenion ac atebion sy'n benodol i leoliad ar gyfer cyflawni nwyddau cyhoeddus.

- 6.96 Roedd ymatebwyr yn mynnu'n gyson fod blaenoriaethu'n cael ei arwain gan y rheolwr tir. Barnwyd ei bod yn amhriodol i'r Llywodraeth orchymyn sut y dylai'r tirlfeddiannwr preifat ddefnyddio'u tir. Roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai rheolwyr tir gael dewis yr opsiynau sydd fwyaf addas i'w sefyllfa, busnes a buddiannau. Roedd llawer yn cydnabod mai'r rheolwr tir unigol sy'n gwybod beth sydd orau i'w tir, ac y dylid eu hannog hefyd i ddewis opsiynau a chanlyniadau yn seiliedig ar eu buddiannau. Roedd aelodau Undeb Amaethwyr Cymru'n "credu mai'r gwerth economaidd i ffermwyr a chymunedau lleol ddylai fod y brif ystyriaeth wrth asesu blaenoriaethau a phenderfynu rhwng yr arferion presennol a dewisiadau eraill posibl".
- 6.97 Y farn oedd bod defnyddio Swyddogion Prosiect yn hanfodol er mwyn hwyluso'r dull o flaenoriaethu ar sail achosion unigol, a gefnogir yn helaeth. Dylai fod yn ofynnol i'r Swyddog Prosiect gael arbenigedd mewn nwyddau cyhoeddus, ond hefyd fod â gwybodaeth leol dda gan y byddai hyn yn caniatáu iddynt gynorthwyo a thrafod y canlyniad gorau gyda'r rheolwr tir.
- 6.98 Gellir defnyddio amrywiol systemau blaenoriaethu a data i benderfynu ar y cam mwyaf addas i'w gymryd mewn lleoliad. Er bod ymatebwyr yn gwrthwynebu'r targedu gofodol arfaethedig, gan ei ddisgrifio fel "loteri cod post", roedd y defnydd o Ddatganiadau Ardal yn cael ei



argymell fel modd allweddol o flaenoriaethu gofodol. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn annog defnyddio Datganiadau Ardal, gan eu bod yn diffinio blaenoriaeth strategol seiliedig ar ardal ac felly'n gosod sail ar gyfer penderfyniadau penodol i leoliad. Roedd system sgorio "seiliedig ar bwyntiau" hefyd yn cael ei chynnig yn gyson gan ymatebwyr. Roedd y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd yn rhybuddio "byddai angen i'r system sgorio hon gael ei hadolygu'n gyson, a phe bernid bod darpariaeth o nwydd cyhoeddus penodol yn syrthio'n fyr o'r disgwyliad yna gellid addasu'r sgorio i adlewyrchu hyn".

- 6.99 Roedd blaenoriaethau eraill ar gyfer dull systematig neu seiliedig ar dystiolaeth o flaenoriaethu yn cynnwys:
- setiau data cenedlaethol megis y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Ordnans a data cynhyrchiant
  - Cyfrifo Cyfalaf Naturiol fel ffordd o gyflwyno gwybodaeth ynghylch gwerth yr amgylchedd
  - Data seiliedig ar y System Gwybodaeth Ddaearyddol
  - Cynlluniau Rheolaeth Integredig Ystadau, fel y defnyddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn
  - Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol
  - SoNaRR (Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, 2016) i dynnu sylw at y cynefinoedd â blaenoriaeth i gael eu hystyried ar lefel Cymru gyfan.
  - Y model gwasanaethau ecosystemau LUCI (Dangosydd Defnydd a Chynhwysedd Tir), y gellir ei ddefnyddio i fapio ardaloedd gan ddarparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.
- 6.100 Yn gyffredinol, awgrymwyd y dylai blaenoriaethu ganolbwyntio ar y meysydd lle mae'r effaith mwyaf wrth gael eu mesur ochr yn ochr â'r amcanion. Roedd ymatebwyr yn mynnu y dylid rhoi blaenoriaeth i'r cynlluniau sy'n cael yr effaith mwyaf. Roedd ymatebydd yn argymell datblygu "Matrics Asesu" sy'n blaenoriaethu'r buddion ac iddynt yr effaith mwyaf. Roedd eraill yn cytuno â'r dull hwn gan ychwanegu'r

angen i flaenoriaethu ar sail gwerth am arian. Gellir mesur hyn trwy ddefnyddio cyfrifo economaidd megis: cost adfer tir, cost plannu coed a'r budd o'i adael fel cynefin.

- 6.101 Roedd y pwnc o gyflawni buddion lluosog yn destun anghytundeb ymysg ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Wrth gefnogi buddion lluosog, dywedodd ymatebwyr y dylent fod yn ofynnol ar gyfer pob gweithgaredd a gyllidir yn cyhoeddus. Roedd barn wahanol yn cydnabod nad yw camau gweithredu gyda buddion lluosog yn well o angenrheidrwydd na'r rheini gyda budd sengl. Teimlai lleiafrif y dylai Llywodraeth Cymru, mewn achosion o fuddion lluosog, yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, gael y grym i wneud y penderfyniad terfynol, ar sail polisi ehangach ac ystyriaethau ariannol. Roedd Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn galw am yr ystyriaeth hon o bolisi cenedlaethol, trwy nodi na ddylai atebion unswydd i amgylchiadau lleol gronni ynghyd i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol.
- 6.102 Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu meysydd penodol yr oeddent yn barnu eu bod yn flaenoriaeth i'r cynllun. Y prif safbwynt ymysg yr ymatebwyr hyn oedd mai lliniaru risg llifogydd ddylai'r flaenoriaeth uchaf fod, gyda bron iawn gymaint o bwysigrwydd yn cael ei roi ar ddal a storio carbon, a bioamrywiaeth yn cael ei osod yn aml fel y trydedd blaenoriaeth uchaf. Roedd blaenoriaethau eraill a awgrymwyd yn cynnwys:

- iechyd a lles anifeiliaid
- buddion iechyd, peillwyr a thwristiaeth
- creu coetiroedd
- mynediad i'r cyhoedd
- nwyddau cyhoeddus prin.

Blaenoriaethau gwahanol

- 6.103 Roedd nifer bach o ymatebwyr yn mynegi'r farn mai cynhyrchu bwyd yw'r unig ffordd ymlaen, gan gefnogi'r syniad os yw ffermio'n ffynnu, yna bydd cadwraeth yn dilyn. Roedd un ymatebydd yn llwyr wrthwynebu blaenoriaethu, gan ddadlau "mae'r nwyddau cyhoeddus

arfaethedig rydych chi wedi eu nodi bron i gyd yn amcanion amgylcheddol ac mae ceisio dweud bod un yn bwysicach na'r llall yn chwerthinllyd".

#### Cwestiwn 14

- 6.104 Y pedwerydd cwestiwn ar ddeg oedd: O ystyried y bydd cymorth i ddarparu nwyddau cyhoeddus yn ddull newydd yng Nghymru, bydd peth wmbredd o hyfforddiant a chyngor ar gyfer y sector yn ofynnol. Sut orau ellir darparu'r hyfforddiant a'r cyngor hwn? Pa feysydd yn y sector yw'r rhai y mae arnynt angen y mwyaf o sylw?
- 6.105 Derbyniwyd 552 o ymatebion uniongyrchol i'r cwestiwn hwn ac mae'r ymatebion wedi eu crynhoi isod.
- 6.106 Roedd rhai ymatebwyr yn amau geiriad y cwestiwn ei hun a'r awgrym bod cynllun nwyddau cyhoeddus yn cynrychioli dull newydd: "Dw i ddim yn gweld bod cyflawni Nwyddau Cyhoeddus yn ddull newydd – onid dyna mae ffermwyr wedi bod yn ei gyflawni ers blynyddoedd drwy gynlluniau fel Glastir Uwch, Creu Coetir Glastir, Tir Gofal?"
- 6.107 Roedd amryw o ymatebwyr yn teimlo na allent wneud sylw ar hyfforddiant a chyngor gofynnol, heb gael mwy o fanylion ar gwmpas a diffiniad nwyddau cyhoeddus a sut byddai'r cynllun yn gweithio.
- 6.108 Er bod rhai ymatebwyr yn mynegi'r farn y byddai hyfforddiant a chyngor yn hanfodol i'r cynllun newydd, roedd eraill yn ei weld fel cost ddiangen a fyddai'n lleihau cyfanswm y gyllideb a fyddai ar gael i gefnogi rheolwyr tir: "Unwaith eto bydd arnoch angen byddin o ymgynghorwyr bondigrybwyll a fydd yn cymryd y rhan fwyaf o'r arian."
- 6.109 O ran asiantau cyflawni, roedd y dull a oedd yn cael ei gynnis amlaf gan ymatebwyr yn cynnwys defnyddio sianelau sefydledig sy'n cael eu parchu gan reolwyr tir: "Byddai canolbwyntio ar gadw ymgynghorwyr presennol dibynadwy yn hanfodol trwy unrhyw gyfnod pontio a'r tu hwnt." Er i amrywiaeth o sefydliadau eraill gael eu

hawgrymu<sup>2</sup>, cafodd Cyswllt Ffermio ei argymhell yn gyson gan ymatebwyr, ar sail y profiad a'r strwythurau a'r systemau presennol mae'r sefydliad yn ei gynnig: "Beth sydd o'i le gyda system helaeth Cyswllt Ffermio sy'n bod eisoes? Oes angen ichi wastraffu arian ar system newydd?"

6.110 Ar y llaw arall, roedd lleiafrif o ymatebwyr yn gwrthwynebu defnyddio Cyswllt Ffermio, gan ddweud bod y sefydliad yn fiwrocraidaidd ac yn amharod i helpu: "Ar hyn o bryd mae'r hyfforddiant a'r cyngor a ddarperir ar gyfer coedwigaeth trwy Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyswllt Ffermio yn druenus o annigonol. Mae hyn yn gofyn am ddiwygio a buddsoddi sylweddol, y dylid ei wneud wrth ymgynghori gyda'r arbenigwyr a'r ymarferwyr yn y sector preifat a phrifysgolion."

6.111 Roedd pwyntiau eraill allweddol ynglŷn â'r asiantaethau a fyddai'n cyflwyno hyfforddiant a chyngor yn cynnwys:

- Galwad ar i hyfforddiant a chyngor gael eu cyflwyno gan y rheini sydd â phrofiad traws-sectorol i ddarparu ar gyfer anghenion hyfforddiant rheolwyr tir ystadau amrywiol ac wedi eu harallgyfeirio.
- Awgrym y gallai gwahanol sefydliadau arbenigol ddarparu gwahanol fathau o gymorth, yn seiliedig ar anghenion rheolwyr tir unigol<sup>3</sup>.
- Yr angen i wahanu'r rôl rheoleiddio a gyflawnir gan rai cyrff (er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru) ac unrhyw rôl ymgynghorol y gallent ei chyflawni fel rhan o gynllun nwyddau cyhoeddus.
- Yr awgrym i fuddsoddi mewn cydweithio rhwng ffermwyr a'i gilydd wedi ei fodelu ar y Rhwydwaith Ffermwyr Arloesol.

---

<sup>2</sup> Gan gynnwys Glastir, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Undeb Amaethwyr Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cymdeithas y Pridd, Yr Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy, Y Gynghrair Cefn Gwlad, Afonydd Cymru, cyrff gweinyddol LEADER, Menter a Busnes.

<sup>3</sup> Er enghraifft, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru (cyngor ar reoli'r amgylchedd hanesyddol), Afonydd Cymru (cyngor ar reoli'r pridd, coridorau glannau afonydd ac ansawdd dŵr) a Chymdeithas Milfeddygon Prydain (cyngor ar safonau iechyd a lles anifeiliaid, defnydd cyfrifol o feddyginiaethau, bioddiogelwch).

- Yr angen ar i gyngor fod yn ddiuedd: “Dylai cyngor a hyfforddiant gael ei gyflwyno gan unigolion sy’n wirioneddol niwtral ac nad ydynt wedi eu rhwymo na’n cael eu dylanwadu at amcanion cyfreithiol neu elusennol y sefydliad maent yn gweithio iddo.” (Undeb Amaethwyr Cymru)
- Y gwerth o fanteisio ar arbenigedd busnesau sy’n bod eisoes fel Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, a Chanolfan y Dechnoleg Amgen.
- Yr awgrym y dylai rheolwyr tir sydd eisoes yn cyflawni nwyddau cyhoeddus gael eu talu i hyfforddi rheolwyr tir eraill.
- Y gwerth o ddiwygio’r cwricwlwm a addysgir mewn colegau amaethyddol, i gynnwys y cysyniad o nwyddau cyhoeddus yng nghyd-destun ffermio a rheoli tir.

6.112 Awgrymwyd amrywiaeth o ddulliau gan ymatebwyr ar gyfer cyflwyno hyfforddiant a chyngor. Roedd rhai yn galw am gyfuniad o ddulliau, fel yr awgrymwyd gan yr Ymgyrch Parciau Cenedlaethol, “bydd angen cefnogi amrediad o ffyrdd ar gyfer darparu hyfforddiant a chyngor a gall hyn amrywio ar draws amrywiol fathau o ffermydd. Gall hyn gynnwys hyfforddiant ffurfiol a gyflwynir trwy golegau amaethyddol, cyngor trwy ymgynghorwyr presennol dibynadwy, megis agronomegwyr, neu ffyrdd llai ffurfiol megis trwy rwydweithiau o gymheiriaid.”

6.113 Roedd ymatebwyr yn mynegi gwahanol farnau ar effeithiolrwydd hyfforddiant ar-lein. Roedd darpariaeth annibynadwy, neu ddiffyg darpariaeth, o fand llydan mewn rhai rhannau o Gymru a niferoedd sylweddol o reolwyr tir (rhai hŷn yn nodweddiadol) nad oeddent yn gyfrifiadurol lythrennog yn cael eu nodi gan ymatebwyr fel rhesymau yn erbyn defnyddio hyfforddiant ar-lein. Roedd hyblygrwydd ac effeithlonrwydd amser hyfforddiant ar-lein yn cael ei weld fel rhywbeth manteisiol, fodd bynnag: “Hyfforddiant ar-lein [fyddai’r ffordd orau o gyflwyno hyfforddiant a chyngor]. Dw i’n rhedeg y fferm ar fy mhen fy hun, fydd gen i ddim amser i fynychu hyfforddiant.”

- 6.114 Thema gref yn yr ymatebion oedd yr angen am i hyfforddiant a chyngor fod wedi'i baratoi'n unswydd i ddiwallu anghenion rheolwyr tir unigol: "Rydym yn argymhell cymysgedd o fodolau trosglwyddo gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol, rhwydweithio, rhwng cymheiriaid a'i gilydd, wedi eu teilwra i anghenion busnesau unigol."
- 6.115 Y farn oedd fod darparu "cyngor un-i-un o safon ac sy'n ddibynadwy, a chyngor un-i-lawer yn hanfodol er mwyn cyflawni a manteisio i'r eithaf ar ganlyniadau rheolaeth amgylcheddol tir," fel y dywedwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Cymru.
- 6.116 Roedd awgrymiadau penodol am fathau o hyfforddiant y gellid eu cyflwyno yn cynnwys:
- Dysgu rhwng ffermwyr a'i gilydd a rhwng cymheiriaid a'i gilydd.
  - Ymchwil ac arloesi, megis trwy labordai maes a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Ffermwyr Arloesol.
  - Dyddiau agored a theithiau cerdded ar ffermydd i arddangos yr arferion gorau.
  - Cyngor un-i-un ar y fferm.
  - Cyrsiau hyfforddi ar gyflawni nwyddau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno ar ffermydd<sup>4</sup>.
  - Arddangosiadau a thrafodaethau ar ffermydd.
  - Hyfforddiant sy'n debyg i broses arolygu ffermydd presennol Anifeilaid Fferm Sicr Cymru.
- 6.117 Roedd ymatebwyr yn ceisio dehongli ail ran y cwestiwn hwn<sup>5</sup> mewn un o ddwy ffordd. Roedd rhai yn nodi is-sectorau neu grwpiau penodol o'r economi wledig sydd angen mwyaf o sylw o safbwynt hyfforddiant a chyngor (sef derbynwyr yr hyfforddiant). Roedd eraill yn awgrymu meysydd pwnc hyfforddiant y dylid eu blaenoriaethu (sef cynnwys yr hyfforddiant).

---

<sup>4</sup> Awgrymwyd y gellid rhedeg y rhain mewn ffordd debyg i gyrsiau hyfforddiant cynefinoedd Tir Gofal sy'n cael eu rhedeg gan Grwpiau Ymgynghorol ar Ffermio a Bywyd Gwyllt, IBERS a Choleg Sir Benfro.

<sup>5</sup> Pa feysydd yn y sector yw'r rhai y mae amnynt angen y mwyaf o sylw?

6.118 O safbwynt derbynwyr, roedd yr is-sectorau a awgrymwyd fel y rhai sy'n gofyn am fwyaf o sylw yn cynnwys:

- Defaid a gwartheg ucheldir.
- Sector cig coch: "Y sectorau cig coch a llaeth sy'n gofyn am y mwyaf o sylw. Mae'r naill a'r llall yn achosio niweidiau amgylcheddol sylweddol ac wedi gwneud hynny ers yn llawer rhy hir. Maent hefyd yn gynhenid geidwadol iawn."
- Ffermio dwys llaeth, moch a dofednod.
- Cynhyrchu bwyd.
- Rheoli coedwigaeth a choetiroedd.

6.119 Roedd rhai ymatebwyr yn nodi grwpiau demograffig neu ddaearyddol o unigolion i'w blaenoriaethu, megis:

- Ffermwyr hŷn na fydd efallai'n sylweddoli sut y gallent elwa o gynllun nwyddau cyhoeddus.
- Ffermwyr iau "sef cenhedlaeth y dyfodol, ac sy'n nodweddiadol yn fwy tebygol o geisio am gymorth trwy gynllun nwyddau cyhoeddus."
- Rheolwyr ucheldiroedd: "Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yn benodol y lefel uwch o nwyddau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r ucheldir a thir amaethyddol ymylol arall a sicrhau bod rheolwyr tir yn yr ardaloedd hyn yn derbyn cymorth penodol drwy gydol y cyfnod pontio."
- Ffermwyr rhan-amser "nad ydynt byth yn mynd i unrhyw gyfarfod addysgol ac yn wir unrhyw gyfarfod arall."
- Ffermydd bach teuluol, lle gall fod diffyg cynhwysedd i ymchwilio ac elwa o gynllun nwyddau cyhoeddus.
- Ffermydd mwy dwys, gyda'r cyfle mwyaf i symud ymlaen: "rhaid targedu [hyfforddiant] tuag at y rhai sydd ei angen fwyaf, sef ffermwyr a rheolwyr tir sy'n achosi niwed amgylcheddol, lle mae'n hanfodol integreiddio nodau cynhyrchiant ac amgylcheddol, a lle ceisir canlyniadau amgylcheddol o ansawdd uchel."

- Unrhyw swyddogion prosiect a staff arall perthnasol o Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gweinyddu'r cynllun nwyddau cyhoeddus.
- Y cyhoedd yn gyffredinol (o safbwynt mynediad i dir).

6.120 Roedd meysydd pwnc ar gyfer hyfforddiant a chyingor sy'n gofyn am y mwyaf o sylw ym marn ymatebwyr yn cynnwys:

- Amgylcheddol: rheoli pridd, coridorau glannau afonydd, draenio, ansawdd dŵr, adar tir ffermio, glaswelltir heb ei wella, rheoli economeg ffermydd, defnydd o faethynnau, defnydd o gynhyrchion fferyllol, rheoli tir yn gynaliadwy, coetiroedd gwlyb, gwrychoedd, rhostiroedd mwsogl/grug/Molinia ucheldirol, rheoli slyri.
- Cynaliadwyedd ac ynni adnewyddadwy: lliniaru newid hinsawdd, micro-gynhyrchu ynni gwyrdd, cronfeydd carbon ar y tir (er enghraifft mawnogydd), gwelyau brwyn mewn ffosydd a phyllau mewn caeau<sup>6</sup>.
- Lles anifeiliaid: "rhaid i iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid gael eu cydnabod fel nwyddau cyhoeddus pwysig a'u gwobrwyo trwy unrhyw gynllun nwyddau cyhoeddus arfaethedig." (Cymdeithas Milfeddygon Prydain)
- Mynediad i'r anabl i lwybrau cyhoeddus.
- Deddfwriaeth sy'n llywodraethu mynediad cyhoeddus a'r rheolaeth ohono.
- Canllawiau ar fesur allbynnau nwyddau cyhoeddus.

6.121 Awgrymwyd y dylid cyflwyno hyfforddiant trwy gontract fframwaith eang sy'n cael ei adnewyddu'n rheolaidd.

Cwestiwn 15

6.122 Y pymthegfed cwestiwn oedd: Mae buddsoddi'n breifat mewn prynu nwyddau cyhoeddus eisoes yn digwydd, ond ar raddfa gymharol fach.

---

<sup>6</sup> Cymhathu carbon a hidlo dŵr halogedig.



Sut allai'r cynllun newydd hybu mwy o ymwneud gan y sector preifat?  
Beth yw'r rhwystrau i'r math yma o fuddsoddiad?

6.123 Caiff y 445 o ymatebion uniongyrchol i'r cwestiwn hwn eu trafod isod.

Sut i hybu mwy o ymwneud gan y sector preifat

6.124 Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid annog ymwneud gan y sector preifat trwy ddangos enillion ar fuddsoddiad. Cydnabuwyd bod y sector preifat yn cael ei yrru'n bennaf gan elw a chyfleoedd buddsoddi cadarn. Awgrymodd WWF Cymru y dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch beth fyddai'r cynllun yn ei gynnig i ddarpar fuddsoddwyr posibl dros oes contract a sut i fesur yn clir yr effeithiau y bwriedir i'r ymyrraeth eu cael. Roedd ymatebwyr hefyd yn awgrymu defnyddio toriadau trethi. Awgrymodd Undeb Amaethwyr Cymru y gallai cynnydd wrth ddatblygu marchnadoedd o'r fath fod yn araf heb gymhellion na gofynion cyfreithiol. Yn ogystal, gellid ystyried cymhellion prynu tir a fyddai'n lliniaru costau gormodol.

6.125 Roedd dulliau pellach a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys rhoi gwybodaeth ar sut y caiff y cynllun ei ariannu a'i reoli, buddsoddi mewn cynllun marchnata effeithiol a chyfleu manteision y cynllun o ran gwella elw. Roedd ymatebwyr yn awgrymu codi ymwybyddiaeth o raglenni a oedd eisoes yn llwyddiannus megis:

- Prosiect gwella cyflenwad dŵr yn y Rhondda Fach
- Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol
- Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon
- Prosiect EcoStable Slopes
- Prosiect ymchwil PLANED, Adeiladu Cadernid i Ddalgylchoedd ("BRICS")
- Prosiect Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog<sup>7</sup>.

6.126 Roedd nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at ddelwedd gyhoeddus fel ffordd allweddol o gynnwys sefydliadau preifat. Roedd un ymatebydd yn awgrymu addysgu sefydliadau ar newid yn yr hinsawdd ac un arall yn

---

<sup>7</sup> Darparwyd y rhestr gan Dŵr Cymru

argymell annog sefydliadau i gyfranogi fel rhan o'u Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Dywedodd un ymatebydd fod cwmnïau preifat yn chwilio am ffyrdd o gynyddu eu delwedd gyhoeddus ac y byddai mynediad at gyfleoedd i gydweithio sy'n bod eisoes yn eu galluogi hwy i wneud hynny.

6.127 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru i roi fframwaith a rheoleiddio cefnogol ar waith.
- Sefydlu set o gonsesiynau ar fferm lle gellid sefydlu mentrau bach ar rannau o'r tir.
- Cymorth mwy hyblyg i sefydliadau elusenol hir-sefydledig.
- Cwmnïau cydweithredol i weithredu fel cyfryngwyr (megis y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau).
- Mwy o gydnabyddiaeth i gynlluniau ardystio (megis organig neu reoli coedwigoedd).
- Buddsoddiad ar raddfa fach gan ddarparwyr gweithgareddau awyr agored tuag at wella mynediad a phethau tebyg.

Rhwystrau i fuddsoddi

6.128 Roedd ymatebwyr yn nodweddiadol yn dweud mai cost oedd y rhwystr mwyaf i fuddsoddiad gan y sector preifat. Y farn oedd bod hyn yn sgil y gred o ddiffyg enillion ariannol neu'r gred o werth cyfyngedig (oni bai fod cysylltiad â buddion treth), y gall buddsoddwyr ei gael. Yn ogystal, dywedodd un ymatebydd fod y wobr yn fach/ansylweddol o gymharu â'r gwaith papur oedd yn gysylltiedig.

6.129 Roedd rhwystrau eraill yn cynnwys rheoleiddio a diffyg cydgyfeirio rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus, sy'n gweithredu mewn dull sy'n fiwrocraidd ac yn wrthwynebus i risg. Ar y llaw arall, roedd un ymatebydd yn mynegi angen am fframwaith deddfwriaethol clir o fewn asiantaethau llywodraeth fel coedwigaeth, rhywbeth a fydd yn denu'r sector preifat ym marn yr ymatebydd.

6.130 Roedd nifer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch beth oedd y rhwystrau ond yn teimlo ei bod yn aneglur pam y byddai'r sector preifat yn

buddsoddi neu ddim ond yn buddsoddi pa bai'n cael ei orfodi i wneud hynny. Dywedodd un ymatebydd na allech ddarogan dyfodol busnes heb ffeithiau ar gytundeb Brexit.

Gwrthwynebiad i ymwneud gan y sector preifat

6.131 Roedd cyfran o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o ymwneud gan y sector preifat yn y cynllun a theimlai nifer ohonynt ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl y cynllun. Roedd aelodau Undeb Amaethwyr Cymru fod prynu nwyddau cyhoeddus yn awgrymu nad yw'r hyn a brynir yn nwydd cyhoeddus mewn gwirionedd.

6.132 Roedd pryderon yn cynnwys:

- Byddai'r dull yn anghynaliadwy gan fod ar fuddsoddwyr preifat eisiau ad-daliad tymor byr o'r buddsoddiad.
- Byddai sefydliadau preifat yn prynu tir er mwyn manteisio ar gyllid cyhoeddus, gan leihau'r niferoedd sy'n ffermio a dad-sgilio ardaloedd gwledig.
- Ni fyddai rheoleiddio yn ddigon llym i liniaru'r effaith y gallai Menter Cyllid Preifat ei gael.
- Byddai amaethyddiaeth yn cael ei israddio i wrthsefyll llygredd a wneir gan gorfforaethau, gan arwain at "gefn gwlad sy'n llawn o goed a dinasoedd sy'n llawn llygredd".
- Gallai gor-ddibyniaeth ar gyllid preifat lurgunio penderfyniadau ynghylch pa weithgareddau oedd yn derbyn y mwyaf o gymorth.

6.133 Teimlai rhai y dylai cyrff preifat, os oes arnynt eisiau chwarae rhan, brynu tir ac na ddylent fuddsoddi mewn ffermydd a berchnogir gan deuluoedd. Teimlai eraill nad oedd unrhyw alw am hyn a theimlai llawer o ymatebwyr na allent ateb oherwydd diffyg eglurder y diffiniad o nwydd cyhoeddus.

## 7. Pontio, Cyflawni a Deddfwriaeth: Cwestiynau 16-19 yr Ymgynghoriad

### Cwestiwn 16

- 7.1 Roedd Cwestiwn 16 yn gofyn i ymatebwyr i'r ymgynghoriad am eu sylwadau ar y cyfnod pontio graddol, a'r uchelgais i gwblhau'r newidiadau erbyn 2025. O'r 1,036 o ymatebion i'r ymgynghoriad, fe wnaeth 577 ymateb i'r cwestiwn hwn.
- 7.2 Y farn gyffredinol ymysg yr ymatebwyr oedd bod angen ymestyn y cyfnod a gymerir i weithredu'r newidiadau, fodd bynnag roedd rhesymau dros hyn yn amrywio ymysg yr atebion. Roedd y mwyafrif a deimlai fod 2025 yn raddfa amser afresymol yn cyfeirio at y cyfnod hirach ar gyfer pontio a sefydlwyd yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Y teimlad oedd y bydd gwthio Cymru i gwblhau'r pontio ddwy flynedd cyn gweddill y Deyrnas Unedig yn gosod ffermwyr yng Nghymru o dan anfantais sylweddol hyd nes y bydd fframwaith rheoleiddio wedi'i gysoni yn 2027. Dywedodd llawer mwy o'r rheini a deimlai fod 2025 yn afresymol ei bod yn raddfa amser rhy fyr a bod amcanion Llywodraeth Cymru yn rhy uchelgeisiol ac anghyraeddadwy yn wyneb y dasg sydd o'u blaenau. Dywedodd NFU Cymru "Yn gyffredinol, ni chredwn y bydd y cyfnod pontio cymharol fyr mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig yn ddigonol i lunio a datblygu, profi ac asesu effaith y graddau o newid a gynigir". Roedd sylwadau'n codi pryderon na fydd y raddfa amser a ragwelir yn dechrau caniatáu amser digonol ar gyfer y dadansoddi, modelu, cynllunio a threialu trwyadl y bydd ei angen i sicrhau nad yw newidiadau fel y rhai a gynigir yn cael effaith trychinebus. Cefnogwyd hyn gan ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn pwysleisio ei bod yn "bwysig fod y pontio yn cynnwys treialu a pheilota wedi eu cynllunio'n dda" er mwyn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw fylchau mewn tystiolaeth, sgiliau a gwybodaeth. Teimlid yn yr un modd fod cyfnod pontio hirach yn angenrheidiol er mwyn caniatáu ar gyfer sefydlogrwydd a gweithrediad llyfn busnesau yn wyneb ansicrwydd y cytundeb Brexit. Cefnogwyd hyn gan Gymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru sy'n "ffafrio isafswm cyfnod pontio o saith mlynedd o 2021".

- 7.3 Ar y llaw arall, fe wnaeth y farn fod 2025 yn rhesymol fel terfyn ddenu cefnogaeth sylweddol ymysg ymatebwyr. Roedd y rheini a oedd yn cefnogi hyn yn ei ddisgrifio fel "blaengar", "synhwyr", "uchelgeisiol" a "chymradwy". Un sylw oedd "dylai pob busnes gael cynlluniau 5-mlynedd" ac felly, o dan gyfnod pontio o'r fath rhoddir amser digonol i fusnesau addasu. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad gan Confor yn croesawu'r newid sylweddol mewn cyllid i goedwigaeth, mor gynnar â'r flwyddyn nesaf, gan awgrymu bod angen darpariaeth ddigonol o staff yng Nghyfoeth Naturiol Cymru i brosesu ceisiadau (uned unswydd ar gyfer ceisiadau creu coetiroedd ac unigolyn arweiniol i wella'r broses o greu coetiroedd). Dywedodd ymatebydd arall y byddai'r dyddiad o 2025, er yn uchelgeisiol, yn llwyddiannus os yw'r seilwaith ar gael i'w gyflwyno'n raddol (megis systemau TG) ac os yw prosesau biwrocraidd yn ddi-rwysr.
- 7.4 Teimlai cyfran lai o ymatebion fod cyfnod pontio a fyddai'n parhau hyd 2025 yn rhy hir ac felly byddai angen ei weithredu gyda mwy o frys. Roedd yr ymatebion a oedd yn cefnogi dull o'r fath yn ystyried bod effeithiau newid yn yr hinsawdd a lleihad llym mewn bioamrywiaeth yn gofyn am fwy o frys. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedaethol "ni all natur fforddio ag aros am arian cyhoeddus i dechrau rhoi blaenoriaeth i fuddion cyhoeddus ac mae ar ffermwyr angen sicrwydd cyn gynted â phosibl". Roedd sylwadau'n awgrymu hefyd y gellid colli cyfleoedd masnach pe bai'r pontio'n cymryd yn rhy hir.
- 7.5 Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch y pontio. Cydnabuwyd yn helaeth mai pontio graddol oedd y ffordd fwyaf effeithiol o rwystro sefyllfa o fod ar ymyl y dibyn i ffermwyr, busnesau a Llywodraeth Cymru ac roedd llawer yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i fod yn ofalus a hyblyg yn ystod y cyfnod pontio. Awgrymwyd hefyd fod cyflwyno'r cynllun yn raddol yn gofyn am elfen o ddysgu ac addasu wrth i'r cynnig gael ei ymestyn.

- 7.6 Roedd rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch cymorth yn ystod y cyfnod pontio. Un thema gyffredin oedd y dylid cadw'r BPS neu ei ymestyn y tu hwnt i 2025 i liniaru argyfwng economaidd a chaniatáu ar gyfer addasu yn wyneb y newidiadau sylweddol i fusnesau. Dywedodd un ymatebydd, er enghraifft, "Gallai tynnu'r cynllun presennol yn ôl yn sydyn arwain at allfudiad torfol o ffermio gyda cholli gwybodaeth o ganlyniad a phroblemau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn ei sgil".
- 7.7 Thema arall a ddaeth allan o'r ymatebion oedd ei bod yn anodd penderfynu a oedd y dyddiad pontio arfaethedig yn addas, yn wyneb yr ansicrwydd a achosir gan y cytundeb Brexit. Roedd un ymatebydd yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i "lynu at y sefyllfa bresennol hyd nes bydd Brexit wedi digwydd", a gofynnodd un arall "Beth sy'n digwydd i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin os bydd y trafodaethau Brexit yn cael eu hymestyn?". Roedd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn ystyried effaith y broses drafod gan ddweud "Mae Llywodraeth Cymru wedi ymwneud o'r blaen ag asesiadau o effaith i archwilio effaith unrhyw newid polisi – mae angen i ddadansoddiad o effeithiau cyfun unrhyw gytundeb masnach a newidiadau i bolisiau cymorth Cymru gael ei wneud, ond ni ellir ei wneud hyd nes bydd y trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi eu cwblhau".

#### Cwestiwn 17

- 7.8 Roedd Cwestiwn 17 yn gofyn: Beth yw'r ffordd fwyaf priodol o ddirwyn y BPS i ben yn raddol er mwyn dechrau cynnal y cynlluniau newydd? O'r 1,036 o ymatebion uniongyrchol, fe wnaeth 517 ateb y cwestiwn hwn. Yn ogystal, mae Atodiad C yn cyflwyno dadansoddiad pellach o wyth o ymatebion gan sefydliadau i'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Taliad Sylfaenol, fel y gofynnwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 7.9 Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebion mai'r ffordd orau o ddirwyn y BPS i ben oedd trwy ddull graddol. Barn gyffredinol yr ymatebwyr hyn oedd

mai lleihau canran o'r taliad yn flynyddol drwy gydol y cyfnod pontio fyddai'r "dull symlaf a thecaf". Awgrymwyd o fewn yr ymatebion hyn y byddai tynnu'r cynllun presennol yn ôl mewn modd addas rhwng 10 a 20 y cant y flwyddyn yn gynaliadwy. Teimlai llawer y byddai cwblhau'r pontio mewn cynyddrannau canrannol, gan integreiddio'r cynlluniau newydd, yn bodloni'r diwydiant amaethyddol ac yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar ffermwyr i gynllunio'n hirdymor a gyrru eu busnesau ymlaen. Roedd sylwadau pellach yn ystyried dull graddol i gydbwysu'r "angen am amser i addasu â'r angen i fynd i'r afael â'r problemau presennol" gan ganiatáu hefyd ar gyfer cyfnod pontio digon hir i dreialu, profi a modelu'r cynllun newydd er mwyn sicrhau bod newidiadau sylweddol yn cael yr effaith lleiaf dramatig ar y diwydiant. Roedd llawer yn cefnogi cyfnod pontio o bump i saith mlynedd fel un sy'n taro'r cydbwysedd iawn rhwng cynnal y momentwm angenrheidiol fel nad yw newidiadau'n cael eu gohirio'n ddiwedd, ond sy'n gweithredu ar ddigon o frys i fynd i'r afael â'r problemau amgylcheddol sy'n wynebu'r diwydiant amaeth heddiw. Teimlai eraill y byddai dull graddol yn sicrhau bod gellid rhoi mynediad cynnar i'r ffermydd hynny a oedd yn dymuno treialu'r system ac y byddai nifer mawr o ffermydd gyda mynediad cynnar at y cynllun newydd yn caniatáu ar gyfer gweithredu'r cynllun yn llyfn i'r holl ffermwyr.

- 7.10 Barn gyffredin ymysg yr ymatebwyr oedd y dylid cyflwyno uchafswm cychwynnol ar daliadau gydag awgrymiadau'n amrywio o £50,000 i £120,000. Byddai dull o'r fath yn sicrhau y byddai'r derbynwyr mwyaf yn derbyn y cwmp canrannol mwyaf mewn taliadau yn gyntaf, ac yn rhyddhau arian ar unwaith i fynd i'r cynllun newydd. Awgrymwyd y byddai lleihad graddol yn y gostyngiadau canrannol o'r uchaf i'r isaf yn caniatáu ar gyfer cyn lleied â phosibl o darfu ac yn darparu cymorth i ffermwyr bach trwy gynnal eu Cynllun Taliad Sylfaenol hyd at ddiwedd y cyfnod pontio ac felly'n diogelu'r rheini sydd mewn mwyaf o berygl unrhyw anwadalwch yn y dyfodol. Teimlai'r Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol mai ffordd effeithiol o weithredu

hyn fydd cael “lleihad canrannol cyffredinol i bawb ar gyfer pob taliad uwchlaw trothwy canolrif y taliadau.”

- 7.11 Roedd nifer o ymatebion yn anghymeradwyo cael gwared ar y Cynllun Taliad Sylfaenol o gwbl, gyda rhai'n awgrymu y dylid ei gynnal. Dywedwyd y byddai'r pontio draw oddi wrth y BPS yn tarfu ar ffermwyr yng Nghymru. Teimlai un fod y system bresennol yn “gweithio'n dda”, tra dywedodd un arall y bydd “llawer o boen yn y sector”, a dywedodd un ymatebydd y bydd diweddur BPS yn golygu y bydd ffermwyr Cymru o dan anfantais o gymharu â'r Undeb Ewropeaidd. Awgrym un ymateb oedd “dylid cynnal cynllun sylfaenol i bob cynhyrchwr i helpu rheoli risg ac anwadalwch prisiau” gydag ymatebydd arall yn ailadrodd “byddai methiant i wneud hynny yn hynod o esgeulus ac yn peryglu chwalu sector amaethyddol Cymru ac felly ein cymunedau gwledig fel maen nhw'n bod heddiw”. O fewn yr ymatebion hyn roedd rhai o'r farn y bydd diwedd incwm y BPS yn cael effaith sylweddol ar draws yr economi a'r gymuned amaethyddol. Awgrymwyd bod y sectorau da byw yn gyfan gwbl ddibynnol ar incwm y BPS, y byddai'r economi wledig ehangach yn profi sgil-ffaith, a bod potensial am godiadau mewn rhenti. Awgrymodd Undeb Amaethwyr Cymru fod “y sail resymegol dros gefnu ar gymorth uniongyrchol ar roddir yn y ddogfen ymgynghori heb dystiolaeth ac yn anecdotaidd ar y gorau”.
- 7.12 Gyda rhai o'r ymatebion, dywedwyd ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cymorth ar gael i fusnesau a fydd yn gorfod addasu i'r cynlluniau newydd. Awgrymwyd y byddai sicrhau bod cyngor busnes o ansawdd da ar gael yn hanfodol i lwyddiant y cynllun.
- 7.13 Teimlai rhai ymatebwyr “nad nawr yw'r amser i wneud newidiadau sylweddol yn sgil yr ansicrwydd a achosir gan Brexit”. Roedd ymatebwyr a gododd y mater hwn yn tynnu sylw at ddylanwad yr Undeb Ewropeaidd ar ddefnydd tir yng Nghymru ac yn teimlo y dylai diwygiadau amaethyddol mawr gael eu gweithredu ar ôl y cytundeb y setlir arno i adael yr Undeb Ewropeaidd.



7.14 Dywedodd dau ymatebydd y dylai'r BPS barhau i gael ei ddarparu ar y gyfradd bresennol, ond gyda therfyn yn cael ei osod pryd y byddai pob taliad yn dod i ben.

Awgrymodd un ymateb i gadw parhad rhwng y Taliadau Gwyrdd presennol a'r system newydd, fel "pont ddeallusol".

## Cwestiwn 18

- 7.15 Roedd Cwestiwn 18 yn gofyn sut i symleiddio'r broses gyfredol o weinyddu a chynnal Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod y cyfnod pontio graddol. Derbyniodd y cwestiwn hwn 438 o sylwadau.
- 7.16 Y farn gyffredinol oedd y dylid cadw ac nid diwygio'r system BPS bresennol, oherwydd ei bod hi eisoes yn syml ac yn effeithiol. Dywedwyd bod ffermwyr eisoes wedi arfer â'r system, felly ni ddylid ei newid i ychwanegu cymhlethdodau pellach neu ddryswch ynghylch y gofynion. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y system bresennol yn effeithlon, ac na ddylid diwygio rheolau taliadau (megis codau cnydau a chodau parhaol). Dywedodd un ymatebydd fod ymgeisiau blaenorol i symleiddio'r BPS wedi ychwanegu at ei chymhlethdod yn amlach na phheidio, tra dywedodd un arall ei bod yn debygol y byddai Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn fwy cymhleth na'r system bresennol. Roedd NFU Cymru yn galw am dystiolaeth y gallai'r cynllun i gymryd ei le ddarparu'r un sefydlogrwydd ag a wna'r BPS ar hyn o bryd, cyn y gellid cychwyn ei ddirwyn i ben. Y pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr oedd: pe na bai'r BPS yn parhau, pa angen fyddai am addasu gweinyddiaeth a darpariaeth y Cynllun am y cyfnod pontio byr a gynigir.
- 7.17 Barn wahanol o fewn yr ymatebion oedd y dylid diwygio'r system BPS i leihau'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm ag ymgeisio am daliadau. O fewn hyn, un farn oedd bod gofynion presennol y BPS yn rhy haearnidd – megis y nifer o ffurflenni, graddau'r manylder (pedwar lle degol) ar arwynebeddau tir, a gofynion "ail-fapio". Awgrymwyd felly y dylid symleiddio'r ffurflenni, y dylid lleihau gwaith papur, a bod systemau ar-lein yn cael eu cadw ar gael trwy Daliadau Gwledig Cymru. Roedd ymatebwyr yn awgrymu y dylid cadw arolygiadau i'r isafswm, fel y cefnogwyd gan ymateb HCC, y dylai system yn y dyfodol fod yn hunan-archwiliedig gyda'r isafswm o ofynion gwirio, fodd bynnag ni ddylid tanbriso'r gost o ddatblygu, cyflawni a monitro cynllun unswydd. Yn ogystal, roedd ymatebwyr o'r farn os oedd ffermydd yn cael achrediad Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru yna dylai hyn

gynnwys popeth sy'n ofynnol ar gyfer taliadau ac y byddai'n sicrhau safonau sylfaenol ar ffermydd. Awgrym un ymatebydd fodd bynnag oedd os oedd Taliadau Gwledig Cymru yn parhau fel maent ar hyn o bryd, y bydd y system yn parhau'n fiwrocraidaidd ac aneffeithlon.

- 7.18 Roedd NFU Cymru yn croesawu'r ymrwymiad y dylai symleiddio'r prosesau ymgeisio a gweinyddu fod yn amcan allweddol ar gyfer y cynlluniau newydd, ond roeddent o'r farn nad yw cynigion yr ymgynghoriad yn cyflawni'r amcan hwn.
- 7.19 Cefnogwyd hyn gan Undeb Amaethwyr Cymru, a oedd yn gwrthwynebu dirwyn y BPS i ben i'w ddisodli gan y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, fodd bynnag, roeddent yn awgrymu newidiadau i'r BPS gan gynnwys "gofynion gwyrdd, symleiddio'r prosesau gweinyddu ac arolygu, gwneud cosbau yn fwy cymesur, cydnabod gwallau anfwriadol, cynyddu trothwyau ar gyfer ardaloedd codau cnydau a symleiddio codau cnydau".
- 7.20 O ran y taliadau, roedd ymatebwyr yn awgrymu y dylid eu gosod ar gyfradd 2018, a'u lleihau bob blwyddyn. Roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu bod busnesau'n dibynnu ar y BPS, ac felly y dylai'r cynllun newydd gymryd lle unrhyw ostyngiadau. Roedd ymatebwyr yn ailadrodd yr angen i daliadau gael eu gwneud mewn pryd.
- 7.21 Roedd ymatebwyr hefyd yn codi'r angen i ymgynghorwyr gwybodus fod yn ymdrin yn gyflym ag ymholiadau ynghylch taliadau, fel nad yw taliadau'n cael eu gohirio.
- 7.22 Yn unol â chwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad, roedd ymatebwyr yn ailadrodd nad dyma'r amser, ar adeg o ansicrwydd ynghylch Brexit, i wneud newidiadau i'r BPS a bod y cynlluniau'n gynamserol. Yn ogystal, roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn codi pryderon ynghylch hyd y cyfnod pontio gydag ystyriaeth ofalus yn ofynnol er mwyn sicrhau bod cymorth parhaus i ffermwyr i sicrhau newid graddol mewn cymorth dros gyfnod hirach o amser.

## Cwestiwn 19

- 7.23 Roedd Cwestiwn 19 yr ymgynghoriad yn gofyn: A fydd y rhaglen rheoli tir arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) ar:
- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
  - peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ?
- 7.24 Cafwyd 530 o ymatebion i Gwestiwn 19.
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- 7.25 Y farn fwyaf cyffredin gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd y pryderon sylweddol ynghylch y Rhaglen Rheoli Tir yn effeithio'n negyddol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- 7.26 Mae'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth yn cefnogi cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd un ymatebydd, "Mae amaethyddiaeth yn cynnal y Gymraeg a'n cymunedau gwledig", gan fod 29 y cant o ffermwyr yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â dim ond 17 y cant o'r boblogaeth. Roedd y rhaglen yn cael ei gweld fel un sy'n effeithio'n negyddol ar hyfywedd y busnesau gwledig hyn, ac felly y disgwyliad cyffredinol oedd y byddai'n cael effaith negyddol ar gymunedau gwledig Cymraeg. Yn enwedig heb sefydlogrwydd y Cynllun Taliad Sylfaenol, y farn oedd ei bod yn anochel y bydd y nifer o fusnesau ffermio yn lleihau ac o ganlyniad yn effeithio ar y nifer o siaradwyr Cymraeg.
- 7.27 Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod y cyswllt rhwng y Gymraeg a'r economi, sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a thwristiaeth. Dywedodd y Comisiynydd: "Er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg, rhaid i gynllunio iaith a datblygu economaidd fynd law yn llaw", ac felly rhaid cynnwys hyn o fewn y Cynllun Rheoli Tir fel 'nwydd cyhoeddus'. Roedd y Comisiynydd hefyd yn cydnabod gallu'r Gymraeg i gefnogi twf busnes a datblygiad cynhyrchion arloesol, yn benodol yn y defnydd o'r Gymraeg i ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata yn y

sector gweithgynhychu a marchnata bwyd a diod. Cyfeiriodd y Comisiynydd at ymchwil diweddar mewn agweddau busnesau mawr a busnesau bach a chanolig yng Nghymru, lle'r oedd 82 y cant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno'n rhannol fod defnyddio'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth at gynnyrch neu wasanaeth. Am y rhesymau hyn, roedd Comisiynydd y Gymraeg yn dadlau dros gynnwys amcanion o ran y Gymraeg yn y Cynllun Cadernid Economaidd, yn enwedig o safbwynt cefnogi potensial y farchnad.

- 7.28 Yn gyson, roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn crybwyll effeithiau diwylliannol negyddol sylweddol y rhaglen ar gymunedau Cymraeg. Fel y dywedodd un ymatebydd, "Mae cymunedau amaethyddol gwledig wedi dod yn asgwrn cefn y Gymraeg a thrwy'r cymunedau hyn mae'r Gymraeg, yn llafar ac ysgrifenedig, wedi goroesi". Felly, heb sector amaethyddol ffyniannus yng Nghymru byddai effaith diwylliannol hir ei barhad a thrychinebus na ellid ei wrthdroi. Dywedodd ymatebwyr y byddai'n "farwolaeth ddiwylliannol – trychineb llwyr" a "heb ffermio cynaliadwy mae ar ben ar y Gymraeg".
- 7.29 Cafodd yr effaith ar ddemograffeg gymdeithasol a dirywiad poblogaeth cymunedau gwledig Gymraeg ei godi mewn llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad. Y farn oedd nad yw'r rhaglen yn cynnig cyflogaeth nac anogaeth i bobl ifanc na theuluoedd ifanc aros mewn cymunedau gwledig, oherwydd diffyg dewisiadau credadwy eraill i gymryd lle'r BPS. Wrth grynhoi teimlad yr ymatebion, dywedodd un ymatebydd: "Os nad oes cynhyrchwyr bwyd a rheolwyr tir yn gallu gwneud bywoliaeth yng nghefn gwlad Cymru, [bydd] effaith niweidiol ar ddiwylliant, iaith a threftadaeth Cymru. Ein plant yw ein dyfodol, a byddant wedi gadael yr ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith i chwilio am waith mewn dinasoedd mawr dros y ffin."
- 7.30 Roedd colli ffermydd teuluol mewn ardaloedd gwledig yn destun pryder sylweddol gan y byddai'n effeithio'n negyddol ar y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, fel y codwyd gan ymatebion i'r ymgynghoriad, NFU Cymru ac ymateb Undeb Amaethwyr Cymru. Roedd ymatebwyr yn nodi y byddai effeithiau niweidiol difrifol ar y Gymraeg heb

ffermydd teuluol yn rhan o'r gymunedol, ac y bydd yr iaith yn "diflannu o'r bryniau". Yn ôl un ymatebydd, "byddai'n farc du parhaol ar Lywodraeth Cymru gan fod yn rhaid ichi gofio mai ffermwyr ac aelodau eu teuluoedd yw asgwrn cefn yr ardaloedd Cymraeg yng Nghymru". Y farn oedd ei bod yn bwysig cefnogi ffermydd o bob maint ac i'r fferm deuluol gael ei blaenoriaethu dros sefydliadau ac elusennau (ee Cyfoeth Naturiol Cymru). Codwyd pryder ynghylch dilyn Seland Newydd wrth golli ffermydd bach teuluol, gan arwain at rannau o Gymru'n dod yn drefi anghyfannedd.

- 7.31 Mae gan Lywodraeth Cymru y weledigaeth o "filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050".<sup>8</sup> Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn pwysleisio na ellir cyflawni hyn ond gydag economi wledig ffyniannus sy'n cadw pobl mewn cyflogaeth yn y Gymru wledig, trwy gefnogi'n uniongyrchol y fferm deuluol a chymunedau Cymraeg. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn galw ar i'r Gymraeg gael ei nodi fel 'nwydd cyhoeddus' dynodedig, gan y byddai hyn yn gyson â'r Strategaeth Cymraeg 2050. Yn ogystal, roedd ychydig o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn nodi methiant y rhaglen arfaethedig i gyfrannu'n uniongyrchol at y nodau llesiant o "Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" a "Chymru o gymunedau cydlynus" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- 7.32 Roedd effeithiau negyddol eraill y rhaglen i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn cynnwys y canlynol:
- "Bydd unrhyw symudiad tuag at ddiwydiannau sy'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg (twristiaeth / sector gwasanaethau) ac oddi wrth amaethyddiaeth yn lleihau'r lluosydd ieithyddol yn yr economi wledig ..."
  - Nid yw'r rhaglen yn mynd yn ddigon pell i gefnogi tenantiaid ffermydd gweithgar sy'n cyfrannu at y cymunedau.

---

<sup>8</sup> <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf>

- Mae cymunedau gwledig eisoes o dan fygythiad yn sgil colli gwasanaethau, mae ffermio'n hanfodol i gadw'r iaith yn fyw mewn ardaloedd gwledig.
- 7.33 Roedd ymateb y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid i'r ymgynghoriad yn nodi y bydd yr effaith yn dibynnu ar lwyddiant y rhaglen i gynnal economi wledig ffyniannus.
- 7.34 Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn tynnu sylw at y cyfleoedd cadarnhaol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Os caiff y rhaglen ei llunio'n effeithiol a'i chyflwyno i gefnogi ffermwyr / cymunedau lleol yna gellir cryfhau'r Gymraeg. Dywedodd ymateb Confor y bydd ehangu'r sector coedwigaeth yn dod â swyddi diogelu a diwydiannau ffyniannus i gynnal cymunedau Cymraeg, gan fod y sector wedi ei gwreiddio yn economi wledig Cymru.
- 7.35 Roedd ymatebion eraill ynghylch y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn trafod y pwyntiau canlynol.
- Bydd hwyluso'r economi gylchol yn dod â chyfleoedd mewn ardaloedd gwledig, yn sgil integreiddio fertigol ac arallgyfeirio, a fydd yn dod â buddion i gymunedau gwledig.
  - Roedd swyddogion maes dwyieithog yn gweithio'n lleol yn cael ei weld gan rai ymatebwyr fel rhywbeth pwysig o ran cefnogi'r Gymraeg.
  - Roedd ymateb Cymdeithas Milfeddygon Prydain i'r ymgynghoriad yn pwysleisio bod safonau uchel mewn iechyd a lles anifeiliaid yn dibynnu ar gyfathrebu da rhwng ffermwyr a milfeddygon er mwyn i fesurau effeithiol i gadw gwyliadwriaeth am afiechydon gael eu cyflawni. Dylai pawb fod yn gallu ymwneud â'i gilydd yn eu hiaith o'u dewis.
  - Mae'n bwysig diogelu adnoddau naturiol drwy beidio â datblygu pob deunydd yn ddwyieithog, ond yn yr iaith mae pob Rheolwr Tir yn ei dewis.

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 7.36 O safbwynt ail ran Cwestiwn 19, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad na fydd problem benodol os caiff y cynllun ei gyflawni yn unol â Safonau'r Gymraeg ac yn benodol trwy lwyfan digidol dwyieithog. Cafodd y pwysigrwydd i bawb gael y dewis o'r iaith sydd orau ganddynt, gyda chydardoldeb rhwng yr ieithoedd, ei bwysleisio'n gyson gan ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 7.37 Fe wnaeth un ymatebydd nodi'r heriau ar hyn o bryd o beidio â bod yn siaradwr Cymraeg yn y sector, a dywedodd "Dylai'r rheini ohonom sydd wedi byw yng Nghymru ar hyd ein hoes gael ein trin yn gyfartal ac nid fel dinasyddion eilradd yn ein gwlad ein hunain" am beidio â siarad Cymraeg.

Arall

- 7.38 Roedd un neu ddau o ymatebwyr yn dweud ei bod yn bwysig peidio â rhoi gormod o sylw i'r Gymraeg, ond yn hytrach canolbwyntio ar y cynnig ar gyfer rheoli tir. Dywedodd yr ymatebwyr hyn nad oedd yn fantais siarad Cymraeg yn y farchnad fyd-eang a bod angen i Gymru edrych tua'r dyfodol i ganolbwyntio ar amaethyddiaeth fel diwydiant allforio lle mae'r Saesneg yn ofynnol. Fodd bynnag, roedd ychydig o ymatebion yn pwysleisio potensial marchnata cynhyrchion a statws dangosydd daearyddol gwarchoddedig (PGI), o ganlyniad i'r Gymraeg a threftadaeth cynhyrchion.
- 7.39 Roedd NFU Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn annog yn gryf cynnal asesiadau effaith rheoliadol llawn er mwyn deall effaith ymyraethau a gyllidir ar y Gymraeg. Roedd un ymatebydd yn galw ar i'r asesiad hwn gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn y gwanwyn.



## **8. Sylwadau Pellach: Cwestiwn 20 yr ymgynghoriad**

- 8.1 Roedd Cwestiwn 20 yr ymgynghoriad yn gofyn a hoffai ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau pellach.
- 8.2 Roedd 577 o sylwadau ychwanegol i Gwestiwn 20 yr ymgynghoriad. Roedd y sylwadau'n amrywiol eu natur, fodd bynnag roedd yr ymatebion yn bennaf yn codi pryderon ynghylch y Rhaglen Rheoli Tlir a'i chynlluniau arfaethedig.
- 8.3 Fel y cynhwyswyd mewn ymatebion i Gwestiwn 1, roedd ymatebwyr yn ailadrodd yr angen am daliad sylfaenol i gefnogi ffermwyr yn ariannol, yn enwedig i'r unigolion hynny sy'n rheoli'r tir yn weithredol. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn ailadrodd pryderon am gael gwared ar y Cynllun Taliad Sylfaenol a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â hynny, megis yr effeithiau negyddol ar y gadwyn gyflenwi, anifeiliaid heb fod yn cael y gofal priodol, ac effaith negyddol ar iechyd meddwl ffermwyr. Roedd effaith niweidiol cael gwared ar y BPS yn cael ei godi'n gyson yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 8.4 Roedd ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch amseru'r ymgynghoriad ac o le'r oedd y cyllid cysylltiedig ar gyfer y Rhaglen newydd yn dod. Yn wyneb natur ansicr y cyfeiriad wrth adael yr Undeb Ewropeaidd, roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi pryderon na ddylai Cymru wneud dim i'w hanfanteisio ei hun ymhellach.
- 8.5 Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ailadrodd y pryderon ynghylch y cynllun cadernid economaidd mewn ymateb i Gwestiwn 20. Roedd pryderon ynghylch taliadau sylfaenol, cefnogi ffermydd teuluol yn hytrach na sefydliadau penodol, a chefnogwyd uchafswm i bob busnes. Roedd ymatebwyr yn codi pryderon fod y cynllun yn anuniongyrchol yn annog ffermio dwys a fyddai er niwed yr amgylchedd a chymdeithas. Roedd hyn yn awgrymu angen i sicrhau y byddai meini prawf cymhwysedd i ystyried effaith cynnydd mewn cynhyrchu (ee elfen nwyddau cyhoeddus o fewn y cynllun cadernid economaidd).

- 8.6 Mae ar y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus angen eglurder ar beth sy'n cael ei ddiffinio fel nwydd cyhoeddus, gydag ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gynhyrchu bwyd a diogelwch bwyd, iechyd a lles anifeiliaid, hawliau tramwy cyhoeddus a thwristiaeth. Roedd ychydig o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cydnabod y risg o ddad-stocio'r ucheldir, ond roedd y manteision posibl o ddad-ddofi'r ardaloedd hyn yn cael eu gweld fel rhywbeth buddiol gan ychydig o ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Roedd ymatebydd yn nodi bod ewyllys wleidyddol a dewrder yn ofynnol er mwyn datblygu Cynllun Nwyddau Cyhoeddus priodol. Roedd ymatebydd yn codi pryderu bod Cymru ymhen 20 mlynedd mewn perygl o fod yn "genedl o geidwaid parciau".
- 8.7 Yn ogystal, roedd galwadau am gynlluniau i gadw ffermwyr ar y tir yn cynhyrchu bwyd, ac ar i gymorth gael ei glustnodi ar gyfer ffermwyr. Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r pwysigrwydd fod cymorth ariannol yn mynd yn uniongyrchol at reolwyr tir, yn hytrach nag ymgynghorwyr. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn codi'r angen am daliadau haenog er mwyn rhwystro corfforaethau neu sefydliadau mawr rhag dihysbyddu'r cyllid sydd ar gael. Yn ogystal, yr angen i glustnodi cymorth er mwyn sicrhau bod amaethyddiaeth ar wahân i gyllid coedwigaeth, a bod Llywodraeth Cymru yn datgan buddiant os yw'n cefnogi coedwigaeth, er mwyn rhwystro gwrthdaro buddiannau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.
- 8.8 Cafodd ffurf a dull rheoli'r cynlluniau eu harchwilio mewn sylwadau ychwanegol gan ymatebwyr. Roedd yr angen i'r cynllun fod yn hyblyg a hygyrch yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol i unrhyw gynllun newydd, gyda phroses syml ar gyfer hawlio cymorth. Awgrymwyd y dylai un prif gais y flwyddyn gasglu'r holl wybodaeth sydd ei angen gan reolwyr tir, i gael gwared ar ddyblygu amrywiol arolygon a gofynion gan ffermwyr. Mae angen mesur cyflawni ochr yn ochr â thargedau penodol gyda phrosesu archwilio drylwyr ar waith. Roedd un ymatebydd yn codi pryderon ynghylch rheolaeth y Rhaglen Rheoli Tir.

8.9 Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn codi pryderon ynghylch cysoni polisïau eraill Llywodraeth Cymru â'r Cynllun Rheoli Tir a gynigir.

Codwyd y pryderon canlynol gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

- Mae angen i bolisi bwyd fynd law yn llaw â rhaglenni rheoli tir. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod yn canolbwyntio ar gynyddu gwerthiannau, allforion a chynhyrchion arbenigol, ond mae angen i hyn fod yn gyson â sicrhau bwyd maethlon i bob dinesydd a sut y caiff y tir ei reoli.
- Mae angen am bolisi cynllun a thir cydgysylltiedig, gan fod cyfyngiadau ar hyn o bryd yn sgil y Polisi Datblygu Un Blaned, yn enwedig ynghylch cyfleoedd ynni adnewyddadwy.
- Mae angen i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y Rhaglen newydd hon.
- Y cysylltiadau rhwng y Rhaglen a Deddf yr Amgylchedd, Polisi Adnoddau Cenedlaethol, Datganiadau Ardal a'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol.
- Mae angen i bolisïau caffael cyhoeddus fod yn gyson â'r Rhaglen Reoli Tir arfaethedig er mwyn cefnogi Rheolwyr Tir Cymru.

8.10 Roedd sylwadau eraill gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- bydd marchnata'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth llwyr
- yr angen i gysoni â rhaglenni cenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau na fydd ffermwyr Cymru o dan anfantaes
- mae "hunaniaeth Cymru yn dibynnu ar lwyddiant y rhaglen"
- mae angen tystiolaeth ac arferion busnes cadarn i wneud ymrwymiad i lesiant pobl yng Nghymru
- mae gan goedwigaeth fasnachol rôl yn yr ucheldir a dylai coedwigaeth fod yn uchel ar yr agenda
- mae angen adnoddau ar gyfer rheoleiddio er mwyn sicrhau bod llinell sylfaen reoleiddio gref yn ei lle i sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n ymarferol
- Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfnod pontio hir yn ei lle, gan fod yr hyn a gynigir ar hyn o bryd yn rhy gyflym ac fe

wnaeth un ymatebydd nodi y dylai fod cyfnod pontio ac iddo isafswm o 10 mlynedd

- Mae Cynlluniau Datblygu Gwledig o dan Golofn 2 (ee LEADER) yn darparu cymorth i'r gymuned wledig ehangach ac yn rhoi cyfle i arbrofi ac arloesi mewn ardaloedd gwledig, ond nid oes dim manylion yn y Rhaglen ynghylch sut y bydd cynllun i'w holynu yn cael ei ddatblygu
- ni chynrychiolwyd genweirio yn y trafodaethau bwrdd crwn Brexit ac felly nid yw wedi ei gynrychioli'n llawn yn y rhaglen arfaethedig
- cyfathrebu gyda rheolwyr tir yw'r allwedd ar gyfer symud ymlaen
- bydd penderfyniadau a wneir ar hyn o bryd yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol, felly mae angen cymryd gofal.

## 9. Sylwadau Ychwanegol o'r Ymatebion Cyffredinol

- 9.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r sylwadau a wnaed mewn ymatebion cyffredinol nad oedd yn gysylltiedig â chwestiwn penodol. Caiff barnau sy'n ychwanegol at y rheini a fynegir yng Nghwestiwn 20 (gweler Adran 8) eu hamlinellu isod.
- 9.2 Roedd aelodau Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru yn gwrthwynebu'r cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ond yn gweld rhinwedd mewn rhai o'r elfennau a amlinellir. Roedd y mudiadau'n cytuno ar set o bum egwyddor allweddol, fel y disgrifir yn eu hymatebion, sydd â'r nod o "osod bwyd, ffermio, bywoliaethau, cymunedau ac amgylchedd Cymru ar droedle cadarn ar ôl Brexit" (Undeb Amaethwyr Cymru). Yr egwyddorion hyn yw: Sefydlogrwydd; Ffermydd Teuluol; Cefnogi Cymunedau Gwledig a Swyddi Cymru; Amaethyddiaeth Gynaliadwy; a Gwobrwyo Canlyniadau Amgylchedd. Fe wnaeth NFU Cymru hefyd gyflwyno'u gweledigaeth am Bolisi Amaethyddol Cymreig newydd sy'n seiliedig ar dri chonglfaen – cynhyrchiant, yr amgylchedd ac anwadalwch. Fe waeth NFU Cymru fynegi'r rhwystredigaeth fod "y graddau y mae [eu] pryderon wedi cael eu clywed drwy gydol datblygiad cynigion Brexit a'n Tir wedi bod yn siomedig iawn". Mae'r ddau undeb wedi ymrwmo i weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth lunio polisi yn y dyfodol.
- 9.3 Roedd ymateb Llywodraeth Awstralia yn tynnu sylw at eu diwygiadau polisi amaethyddol eu hunain ac yn cynnig mai eu hegwyddorion hwy o gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant yw'r ffordd orau o gystadlu; rhywbeth roeddent yn ei awgrymu y gallai fod yn fodel ar gyfer yr arferion gorau. Roedd Llywodraeth Awstralia yn annog symudiad oddi wrth gymorth penodol i gynhyrchwyr at gymorth i wasanaethau cyffredinol, rhywbeth y maent wedi ei gyflawni'n llwyddiannus trwy weithredu system ymchwil a datblygu gwledig, rheoli risg amaethyddol, y National Landcare Program a chydweithrediad rhwng pob lefel o lywodraeth. Roedd Llywodraeth Seland Newydd yn mynegi teimladau tebyg trwy annog y defnydd o

ymyraethau wedi eu targedu i annog ffermwyr a choedwigwyr i ddod yn gynhyrchwyr hunan-gynhaliol, sy'n ymateb i ofynion y farchnad.

- 9.4 Roedd rhai ymatebwyr yn canolbwyntio ar y mater o reoleiddio ac yn mynegi'r angen am fframwaith rheoleiddio symlach, mwy ystyrlon. Roedd Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol yn cydnabod y baich rheoleiddio sylweddol ar amaethyddiaeth ac yn galw am ei symleiddio a'i resymoli. Roedd NFU Cymru yn pwysleisio'r angen am adolygiad llawn o'r gyfundrefn reoleiddio bresennol cyn ymgynghori ar fframwaith rheoleiddio'r dyfodol. Mae risg o ddadsefydlogi marchnad fewnol weithredol y Deyrnas Unedig a'r cae chwarae gwastad a arferai fod rhwng cenhedloedd unwaith mae Prydain y tu allan i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Roedd NFU Cymru yn cydnabod y risg hon ac yn cymeradwyo'r defnydd o fframweithiau rheoleiddio cyffredin er mwyn lliniaru unrhyw oblygiadau.
- 9.5 Cafodd yr angen am asesiad o effaith ei drafod gan ymatebwyr, a oedd o'r farn fod hyn yn hanfodol ar gyfer gweithredu unrhyw gynllun newydd. Roedd NFU Cymru yn codi pryderon ynghylch creu ansicrwydd ac ansefydlogrwydd pellach pe bai Cymru'n "symud ymlaen gyda chynigion diwygio pellgyrhaeddol heb asesiad priodol o effaith y cynigion hyn ar lesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol Cymru". Roedd ymatebydd arall yn annog defnyddio modelu a threialu er mwyn sicrhau bod y cynllun yn addas ac nad yw'n atgynhyrchu problemau cynlluniau blaenorol megis Glastir.
- 9.6 Thema gyson oedd cydnawsedd canfyddedig y Cynllun Cadernid Economaidd a'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus. Roedd yr RSPB yn cydnabod y cyfle i gysylltu buddsoddiadau mewn cynhyrchiant â phwyslais amgylcheddol ehangach polisi yn y dyfodol, ond er mwyn gwneud hyn mae'n hanfodol fod y cynlluniau'n gydnaws â'i gilydd. Roedd Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol yn galw am werthusiad llawn o'r gorgyffwrdd posibl rhwng y ddau gynllun a hoffai'r Game and Wildlife Conservation Trust nad yw'r dull dau-gynllun yn dod yn rhwystr rhag cyflawni buddion lluosog.

## **Atodiad A. Datganiadau Llawn yr Ymgyrchoedd**

Ymateb Ymgyrch Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru: Parthed: Ymgyngoriad Llywodraeth Cymru - Brexit a'n Tir

Mewn ymateb i ymgyngoriad Llywodraeth Cymru - Brexit a'n Tir - credaf fod y cynnig i ddisodli'r Taliad Sylfaenol ('taliad fferm sengl') gyda chynllun amaeth-amgylcheddol / nwyddau cyhoeddus yn anghywir a dylid ei wrthod yn gyfan gwbl.

Golyga Brexit bod ffermydd Cymru a'n diwydiannau bwyd yn wynebu'r ansicrwydd a'r tarfu mwyaf mewn cenhedlaeth. Byddai gwneud y newidiadau mwyaf radical i daliadau fferm ers yr Ail Ryfel Byd, fel sy'n cael ei gynnig, yn ychwanegu at yr ansicrwydd a'r tarfu hwn ar yr adeg waethaf posibl.

Mae ein prif gystadleuwyr yn Ewrop a rhannau helaeth o'r Deyrnas Unedig yn cynnig parhau gyda thaliadau fferm uniongyrchol - felly byddai cael gwared ar daliadau uniongyrchol gan ffermydd Cymru yn rhoi anfantis gystadleuol sylweddol i'n busnes.

Mae'r cymhlethdod, y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau Llywodraeth Cymru yn golygu na ddylid symud ymlaen â hwy, yn enwedig ar adeg o'r fath ansicrwydd gwleidyddol ac ariannol.

**MAE'R HYN A GYNIGIR YN ACHOSI'R PERYGL O DARFU SYLWEDDOL AC EANG, CALEDI ARIANNOL A CHOLLI FFERMYDD A BUSNESAU GWLEDIG, A DYLLID EI WRTHOD.**

Ymateb Ymgyrch NFU Cymru

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

O ystyried yr ansicrwydd ynghylch ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeidd fis Mawrth nesaf, mae hi'n anodd iawn ystyried yr holl amrediad o bolisiau bydd ei angen ar fy musnes ffermio er mwyn sicrhau busnes ffermio llwyddiannus a phroffidiol ar ôl Brexit. Heb

wybod natur y cysylltiadau masnachol yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd a gwledydd eraill, na'r hyblygrwydd i ddiwygio ein cydestun rheoleiddio, mae hi'n anodd iawn gwybod yn bendant beth fydd ar fy musnes ei angen i Lywodraeth Cymru ei ddarparu. Fodd bynnag, gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyhoeddi cynigion am bolisi newydd, teimlaf ei bod yn bwysig fy mod yn canolbwyntio ar y canlynol:

Cynhyrchu Bwyd - mae sicrhau cyflenwad parhaus o fwyd diogel, o ansawdd uchel, y gellir ei olrhain yn llawn, er budd y genedl.

*Mae angen polisi a buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a dylai'r llywodraeth*

- gofio mai cynhyrchwyr bwyd yw ffermwyr yn bennaf oll a gyda'r polisi a'r fframwaith cyllido cywir bydd ffermwyr yn parhau i gynhyrchu bwyd sydd o'r radd flaenaf wrth ofalu am ein tirwedd hardd a gwella ein hamgylchedd.
- gofio bod y Cynllun Taliad Sylfaenol wedi bod yn arf amhrisiadwy wrth gynnal cynhyrchu bwyd o safon uchel yng Nghymru. Gallai cynigion i gael gwared â'r taliadau hyn gael effaith fawr nid yn unig ar deuluoedd sy'n ffermio ond ar y gadwyn cyflenwi bwyd ehangach yng Nghymru.
- dal sylw bod arolwg YouGov diweddar wedi dangos bod 83% o ddefnyddwyr Cymru yn cefnogi'r syniad o bolisi amaethyddol domestig newydd yng Nghymru sy'n darparu cyllid i gefnogi ffermwyr Cymru barhau i gyflenwi bwyd diogel, o ansawdd uchel ac y gellir ei olrhain yn llawn i'r genedl.
- cydnabod yr heriau presennol a'r heriau yn y dyfodol sy'n wynebu cynhyrchu bwyd ledled y byd. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, prinder tir a dŵr mewn rhai gwledydd, twf tollau amddiffyn a thwf poblogaeth. Fel gwlad sydd â chyfrifoldeb ledled y byd, mae gennym ni gyfrifoldeb i gynnal ein capasiti cynhyrchu a helpu i chwarae ein rhan wrth fwydo ein gwlad a chyfrannu at ddiogelwch bwyd ledled y byd.



- caniatáu i ffermwyr Cymru allu cystadlu â ffermwyr yng ngweddill y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n rhaid i gefnogaeth cyllid a pholisïau fod yr un peth â ffermwyr o wledydd eraill fydd yn parhau i gystadlu am yr un marchnadoedd â ffermwyr Cymru.

Yr Amgylchedd - Dylai pob ffermwr yng Nghymru gael eu gwobrwyo'n deg am y nwyddau cyhoeddus maent eisoes yn eu cyflawni. Dylai taliadau fynd y tu hwnt i gyfrifiadau incwm a gollwyd.

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod polisi yn y dyfodol yn...*

- cydnabod bod cynhyrchu bwyd wrth wraidd pob busnes ffermio ac mai ffermwyr, sy'n rheoli dros 80% o'r tir yng Nghymru, sydd â'r sgiliau a'r profiad i gynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol a'n tirweddau eiconig.
- cydnabod bod ein capasiti i fwydo ein hunain fel cenedl a sicrhau cyflenwadau o fwyd diogel am fod yn fwyfwy pwysig o ystyried yr heriau a ragwelir i'r gyfundrefn cynhyrchu bwyd ledled y byd. Mewn arolwg YouGov diweddar, mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi dangos cefnogaeth aruthrol i ffermwyr dderbyn cefnogaeth cyllid i sicrhau eu cyflenwad parhaus o fwyd diogel, o ansawdd uchel ac y gellir ei olrhain yn llawn i'r wlad. Mae'n rhaid i gynhyrchu bwyd cartref dderbyn cefnogaeth lawn y Llywodraeth os ydym am ddarparu'r hyn sy'n ddisgwyliedig a pheidio ag anfanteisio ffermwyr sydd wedi bod yn rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol ers sawl blwyddyn. Dylid cydnabod a gwerthfawrogi cynefinoedd sydd wedi'u creu, gwella ac adfer yn null nwyddau cyhoeddus y dyfodol.
- ymarferol a chyraeddadwy ar ein ffermydd ac mae arnom angen bod yn sicr bod y Llywodraeth yn gallu cyflawni'r cynlluniau hyn yn syml ac yn amserol. Gallwn fod yn sicr mai dyma fydd yr achos dim ond os caiff cynlluniau'r dyfodol eu llunio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr ffermwyr a'u treialu cyn eu cyflwyno ledled y wlad.

Cynhyrchiant - mesurau sy'n darparu cyllid i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith fferm modern, y technolegau a'r arloesi diweddaraf i sicrhau bod busnesau ffermio wedi eu harfogi'n dda i wynebu'r heriau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd marchnad ôl-Brexit.

*Dylai polisi i'r dyfodol...*

- gydnabod bod ar ffermwyr angen sylfaen gadarn a hyder i'w galluogi i fuddsoddi yn eu busnes yn y dyfodol, cynyddu cynhyrchiant a chyflawni nwyddau cyhoeddus i'r gymdeithas.
- adlewyrchu mai prif rôl holl ffermwyr Cymru yw cynhyrchu bwyd ac y bydd y rôl hon yn dod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol, o ystyried yr heriau a ragwelir i'n cyfundrefn cynhyrchu bwyd, ynghyd â rheoli a gwella ansawdd ein hamgylchedd.
- gael ei ddatblygu gyda dealltwriaeth lawn o effeithiolrwydd mesurau cynhyrchiant presennol yng Nghymru megis Cyswllt Ffermio, Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Cynlluniau Grant Busnes i Ffermydd gan gydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnig y byddant yn gweithredu yn absenoldeb cefnogaeth uniongyrchol.
- sicrhau bod pob £1 a fuddsoddir gan lywodraeth mewn amaethyddiaeth yn darparu enillion o tua £7.40 fel y cyflawnir ar hyn o bryd neu bydd ein cymunedau gwledig yn dlotach yn y dyfodol.

Pontio - Rhoi amser i ffermwyr addasu i fywyd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyfnod pontio digon hir o'r trefniadau presennol i bolisi amaethyddol domestig newydd oherwydd...*

- hyd nes y cawn fwy o eglurder gan wleidyddion yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd o ran ein cysylltiadau masnachol yn y dyfodol, mae hi'n amhosibl inni wneud penderfyniadau busnes hir dymor. Dylai ein llywodraeth ganolbwyntio ar ddarparu sefydlogrwydd nes y cawn fwy o ddealltwriaeth am ein cysylltiadau masnachol yn y dyfodol.

- mae arnom angen bod yn sicr bod cynigion y Llywodraeth ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol yn ymarferol a chyraeddadwy ar ein ffermydd ac mae arnom angen bod yn sicr bod y Llywodraeth yn gallu cyflawni'r cynlluniau hyn yn syml ac yn amserol. Yr unig ffordd y gallwn fod yn sicr o hyn fydd os caiff cynlluniau'r dyfodol eu llunio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr ffermwyr ac wedi'u treialu cyn eu cyflwyno ledled y wlad.
- mae angen i'r llywodraeth asesu yn iawn beth yw effaith eu cynigion ar fusnesau ffermio ac ystyried effaith unrhyw newid ar yr economi wledig, ein hiaith, ein diwylliant, ein cymunedau a'n gallu i fwydo ein hunain fel cenedl heddiw ac yn y dyfodol.

Ffermwr Gweithredol - cefnogi busnesau ffermio gweithredol sy'n gweithio'n galed.

*Rhaid i bolisiau a buddsoddiad gefnogi'r ffermwyr hynny sy'n ymwneud yn weithredol â chynhyrchu bwyd i'n cenedl oherwydd...*

- fel busnes ffermio sy'n cynhyrchu bwyd yn weithredol, rwyf yn cysylltu'n aml gydag amrediad eang o fusnesau gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys fy nghyflenwr fferm lleol, cwmni bwyd anifeiliaid, milfeddyg, marchnad da byw a phrosesydd. Mae'r holl fusnesau hyn yn dibynnu ar fy musnes ffermio gweithredol i'w helpu nhw i aros mewn busnes.
- ar gyfer pob £1 mae'r llywodraeth yn ei buddsoddi mewn ffermio, mae busnesau ffermio gweithredol yn helpu i sicrhau bod hyn yn cyflawni enillion o dros £7 i economi Cymru.
- fel cynhyrchwr bwyd gweithredol rwyf yn falch o fod yn rhan o gadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru sy'n werth swm anferthol o £6.9 biliwn i economi Cymru ac yn cyflogi dros 240,000 o bobl.
- nid pob ffermwr gweithredol sy'n berchen ar y tir maent yn ei ffermio neu gyda thenantiaeth hirdymor ac o ganlyniad mae hi'n bryder gennyf y gall cynigion Llywodraeth Cymru eu rhwystro rhag derbyn cefnogaeth yn y dyfodol.

- mae llawer o ffermwyr sy'n dechrau arni ym myd amaethyddiaeth nad oes ganddynt y sicrwydd angenrheidiol nac arian cyfatebol i allu denu arian grant ac felly maent angen cefnogaeth benodol i'w helpu i ddatblygu eu busnes.

Rheoleiddio - Mae ffermwyr Cymru yn gweithredu i'r safonau uchaf. Mae angen cynnal y safonau hyn ond credwn fod cyfle i edrych yn wahanol ar reoleiddio.

*Nid wyf yn dymuno gweld y baich rheoleiddio yn cynyddu o ganlyniad i Brexit oherwydd...*

- Hoffwn weld rheoleiddio yn cael ei symleiddio lle bynnag bo'n bosibl, a bod llai o orgyffwrdd/dyblygu o ran y rheini sy'n arolygu'r rheoleiddio. Credaf fod lle sylweddol i resymoli a lleihau'r nifer o gyrff sydd â rôl wrth gynnal arolygiadau fferm.
- mae'r baich rheoleiddio sydd arnaf ar hyn o bryd yn lleihau fy hyder yn hyfywedd fy musnes ffermio. Mae cydymffurfio gyda rheoleiddio beichus yn ychwanegu at fy nghostau, ac yn aml yn cymryd amser anghymesur i brofi cydymffurfiaeth rheoleiddio.
- dylai unrhyw drefn rheoleiddio newydd hefyd roi cyfle i gydnabod arferion da ar y fferm, er enghraifft, aelodaeth o gynlluniau sicrwydd fferm. Dylai cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath leihau'r siawns o gael eich dewis am arolygiad.
- nid wyf am weld ffermwyr Cymru dan anfantais o gymharu â ffermwyr mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, Ewrop nac yng ngweddill y byd pan ddaw'n fater o reoleiddio. Dylai bod ffermwyr Cymru yn cael parhau i fod yn gystadleuol gyda gweddill y Deyrnas Unedig, Ewrop a gweddill y byd.
- rwyf am weld trefn rheoleiddio sy'n gymesur â'r risgiau sy'n gysylltiedig, gan ganolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau sydd ar y cyhoedd ei eisiau, ac nid cael ei gyrru gan broses.

**Cyllid - Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddal Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfrif am yr addewidion a wnaed yn ystod**

**ymgyrch y refferendwm. Ni ddylai Cymru gollu ceiniog o gyllid o ganlyniad i Brexit a dylid neilltuo arian ar gyfer ffermio.**

- Byddai symud tuag at seilio'r dyraniad o gyllid amaethyddol ar y gyfran o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn niweidiol iawn i Gymru.
- Os na chaiff arian ei neilltuo yna mae potensial am wyro cystadleuol ymysg gwledydd y Deyrnas Unedig. Bydd hefyd yn ei gwneud yn anodd imi gynllunio fy musnes o ran llif arian a dod o hyd i unrhyw gyllid y gallaf fod ei angen, os nad oes gennyf o leiaf ryw fath o sicrwydd am fy incwm yn y dyfodol.
- Mae arnaf angen cyfle cyfartal gyda ffermwyr eraill yng ngweddill y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, sef fy mhrif gystadleuwyr yn y farchnad.

**Triniaeth gyfartal - Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw ffermwyr Cymru o dan anfantais ar ôl Brexit o ganlyniad i wahaniaethau mewn cymorth a beichiau rheoleiddio.**

Ar ôl Brexit, ein prif gystadleuwyr o hyd o ran cynnyrch amaethyddol fydd 27 gwlad arall yr Undeb Ewropeaidd (EU27). Nid wyf am weld fy safle cystadleuol yn cael ei erydu mewn cymhariaeth â'r gwledydd hyn o ran lefel y rheoleiddio sydd a'r lefel o gefnogaeth gaiff ei darparu.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig bod 70% o gronfeydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar gyfer y cyfnod o 2021-2027 ar ffurf taliadau uniongyrchol. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig unrhyw fath o gefnogaeth uniongyrchol i ffermwyr Cymru, rwyf yn annog felly i Lywodraeth Cymru ailystyried y diffyg darpariaeth o daliadau uniongyrchol yn yr ymgynghoriad, a chyflwyno darpariaeth o'r fath er mwyn helpu i ddiogelu sefyllfa gystadleuol ffermwyr Cymru.

Ymateb Ymgyrch Y Gronfa Natur Fyd-Eang (WWF)

## Y Gronfa Natur Fyd-Eang (WWF) - Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - Brexit a'n Tir

Mae arnaf eisiau Cymru sy'n rhoi diogelwch ac adferiad natur wrth wraidd popeth a wna. Dyna pam rwyf yn croesawu eich ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir' ac yn eich annog i sicrhau bydd ein polisi rheoli tir newydd yn creu amgylchedd iach i genedlaethau'r dyfodol.

Heb amgylchedd iach a chadarn, ni fydd gennym economi a chymdeithas sy'n gynaliadwy ac yn gallu cyflawni lles ehangach. Am ormod o amser mae ein byd naturiol wedi dirywio. Mae'r sefyllfa bellach yn enbyd. Mae gan lawer o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn y potensial i newid hynny. Mae'n rhaid bod â'r hyder i'w cyflawni, yn dawel eich meddwl bod cefnogaeth y cyhoedd y tu cefn iddynt.

Credaf y dylid gwario arian cyhoeddus ar nwyddau cyhoeddus felly croesawaf yn gryf y cynnig am Gynllun Nwyddau Cyhoeddus penodol. O ystyried yr angen brys i fynd i'r afael â newid hinsawdd; dirywiad bioamrywiaeth bywyd gwylt; a llygredd aer/dŵr, mae'n rhaid i'r Cynllun Rheoli Tir newydd fel cyfanrwydd roi blaenoriaeth i weithgareddau sy'n mynd i'r afael â'r anghenion hyn ac yn adfer yr amgylchedd. Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod y rhan fwyaf o gronfeydd y Rhaglen yn cael eu neilltuo i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus - fyddai wirioneddol yn gosod anghenion natur yng nghraidd y rhaglen.

Mae gennym gyfle unigryw i gefnogi ffermio sy'n gwneud llai o niwed i'r amgylchedd trwy reoli ein holl dir yn gynaliadwy. Mae gan bawb rôl i'w chwarae, felly mae'n hanfodol bod pawb sy'n rheoli tir, unrhyw le yng Nghymru, â chyfle cyfartal i fod yn rhan o'r Rhaglen. Golyga hyn na ddylid cyfyngu'r diffiniad o "reolwr tir" a "rheolaeth tir" i ardaloedd nad ydynt yn drefol.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y rhaglen, mae'n rhaid cynnwys ffyrdd clir o fesur llwyddiant a gosod targedau ar gyfer eu cyflawni. Bydd hyn yn gofyn bod y Llywodraeth yn darparu digon o adnoddau economaidd er mwyn deall a monitro pa ymyraethau

amgylcheddol fydd yn cyflawni'r buddion mwyaf mewn rhannau penodol o Gymru. Bydd angen i bawb o gymunedau lleol i Gyfoeth Naturiol Cymru gydweithio er mwyn penderfynu ar hyn.

Yn draddodiadol mae Cymru wedi bod yn arweinydd byd-eang mewn deddfwriaeth amgylcheddol. Ni allwn adael i Brexit danseilio popeth rydym eisoes wedi'i gyflawni, gan arwain at Gymru yn disgyn y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig. Ni allwn esgeuluso natur.

Ymateb Ymgyrch Y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB)

Y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB) - Rwyf am gyfundrefn sy'n adfer natur ac o fudd i'r gymdeithas

Teimlaf yn angerddol dros amddiffyn natur Cymru, felly croesawaf eich cynigion yn 'Brexit a'n Tir' am bolisi rheoli tir newydd.

Os yw ein hamgylchedd yn gadarn, mae ein heconomi, iechyd a lles yn gadarn hefyd - felly mae hi'n hanfodol bod unrhyw bolisi newydd yn adfer natur, er mwyn cyflawni'r holl fuddion hyn i bobl Cymru yn ei dro.

I wneud hyn, mae'n rhaid i chi, Lywodraeth Cymru, gyflawni cyfundrefn newydd sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn helpu ffermwyr a rheolwyr tir:

- i reoli'r tir yn gynaliadwy,
- adfer natur a bywyd gwylt, a
- darparu buddion amhrisiadwy mae pawb ohonom yn eu cymryd yn ganiataol, fel aer a dŵr glân.

I gadarnhau hyn, mae'n rhaid ichi gynnwys ffyrdd o fesur i weld a ydym yn adfer natur ai peidio. Yn ogystal, mae'n rhaid sicrhau bod digon o gyllid i wneud newid ystyrllon i'n hamgylchedd.

Gofynnaf ichi aros yn driw i'ch uchelgais a chefnogi ffermwyr a rheolwyr tir gyflawni'r buddion hyn, i bobl Cymru a'r amgylchedd rydym yn dibynnu arno.

Ymateb Ymgyrch Ymddiriedolaeth Natur Cymru

Ymddiriedolaeth Natur Cymru - Rwyf yn siarad dros fyd natur ac yn dangos fy nghefnogaeth tuag at bolisi nwyddau cyhoeddus

Ysgrifennaf ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru yn 'Brexit a'n Tir' ac i ddangos fy nghefnogaeth i gynllun Nwyddau Cyhoeddus.

Fel y dywedwch, mae tir Cymru yn bwysig inni oll. Mae amgylchedd iach a chyflawnder o fywyd gwylt yn hanfodol er mwyn ein cadw ni, a chenedlaethau'r dyfodol, yn ddiogel, hapus, iach a ffyniannus. Rwyf am weld polisi rheoli tir cynaliadwy sy'n cwrdd ag anghenion pawb sy'n byw yng Nghymru ac yn gofalu am ein cyfoeth naturiol.

Cefnogaf y defnydd o arian cyhoeddus i ddarparu nwyddau cyhoeddus a chredaf y dylem fuddsoddi mewn adfer ein tir a'n bywyd gwylt fel y gall barhau i ddarparu'r holl bethau mae eu hangen arnom: cynefinoedd bywyd gwylt, rheoli llifogydd a sychder, dŵr ac aer glân, storio carbon a lleoedd inni i gyd eu mwynhau.

Mae byd natur dan bwysau: mae peilliaid a chynefinoedd naturiol yn dirywio; mae carbon yn dianc o'n pridd disbyddedig ac yn hytrach na dal dŵr, mae ein pridd yn golchi i'n afonydd ac yn llifo allan i'r môr.

Mae cynefinoedd hefyd yn dioddef o lygredd aer a dŵr o ffermio anghynaladwy. Mae hyn oll wedi rhoi pwysau ar fywyd gwylt yng Nghymru ac rydym wedi gweld dirywiad o 56% mewn bioamrywiaeth, gyda sawl rhywogaeth mewn perygl o ddifodiant.

Mae gennym gyfle unwaith mewn oes i ddatrys y problemau mae polisïau'r gorffennol wedi eu creu a rhoi i natur yr hyn sydd arni ei angen er mwyn adfer a ffynnu.



Ymateb Ymgyrch Ramblers Cymru

Ramblers Cymru - Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol Ffermio yng Nghymru

Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol Ffermio yng Nghymru

Cefnogaf yn llwyr y syniad bod cyfleoedd i hamddena yn yr awyr agored a mynediad at leoedd gwyrdd yn nwyddau cyhoeddus gwerthfawr.

Mae'r paramedrau sydd wedi'u nodi ar gyfer y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus newydd yn addas, ac o ran mynediad, mae'n rhaid i'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus hefyd:

- Sicrhau bod Rheolwyr Tir yn cyflawni eu hymrwymiaidau cyfreithiol presennol o ran mynediad dirwystyr i'r cyhoedd ar hawliau tramwyo (fel y nodwyd yn bresennol dan ganllawiau Polisi Amaethyddol Cyffredin Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da 7b)
- Cyflawni gwelliannau parhaol i'r elfennau hynny o'r rhwydwaith llwybrau a mynedfeydd mae tiffeddianwyr yn gyfrifol amdanynt
- Gwellu'r rhwydwaith llwybrau, trwy wneud llwybrau newydd a darparu mwy o gyfleoedd i gyrraedd tir Mynediad Agored
- Bod yn dryloyw, galluogi hyrwyddo cyfleoedd mynediad yn well er mwyn annog defnydd y cyhoedd
- Gweithio gyda Fforymau Mynediad Lleol i sicrhau rhwydwaith llwybrau sy'n gwneud synnwyr i'r bobl leol ac yn cwrdd â'u hanghenion

Dyma gyfle unigryw i weithredu dull newydd, a gall Cymru arwain y ffordd wrth atgyfnerthu dealltwriaeth a defnydd y cyhoedd o lwybrau a thir mynediad, a chyflawni amgylchedd sy'n llawer gwell ar gyfer mynediad awyr agored.

Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)

Rwyf yn byw yng Nghymru ac yn farchog yn ogystal â Darlithydd Gwyddoniaeth Ceffylau a Chadeirydd Cymdeithas Ceffylau Prydain Cymru.

Cefnogaf y Rhaglen Rheoli Tir newydd arfaethedig gan gynnwys darpariaeth mynediad mewn cynllun Nwyddau Cyhoeddus.

Rwyf yn awyddus y dylai'r rhaglen newydd:

- Roi cymhelliad ariannol i reolwyr tir gynyddu mynediad cyhoeddus i farchogion, yn arbennig trwy welliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwyo
- Ad-dalu rheolwyr tir am weithiau cyfalaf sy'n creu llwybrau newydd i farchogion ar draws eu tir

Mae'n arbennig o bwysig bod cyllid ar gael:

- i lenwi bylchau mewn rhwydweithiau hawliau tramwy presennol; er enghraifft, lle mae dwy ran o lwybr ceffylau neu gilffordd wedi'u datgysylltu, neu wedi'u cysylltu dim ond drwy hyd llwybr, neu lle mae pont ar goll. Byddai hyn yn agor llawer iawn mwy o lwybrau cysylltiedig, gan alluogi ac annog pobl i archwilio mwy o'r cefn gwlad na'r hyn sy'n bosibl ar hyn o bryd.
- i alluogi defnyddwyr i osgoi ffyrdd peryglus; er enghraifft, lle mae llwybr ceffylau yn cwrdd â ffordd brysur, gan orfodi'r defnyddwyr ar y ffordd honno am bellter cyn cysylltu gyda hawl dramwy wahanol. Byddai darparu ffyrdd diogel eraill yn lleihau damweiniau ar y ffordd ac yn gwneud marchogaeth, beicio a cherdded yn fwy deniadol i ddefnyddwyr.

Gallai taliadau i wella mynediad presennol gynnwys:

- gwelliannau mewn lled llwybrau,
- gadael lonydd i lwybr ceffylau/cilffordd gyfyngedig ar hyd caeau â'r a pheidio â'i amaethu, a thorri'r glaswellt yn rheolaidd a rhwystro planhigion rhag ennill ar y tir
- torri glaswellt pentir llwybr ceffylau/cilffordd gyfyngedig yn rheolaidd a rhwystro planhigion rhag ennill ar y tir

- torri glaswellt neu farcio llwybr ceffylau/cilffordd gyfyngedig ar hyd gwndwn, rhostir
- torri glaswellt, ailraddio a rhoio lonydd gwyrdd
- gwella hygyrchedd gatiau i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb, ac sy'n hawdd i farchogion, a'r rheiny sydd ag anableddau, gyrraedd atynt.
- ychwanegu neu wella marciau ac arwyddion ar lwybrau.
- darparu lle parcio i drelars ceffylau fel bod modd i farchogion na allant gyrraedd hawl dramwy gyhoeddus o le maent yn cadw eu ceffyl, barcio a chyrraedd y cefn gwlad yn hawdd.
- darparu hawliau uwch (dylai'r gwahaniaeth mewn cymhorthdal ar gyfer darpariaeth llwybrau troed a llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig fod yn sylweddol er mwyn annog gwaith uwchraddio lle bo'n briodol ac yn ddiogel i bob defnyddiwr).

## **Atodiad B. Rhestr o Sefydliadau a Ymatebodd**

Action Plan for Pollinators Task Force

Adventure beyond - Morawelon farm

Agri Academy Rural Leadership Programme (class of 2018)

Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB)

Agriculture Information Management Standards (AIMS)

Alliance for Welsh Designated Landscapes

Andrew Bronwin & Co Ltd

Angling Trust

Antur Waunfawr

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy

Association of Advanced Professional Game Angling Instructors (AAPGAI)

Beaufort Hill Ponds and Woodlands

Brecon and Radnorshire Conservative Association

British Association for Shooting and Conservation (BASC)

British Meat Processors Association

British Mountaineering Council (Cymru)

British Vet Association

BSW Timber Group

Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Campaign for National Parks

Canoe Wales

Canolfan Defnydd Tir Cynaliadwy Syr William Roberts, Prifysgol Bangor

Caring for Welsh Rivers / Afonydd Cymru

Cyngor Sir Gaerfyrddin

Carter Jonas LLP

Chartered Institution of Water and Environmental Management

CLA Cymru

Clare Evans & Co, Estate and Letting Agents, Auctioneers

Clwb Ffermwyr Ifanc Maesyfed

Clwb Ffermwyr Ifanc Môn

Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru

Coed Cadw

Coed Cymru

Coleg Cambria

Comisiynydd y Gymraeg

Compassion in World Farming

Confederation of Forestry Industries (CONFOR)

Cooperatives UK

Council for Awards of Royal Agricultural Societies

Countryside Alliance Wales

Cows on Tour Group

Crickhowell and District Angling Society

Croesyceiliog Canoe Club

Cycling UK

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Cymdeithas Ceffylau Prydain - British Horse Society

Cymdeithas Cominwyr Cwmdaiddwr

Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru

Cymdeithas Defaid Mynydd Cymru

Cymdeithas Gwarchod y Ddwy Aran

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Mynyddoedd Cambria

Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol – Agricultural Law Association

Cymdeithas y Pridd

Cymdeithas y Priswyr - Central Association of Agricultural Valuers

Cymru Agricultural and Rural Advice Ltd

Cyngor Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Diwydiant Wyau Prydain

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Benfro

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir Fôn

Cyngor Sir Powys

Cyngor Tref Llanwrtyd

Cyswllt Amgylcheddol Cymru

Cytun – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Da Wyse - Castle House Veterinary Practice

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dunbia Llanbydder

Dwr Cymru

Dyfroedd Cymru

Ein Gwlad

Elan Valley Trust

Erwood Young Farmers Club

Farm First Veterinary Services

Farm partnership

Farmers Marts (R G Jones) Cyf

Farming & Wildlife Advisory Groups (FWAG) Cymru

Farmwel

Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

Field Studies Council

Food Ethics Council

Food Sense Wales

Forest Stewardship Council (FSC) UK

Friends of Pembrokeshire Coast

Game and Wildlife Conservation Trust Cymru

Game Angling Instructors Association (Wales)

Glamorgan-Gwent Archaeological Trust

Glebelands Market Garden Ltd

Growing Mid Wales Partnership

Grŵp Agrisgop

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Grŵp Gweithredu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr

Grŵp Llanbed Merched mewn Amaeth

Grŵp Treftadaeth Cymru

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Gwartheg Hynafol Cymr - Ancient Cattle of Wales

Gwent Angling Society

Hay & Brecon Farmers Ltd.

Historic Houses

Hybu Cig Cymru

IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith

Iechyd da (gwledig) Ltd

Institute of Chartered Foresters (ICF)

Institute of Public Rights of Way and Access Management

ISCA Angling Club

Isca Angling Club, Gwent Angling Club

John Muir Trust

Joint Food Sovereignty



Just Food, Abergavenny  
Kepak Red Meat (UK) - St Merryn  
Landowrkers Alliance  
Landworkers Alliance Cymru  
Lantra Cymru  
Livestock Marketing Ltd  
Llais y Goedwig  
Llanelli Ramblers  
Llewelin Specialist Arable Services  
Llywodraeth Awstralia  
Llywodraeth Seland Newydd  
Maelor Forest Nurseries Limited  
Marine Conservation Society  
Menter Mynyddoedd y Cambria  
Merthyr Tydfil Angling Association  
MSD Animal Health  
National Farmers Union (NFU) Cymru  
National Office Animal Health (NOAH)  
North East Wales Local Nature Partnership BioNet  
North Wales Equestrian Access / Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru  
Old Chapel Farm  
One Planet Council and Calon Cymru Network  
Open Spaces Society

Optima Excel Ltd

Organic Growers Alliance

Outdoor Swimming Society

PA Consulting

Paramaethu Cymru National Organisation

Parciau Cenedlaethol Cymru

Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin - Carmarthenshire Nature Partnership

Pembrokeshire Access Forum

Pembrokeshire Wildfire Group

Plynlimon Waste Services

Pontypool Park Estate

Pori Natur a Threftadaeth (PONT)

Prosiect Building Resilience into Catchments (BRICs)

Prosiect Pumlumon

Ramblers Cymru

Red Kite Art and Jewels Ltd

Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur

Royal Forestry Society

Royal Institution of Chartered Surveyors

RSPB Cymru

RSPCA Cymru

Salmon and Trout Conservation Cymru

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol

Aberystwyth

Shropshire's Great Outdoors Strategy Board

Small Woods Association

Snowdonia Society / Cymdeithas Eryri

Social Farms and Gardens

Sustainable Food Trust

Sustainable Soils Alliance

Swansea Local Access Forum

The Foundation of Common Land

The Landworkers' Alliance Cymru

The Real Seed Catalogue Ltd

The Vegan Society (Birmingham)

Tilhill Forestry

Torth y Tir

Transition Bro Gwaun

Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Tyddden Teg Cyf

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru – Cangen Sir Drefaldwyn

United Utilities

Volac

W.D Lewis & Son

Wales Adventure Tourism Organisation

Wales Common Land and Town Village Green

Wales Tourism Alliance

Welsh Grain Forum

Welsh Lamb and Beed Producers Ltd

Welsh Organic Forum - Fforwm Organig Cymru

Welsh Ornithological Society

Welsh Rights of Way Managers Working Group

Wildfowl & Wetlands Trust

Williams Associates

Williams Partners

Woodknowledge Wales

Woodland Strategy Advisory Panel

World Animal Protection

WWF Cymru

Wye & Usk Foundation

Wynnstay Group PLC

Y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd

Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Ymddiriedolaeth Natur Cymru

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Cangor Brycheiniog a Maesyfed

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW)

Yr Eglwys yng Nghymru: Cyngorwyr ar Faterion Gwledig

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

## **Atodiad C. Ymgynghoriad - Crynodeb o ymatebion ynghylch Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)**

### **Crynodeb**

- i. Ar 10 Gorffennaf 2018, fe wnaeth y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gyhoeddi'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ynghylch sut roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau i gefnogi rheolwyr tir ar ôl Brexit. Roedd y ddogfen yn nodi cynigion ar gyfer cyfnod pontio dros sawl blwyddyn, wedi'i gynllunio, ac yn ceisio barn ynghylch:
  - Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus.
  - Sut y dylid llunio'r cynlluniau penodol a fydd yn darparu'r cymorth.
- ii. Roedd y papur yn esbonio'r achos dros newid a'r sail roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau arni er mwyn parhau i gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit. Fe wnaeth yr ymgynghoriad gychwyn y broses o lunio rhaglenni, er y bydd ymgynghori pellach a chydweithio â rhanddeiliaid yn cael ei wneud i ddatblygu'r Rhaglen Rheoli Tir newydd.
- iii. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ofyn am ddadansoddiad ychwanegol o wyth o ymatebion gan sefydliadau i'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â Chynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).

Effaith colli'r BPS ar Incymau Ffermydd
- iv. Teimlad yr ymatebion gan sefydliadau oedd bod angen i Lywodraeth Cymru gydnabod graddfa'r her y bydd pontio o daliadau uniongyrchol yn ei olygu i ffermwyr Cymru. Pwysleisiwyd y gallai colli'r BPS gael effaith ar broffidioldeb ac felly hyfywedd economaidd y sector amaethyddol yn ei chyfanrwydd. Roedd pryder hefyd y byddai unrhyw

effaith ar wariant ffermydd Cymru yn cael effaith llusosi ar y cadwyni cyflenwi amaethyddol ehangach. Er bod rhywfaint o bryder y byddai colli'r BPS yn cael effaith negyddol ar incymau ffermydd awgrymwyd gan ychydig o'r ymatebion gan sefydliadau bod ffermwyr wedi dod yn rhy ddibynnol ar daliadau uniongyrchol ac felly y byddai gwelliannau a allai ddod yn sgil y cynlluniau arfaethedig newydd yn gallu hybu incymau ffermio yn yr hirdymor.

Effaith y BPS ar fantais neu anfantais gystadleuol ffermydd Cymru o gymharu â ffermydd eraill y Deyrnas Unedig / yr Undeb Ewropeaidd

- v. Yn gyffredinol, roedd ymatebion sefydliadau'n glir mai'r egwyddor allweddol ar gyfer unrhyw ddiwygiadau oedd sicrhau bod ffermydd Cymru'n parhau'n gystadleuol gyda gwledydd eraill ledled y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a gweddill y byd. Awgrymodd nifer o'r sefydliadau y byddai'n well ganddynt weld cysondeb â'r gweddill o'r DU o ran rheoleiddio a phontio, gyda phryderon fod cynnig presennol Llywodraeth Cymru i symud ynghynt na Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi ffermydd Cymru o dan anfantais gystadleuol. Er bod rhywfaint o gefnogaeth o fewn yr ymatebion i ffermwyr Cymru ymwneud mwy â'r farchnad fyd-eang, roedd un o'r sefydliadau yn rhybuddio y bydd rhai o'r gwledydd y gall y Deyrnas Unedig ddymuno gwneud cytundebau masnach rydd cynnar â hwy eisoes â chyfundrefnau cymorth soffistigedig ac wedi eu cyllido'n dda.

Y rôl mae'r BPS yn ei chwarae o ran rheoli risg yn wyneb anwadalwch prisiau'r farchnad

- vi. Roedd ymatebion y sefydliadau o'r farn fod taliadau uniongyrchol wedi cael effaith sylweddol ar amddiffyn ffermwyr Cymru wrth reoli anwadalwch. Roedd pryder felly y byddai cael gwared yn llwyr ar y BPS, heb gynigion eraill cryf i gymryd ei le i hybu cadernid economaidd, yn rhoi ffermydd Cymru yn agored i anwadalwch y farchnad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny. Roedd pryder sylweddol

ymsg ymatebion y sefydliadau na fydd rhaglen y dyfodol yn gallu darparu cymorth tebyg ar gyfer rheoli'r risg yn wyneb anwadalwch y farchnad. Dywedwyd ei bod yn hanfodol i amaethyddiaeth yng Nghymru fod rhyw ffurf o fesur sefydlogrwydd i ddiogelu ffermydd Cymru mewn ffordd debyg i'r hyn mae'r BPS wedi'i wneud.

Cyfalafu'r BPS yn Werthoedd Tir a/neu Rhenti Ffermydd a'r Posibilrwydd o Fusnesau Fferm yn Cau

- vii. Roedd rhai o ymatebion y sefydliadau yn ystyried yr effaith y byddai dirwyn taliadau uniongyrchol i ben yn ei gael ar werthoedd tir a/neu rhenti ffermydd. Y prif bryder a oedd yn codi o'r ymatebion hyn oedd y byddai colli'r BPS yn caniatáu mynediad at gyllid nad yw ar gael ar hyn o bryd ond i'r rheini sy'n bodloni'r rheol ffermwr gweithredol. Dywedwyd y gallai hyn arwain at unigolion, busnesau, ac elusennau, nad ydynt yn gwneud dim, neu fawr ddim, cyfraniad i'r sector amaethyddol na'r gymuned leol, yn prynu tir er mwyn ennill mynediad at gyllid.

Pontio o'r BPS

- viii. O'r ymatebion a oedd ynglŷn â'r pontio o'r BPS i'r rhaglen rheoli tir newydd, roedd pryder sylweddol ynghylch y broses bontio. Yn benodol, roedd sefydliadau'n dweud bod angen mwy o dystiolaeth i gyfiawnhau'r hyn y barnwyd eu bod yn "newidiadau radical" a bod angen rhoi sicrwydd pellach i ffermwyr Cymru ar adeg o ansicrwydd. Roedd ymatebion y sefydliadau'n cydnabod ei bod yn allweddol fod "amser a pharatoi sylweddol" yn cael eu neilltuo er mwyn i'r pontio ddigwydd yn llyfn ac felly, roedd pryderon fod cynigon Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod pontio yn sylweddol fyrrach nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Ymysg yr ymatebion roedd cefnogaeth glir i'r pontio gael ei weithredu mewn modd graddol, er mwyn caniatáu addasu graddol a rhoi'r sefydlogrwydd angenrheidiol sy'n ofynnol i'r sector. Roedd hefyd rywfaint o gefnogaeth i ffactorau amgylcheddol



fod y gyriant wrth leihau taliadau uniongyrchol yn y pontio at y Rhaglen Rheoli Tir.

#### Materion Eraill

- ix. Roedd rhai materion eraill a gododd o'r ymateb gan sefydliadau ynghylch cael gwared ar y BPS presennol yn cynnwys:
- pryder ynghylch cael gwared ar y BPS
  - y dewis o ohirio datblygu rhaglenni newydd hyd nes bydd mwy o sicrwydd ynghylch natur Brexit
  - newid a symleiddio'r rheolau trawsgydymffurfio presennol
  - gwella'r broses o dalu
  - cefnogi rhyngweithiau trawsffiniol
  - gwneud cosbau'n fwy cymesur a chydabod gwallau anfwriadol
  - gwella'r gwasanaeth cysylltwyr fferm
  - ennyn mwy o ddiddordeb yn y potensial am gysylltedd digidol
  - dylai'r cynlluniau arfaethedig symleiddio prosesau ymgeisio ac arolygu, gyda'r broses weinyddol yn llawer symlach nag y mae ar hyn o bryd.
  - dylai taliadau fod yn deg a hael ac yn gwneud synnwyr economaidd i fusnesau fferm yn ogystal â synnwyr amgylcheddol.

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Ar 10 Gorffennaf 2018, fe wnaeth y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gyhoeddi'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ynghylch sut roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau i gefnogi rheolwyr tir ar ôl Brexit. Roedd y ddogfen yn nodi cynigion ar gyfer cyfnod pontio dros sawl blwyddyn, wedi'i gynllunio, ac yn ceisio barn ynghylch:
- Rhaglen Rheoli Tir newydd sy'n cynnwys Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus.
  - Sut y dylid llunio'r cynlluniau penodol a fydd yn darparu'r cymorth.
- 1.2 Roedd y papur yn esbonio'r achos dros newid a'r sail roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig parhau i gefnogi ffermwyr arni ar ôl Brexit. Roedd y Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu'r elfennau canlynol:
- Rhaglen Rheoli Tir i Gymru
  - Cynllun Cadernid Economaidd
  - Cynllun Nwyddau Cyhoeddus
  - Pontio, cyflawni a deddfwriaeth
  - Safonau'r Gymraeg
  - Sylwadau eraill.
- 1.3 Law yn llaw â'r brif Ddogfen Ymgynghori, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Daflen Gryno ac mewn partneriaeth â Cyswllt Ffermio, cynhaliodd naw cyfarfod agored ar yr ymgynghoriad.
- 1.4 Gallai mudiadau a'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad drwy dair sianel – ar-lein, drwy'r post ac e-bost.
- 1.5 Roedd 20 o gwestiynau o fewn yr ymgynghoriad a oedd wedi eu rhannu ar draws y prif feysydd o ddiddordeb, fel yr amlinellir uchod.
- 1.6 Roedd ar Lywodraeth Cymru eisiau dadansoddiadau ychwanegol o wyth o ymatebion gan sefydliadau i'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir a oedd yn ymwneud â Chynllun y Taliad Sylfaenol (BPS). Bydd yr

adroddiad hwn yn ategu'r crynodeb cychwynnol o ymatebion ac yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at faterion a godwyd gan randdeiliaid ynghylch y BPS.

#### Strwythur y Crynodeb

1.7 Mae'r crynodeb hwn o'r ddogfen ymatebion ar y Cynllun Taliad Sylfaenol yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Adran 2 – Effaith colli'r BPS ar incymau fferm
- Adran 3 – Effaith y BPS ar fantais neu anfantais gystadleuol ffermydd Cymru o gymharu â ffermydd eraill y Deyrnas Unedig / yr Undeb Ewropeaidd
- Adran 4 – Y rôl mae'r BPS yn ei chwarae o ran rheoli risg yn wyneb anwadalwch prisiau'r farchnad
- Adran 5 – Cyfalafu'r BPS yn Werthoedd Tir a/neu Rhenti Ffermydd a'r posibilrwydd o Fusnesau Fferm yn Cau
- Adran 6 – Pontio o'r BPS
- Adran 7 – Materion eraill.

#### Methodoleg

1.8 Gofynnwyd i Miller Research baratoi adroddiad byr i adolygu'r wyth o ymatebion i'r ymgynghoriad gan sefydliadau er mwyn deall ymateb y rhanddeiliad ynghylch Cynllun y Taliad Sylfaenol.

Dull

1.9 Fe wnaeth Miller Research adolygu'r wyth o ymatebion canlynol gan sefydliadau i'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir:

- CAAV (Cymdeithas y Prîswyr Amaethyddol)
- CLA (Cymdeithas y Tîrfeddianwyr)
- Confor
- Undeb Amaethwyr Cymru
- NFU Cymru

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur
- Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru.

Cafodd yr wyth sefydliad eu dewis gan Lywodraeth Cymru i gynrychioli'r amrediad o farnau a fynegwyd ynghylch y BPS o fewn yr ymgynghoriad llawn.

1.10 Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadolygu ar sail y geiriau chwilio canlynol:

- Cynllun Taliad Sylfaenol
- BPS
- taliadau
- cymorth ariannol / cyllid i ffermwyr
- y Taliad Sengl.

Cafodd y rhestr o eitemau chwilio ei ddatblygu wrth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hadolygu, er mwyn ystyried yr iaith a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

## **2. Effaith Colli Cynllun y Taliad Sylfaenol ar Incymau Fferm**

- 2.1 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cydnabod graddfa'r her i ffermwyr a ddaw yn sgil pontio oddi wrth daliadau uniongyrchol. Dywedodd ymatebydd i'r ymgynghoriad fod ymchwil wedi dangos fod 43 y cant o ffermydd yng Nghymru na fyddent yn broffidiol heb daliadau uniongyrchol, ac felly byddai unrhyw newid i'r cynllun presennol yn cael effaith sylweddol ar fusnesau fferm a ffurf sector amaethyddol Cymru yn y dyfodol. Roedd y Cytundeb Taliad Sylfaenol presennol yn cael ei ystyried fel achubiaeth hanfodol i alluogi ffermwyr i wneud enillion hyfyw, sy'n un o'r rhesymau pam fod cynllun taliadau uniongyrchol wedi bod yn un o nodweddion allweddol y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- 2.2 Pwysleisiwyd hefyd fod taliadau uniongyrchol fferm yn gwneud cyfraniad hanfodol i iechyd anifeiliaid ar ffermydd ac y byddai colli'r BPS yn cael effaith o ganlyniad ar allu ffermwyr i gynnal iechyd a lles anifeiliaid, a allai yn ei dro gael effaith sylweddol ar incymau ffermydd.
- 2.3 Roedd rhai o'r ymatebion o'r farn y byddai colli'r BPS yn trawsnewid rôl ffermwyr yn sylweddol, gyda phryderon na byddai'r rôl "ffermwr gweithredol" yn economaidd hyfyw bellach. Roedd pryder penodol nad oedd y rhaglen arfaethedig, er bod yr ymgynghoriad yn adlewyrchu'r egwyddor i gadw ffermwyr ar y tir, o angenrheidrwydd yn gwarantu y byddai ffermwyr yn "dal i ffermio'n weithredol". Y teimlad oedd y byddai colli taliadau uniongyrchol yn gorfodi ffermwyr i arallgyfeirio i weithgareddau "anweithredol" er mwyn goroesi'n economaidd. Pwysleisiwyd hefyd o fewn yr ymatebion fod angen amser digonol ar ffermwyr i bontio at gynllun newydd er mwyn rheoli'r "sioc posibl o newid", yn enwedig wrth ystyried effaith y fath drawsnewid dramatig ar incymau fferm.
- 2.4 Roedd yr ymatebion yn awgrymu hefyd y byddai'r pontio o daliadau uniongyrchol yn cael effaith sylweddol ar wariant ac effeithiau llusoi y sector amaethyddol ehangach. Dywedodd un o'r ymatebion fod

ymchwil wedi dangos “am bob £1 o gymorth a delir i ffermwyr Cymru, maent yn gwario tua £0.61 ar gostau peiriannau, £0.19 ar gynnal a chadw'r fferm, £0.36 ar waith contract, £0.29 ar gostau milfeddygol, £1.66 ar fwydydd anifeiliaid a £1.52 ar gostau fferm eraill”. Roedd y sefydliad a oedd yn ymateb o'r farn y byddai nifer mawr o fusnesau Cymreig sy'n dibynnu ar effeithiau llusosi taliadau uniongyrchol yn ei chael yn anodd oni chynhelir proffidioldeb ffermydd. Y farn felly oedd ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru'n darparu dadansoddiadau mwy manwl ar yr effeithiau posibl y gallai newidiadau i daliadau uniongyrchol eu cael ar y canlynol:

- busnesau ffermydd Cymru
- cynhyrchu bwyd
- sectorau amaethyddol
- economïau lleol ac ehangach
- cadwyni cyflenwi amaethyddol
- cyflogaeth a bywoliaethau.

2.5 Teimlai nifer o'r ymatebion y byddai'r pontio o'r BPS i gynlluniau Nwyddau Cyhoeddus a Chadernid Economaidd yn cael effaith cadarnhaol ar incymau fferm. Roedd un o'r sefydliadau a ymatebodd o'r farn fod y ddibyniaeth ar y BPS wedi creu system lle'r oedd busnesau fferm yn “rheoli dirywiad economaidd, ac nid yn helpu proffidioldeb, cadarnid a chystadleurwydd ar gyfer y dyfodol”. Roedd hyn yn ddatganiad a ailadroddwyd gan ymatebwyr o sefydliadau eraill a deimlai fod ffermwyr wedi dod yn rhy ddibynnol ar daliadau uniongyrchol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cefnogi'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig gan fod iddo'r potensial o ddarparu ffynonellau newydd o incwm i fusnesau fferm ac felly'n caniatáu iddynt ddod yn fwy gwydn i ddygymod â newid economaidd. Awgrymwyd hefyd fod taliadau uniongyrchol wedi methu â chefnogi gwarchodaeth amgylcheddol ac y gallai'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig presennol gael effaith sylweddol ar rwystro

diraddio amgylcheddol pellach, ac o ganlyniad effaith mawr ar incymau ffermio yn yr hirdymor.

### **3. Effaith Colli Cynllun y Taliad Sylfaenol ar Fantais neu Anfantais Gystadleuol Ffermydd Cymru o Gymharu â Ffermydd Eraill y Deyrnas Unedig / Undeb Ewropeaidd**

3.1 Roedd ymatebion y sefydliadau yn glir ei bod yn hanfodol mai'r egwyddor allweddol ar gyfer unrhyw ddiwygiadau fydd sicrhau bod ffermydd Cymru'n parhau yn gystadleuol gyda gwledydd eraill ledled y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a gweddill y byd. Roedd nifer o'r sefydliadau yn awgrymu bod cysondeb o ran rheoleiddio a phontio â gweddill y Deyrnas Unedig yn angenrheidiol ar gyfer hyn.

Dywedwyd bod "Defra wedi cynnig pontio yn Lloegr a fydd yn cychwyn yn 2021 ac wedi'i gwblhau yn 2028. Mae'r Alban yn cynnig cyfnod o sefydlogrwydd tan 2024 ac nid yw Gogledd Iwerddon yn cynnig unrhyw newidiadau i'r BPS tan 2022 i'w ddilyn gan cynllun cadernid seiliedig ar arwynebedd fel rhan o bolisi amaethyddol domestig yn y dyfodol". Roedd yr ymatebion o'r farn fod cynnig Llywodraeth Cymru i gychwyn pontio cyn gweddill y Deyrnas Unedig yn effeithio'n sylweddol ar allu ffermwyr Cymru i gystadlu o fewn marchnad y Deyrnas Unedig. Ar adeg o newid a risg sylweddol roedd cydweithio rhwng gweinyddiaethau'r DU yn hanfodol er mwyn hybu cadernid. Awgrymwyd y byddai dull a oedd yn sylweddol wahanol i'r hyn a gynigir yn Lloegr yn llurgunio masnach ac yn gadael ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol; roedd hi'n ddibynol felly ar Lywodraeth Cymru i wneud beth bynnag sy'n angenrheidiol i "gynnal cae chwarae gwastad i fusnes".

3.2 Ymysg yr wyth ymateb gan sefydliadau, dywedwyd y byddai colli'r BPS yn cael effeithio'n sylweddol ar y berthynas sydd gan ffermydd Cymru â'r farchnad fyd-eang. Teimlai un ymatebydd fod diffyg cystadleurwydd yr Undeb Ewropeaidd â'i chystadleuwyr y tu allan iddi yn sylfaenol gysylltiedig â'i dibyniaeth ar daliadau uniongyrchol. Awgrymwyd felly fod newidiadau sylweddol i gysylltiadau masnachol

yn cynnig y rhyddid a'r cyfle i leihau yn sylweddol ddibyniaeth ffermwyr Cymru ar daliadau uniongyrchol ac ymwneud mwy â marchnad fyd-eang. Fel gair o rybudd, fodd bynnag, roedd un o'r sefydliadau'n rhybuddio bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried fod rhai o'r gwledydd y gallai'r Deyrnas Unedig wneud cytundebau masnach rydd cynnar â hwy eisoes â chyfundrefnau cymorth soffistigedig a gyllidir yn dda ee Canada, Norwy, a Japan. Mae gan wledydd eraill hefyd fframweithiau rheoleiddio sy'n sylweddol lai cymhleth nag yng Nghymru ac oni wneir rhai newidiadau sylweddol i gynyddu cystadleurwydd, bydd ffermydd Cymru yn ei chael yn anodd cystadlu ar raddfa fyd-eang. Roedd pryder hefyd y byddai cwmp yn incwm ffermwyr yn ystod y pontio o'r BPS yn golygu y byddai busnesau yn dod yn fwy agored i gostau tanwydd, bwyd anifeiliaid a gwrtaith. Mae'r rhain yn ymateb i amodau marchnad byd-eang yn hytrach nag angen lleol, a gallai hyn effeithio'n sylweddol ar fantais gystadleuol ffermydd Cymru.

- 3.3 Roedd un o'r ymatebion gan sefydliadau yn teimlo mai'r ffordd orau o effeithio ar fantais gystadleuol ffermydd Cymru oedd ystyried dull esblygol sy'n adeiladu ar y BPS presennol, yn hytrach na rhywbeth sy'n newid radical mewn natur cyllid yn ystod amser o ansicrwydd.



#### **4. Y Rôl mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ei Chwarae o Ran Rheoli Risg yn Wyneb Anwadalwch Prisiau'r Farchnad**

- 4.1 Yn ôl ymatebion y sefydliadau, mae nifer cynyddol o ffactorau yn creu anwadalwch o fewn y sector amaethyddol yng Nghymru. Yn gyntaf, roedd rhywfaint o bryder wrth i'r Deyrnas Unedig edrych tuag at ddatblygu cysylltiadau masnach rhyngwladol newydd, mae ffermydd Cymru'n debygol o ddod yn fwy agored i ffactorau byd-eang fel y tywydd, plâu, afiechyd a materion masnach. Y farn oedd ei bod yn bwysig rheoli'r effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu ffermwyr Cymru ac y byddai goblygiadau anferthol, yn ariannol, cymdeithasol ac o ran enw da yn dilyn pe na ddarperid cymorth i ffermwyr Cymru. Cydnabuwyd bod angen newidiadau sylfaenol i ymdrin â'r peryglon hyn, ond y dylid cymryd gofal neilltuol wrth ystyried yr effeithiau ehangach posibl a'r ansicrwydd a achosir gan Brexit. Teimlai'r ymatebwyr y gallai ffermwyr, gyda'r cymorth cywir, "adeiladu eu sgiliau, mabwysiadu dulliau newydd, ac arloesi i symud at fod yn fusnesau proffidiol, cynaliadwy yn yr hirymor".
- 4.2 Roedd ymatebion y sefydliadau o'r farn fod taliadau uniongyrchol wedi cael effaith sylweddol ar ddiogelu gallu ffermwyr Cymru i reoli anwadalwch. Roedd, felly, bryder y byddai cael gwared yn llwyr ar y BPS, heb gynigion eraill cryf i hybu cadernid busnesau, yn rhoi ffermydd Cymru yn agored i anwadalwch yn farchnad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny. Dywedodd un o'r ymatebwyr "dros y blynyddoedd diwethaf, mae taliadau uniongyrchol wedi bod yn rhwyd diogelwch allweddol i ffermwyr Cymru, gyda mwy na 80% o incwm ffermio yng Nghymru ar gyfartaledd yn deillio o gyllid yr Undeb Ewropeaidd"<sup>9</sup>. Y farn felly oedd ei bod yn hanfodol cael rhyw ffurf o "fecanwaith sefydlogrwydd" i ffermydd Cymru yn ystod adeg o anwadalwch y farchnad.

---

<sup>9</sup> <https://sites.cardiff.ac.uk/wgc/files/2016/07/AGRICULTURE.pdf>

- 4.3 Gwnaed rhai sylwadau ynghylch yr effaith y byddai'r cynnig pontio presennol yn ei gael ar gynyddu ansicrwydd a'r goblygiadau posibl i ffermwyr Cymru. Roedd ymatebion y sefydliadau'n awgrymu bod angen mwy eglurder er mwyn i ffermwyr Cymru allu rheoli'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â phontio i raglen newydd. Awgrymwyd bod ffermwyr eisoes yn gorfod rheoli risg anwadalwch prisiau marchnad hyd nes budd penderfyniadau clir wedi cael eu gwneud ynghylch dyfodol rheoli tir yng Nghymru.
- 4.4 Roedd pryder sylweddol ymysg ymatebion y sefydliadau na fyddai rhaglen y dyfodol yn gallu cynnig cymorth tebyg at reoli'r risg yn wyneb anwadalwch y farchnad. Dywedwyd ei bod yn hanfodol er mwyn amaethyddiaeth yng Nghymru cael rhyw ffurf o fesur sefydlogrwydd i ddiogelu ffermydd Cymru yn yr un ffordd ag mae'r BPS wedi'i wneud. Awgrymwyd y bydd cyfyngu a chael gwared ar daliadau uniongyrchol yn creu cyfnod o ansicrwydd ac anwadalwch i lawer yn y gymuned ffermio ac felly, cynigiwyd awgrymiadau am drydydd cynllun i redeg ochr yn ochr â'r Cynlluniau Nwyddau Cyhoeddus a Chadernid Economaidd i ddarparu sefydlogrwydd ariannol i fusnesau fferm a'r rheini sy'n dibynnu ar gadwyni cyflenwi amaethyddol, er mwyn osgoi'r "canlyniadau llym" y gallai anwadalwch ei achosi.
- 4.5 Roedd yr ymatebwyr yn pwysu fod angen darparu tystiolaeth glir y bydd unrhyw gynlluniau a ddaw i gymryd lle'r BPS yn gall darparu'r un graddau o sefydlogrwydd gan mae'r Cynllun yn ei ddarparu ar hyn o bryd. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen yn ofalus er mwyn caniatáu amser i ffermwyr addasu i gynlluniau newydd, yn hytrach nag achosi unrhyw risg diangen.

## **5. Cyfalafu Cynllun y Taliad Sylfaenol yn Werthoedd Tir a/neu Rhenti Ffermydd a'r Posibilrwydd o Fusnesau Fferm yn Cau**

- 5.1 Roedd rhai o ymatebion y sefydliadau yn ystyried yr effaith y byddai dirwyn taliadau uniongyrchol i ben yn ei gael ar werthoedd tir a/neu rhenti ffermydd. Y prif bryder a oedd yn codi o'r ymatebion hyn oedd y byddai colli'r BPS yn caniatáu mynediad at gyllid nad yw ar gael ar hyn o bryd ond i'r rheini sy'n bodloni'r rheol ffermwr gweithredol. Dywedwyd y gallai hyn arwain at unigolion, busnesau, ac elusennau, nad ydynt yn gwneud dim, neu fawr ddim, cyfraniad i'r sector amaethyddol na'r gymuned leol, yn prynu tir er mwyn ennill mynediad at gyllid. Teimlai'r ymatebion y gallai hyn gael sgil-ffaith wrth leihau'r swm o gyllid sydd ar gael i ffermwyr Cymru a chymunedau gwledig.
- 5.2 Roedd hefyd rhywfaint o bryder ymysg rhai o'r sefydliadau a ymatebodd y byddai'r cynnig presennol yn caniatáu i goedwigaeth preifat neu gyhoeddus ddod yn gymwys am daliadau. Teimlid yr un modd y byddai unrhyw gynnig o'r fath yn gwaethygu'r potensial o sefydliadau sy'n dirfeddianwyr mawr yn gwasgu ffermydd teuluol allan ac yn arwain at adael tir.

## 6. Pontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol

- 6.1 O'r ymatebion gan sefydliadau, y mater a oedd yn achosi'r mwyaf o gynnen oedd y broses o bontio o daliadau uniongyrchol i'r cynlluniau newydd arfaethedig. Yn benodol, roedd sefydliadau'n gofyn am fwy o dystiolaeth ar gyfer y newidiadau arfethedig, yn pryderu am gyflymder y pontio, yn cefnogi gweithredu graddol, ac yn mynegi awydd am gefnogaeth a symleiddio gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod o addasu economaidd.
- 6.2 Teimlai nifer o ymatebion y sefydliadau fod angen mwy o dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i gyfiawnhau'r hyn oedd yn cael ei ystyried fel "newidiadau radical". Roedd un o'r sefydliadau yn disgrifio'r cynigion fel "y newidiadau mwyaf radical i'r egwyddorion sy'n sail i gymorth gwledig ers Deddf Amaethyddiaeth 1947" ac wrth wneud hynny ei fod yn gofyn am "ddadansoddiadau manwl a thrylwyr o'r effeithiau posibl i fusnesau fferm yng Nghymru, cynhyrchu bwyd, y sectorau amaethyddol, economïau lleol ac ehangach, cadwyni cyflenwi amaethyddol, cyflogaeth a bywoliaethau, diwylliant ac iaith". Teimlai nifer o sefydliadau gwahanol nad oedd dystiolaeth dros y cynnig presennol ac felly roedd y sicrwydd a ddarperir yn y ddogfen ymgynghori yn brin o hygyrdd ac nad oeddent yn cynnig i fusnesau yr wybodaeth ddigonol mae arnynt ei angen yn ystod adeg o ansicrwydd.
- 6.3 Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch cyflymder y pontio. Dywedodd un o'r sefydliadau fod "Angen i raddfa'r pontio fod yn ddigon cyflym i fod yn weladwy a chaniatáu ar gyfer addasu prydlon ond yn ddigon arall i'r newid gael ei reoli gan bob busnes yr effeithir arno a chan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei chynlluniau newydd" a chafodd hyn ei ailadrodd ymysg y mwyafrif o ymatebion y sefydliadau. Roedd y rhaid yn cydnabod ei bod yn allweddol fod "amser a pharatoi sylweddol" yn cael ei neilltuo er mwyn i'r pontio ddigwydd yn llyfn ac roedd pryderon fod cyfnod pontio arfaethedig Llywodraeth Cymru yn sylweddol fyrrach na'r hyn ydyw yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Teimlid yn benodol y gallai graddfa'r pontio o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig arwain at amser annigonol i "lunio a datblygu, profi ac asesu effaith y graddau o newid a gynigir." Awgrymwyd hefyd fod angen i unrhyw gynlluniau ar gyfer pontio gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl i ddarparu sicrwydd i ffermydd Cymru wrth iddynt baratoi i fynd i'r afael â'r "ansicrwydd mwyaf mewn cenhedlaeth".

6.4 Ymysg ymatebion y sefydliadau roedd cefnogaeth glir i'r pontio gael ei weithredu mewn dull graddol o'r taliadau uniongyrchol i'r rhaglen rheoli tir newydd, gan ei fod yn cynnig "rheolaeth synhwyrol o'r newid". Awgymwyd y byddai defnyddio'r dull hwn yn caniatáu i wersi gael eu dysgu wrth i'r broses gael ei gweithredu, ac o ganlyniad, yn caniatáu addasu a fydd yn cynnig mwy sefydlogrwydd i'r sector amaethyddol fel cyfanrwydd. Y farn ymysg ymatebion y sefydliadau oedd bod hyn yn bwysig gan ei fod yn caniatáu i'r cynllun newydd fod yn weithredol ac yn hygyrch mewn modd prydlon a rhwystro "effaith twll du" a fyddai'n rhoi straen gormodol ar fusnesau ac yn effeithio ar hyfywedd hirdymor. Barnwyd mai cynnig o'r fath oedd y mwyaf effeithiol gan mai dyma fyddai'r ffordd symlaf a thecaf i'r holl ffermwyr addasu i'r cynlluniau newydd.

6.5 Roedd nifer o ymatebion y sefydliadau yn cynnig awgrymiadau ar gyfer ymdrin â'r addasu economaidd anochel a fyddai'n gysylltiedig â phontio o daliadau uniongyrchol i'r cynlluniau newydd. Yn gyntaf, y farn oedd ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn sylweddoli graddfa'r newid ac felly yr ail-gyfeirio sy'n ofynnol gan ffermwyr. Roedd felly rywfaint o gefnogaeth i daliad uniongyrchol ar gyfer pontio i amddiffyn busnesau fferm a allai ei chael yn anodd gyda'r addasu sydd ei angen yn ystod cyfnod o ansicrwydd. Roedd, fodd bynnag, awydd i beidio ag ailadrodd anfanteision prosesau pontio yn y gorffennol, fel a ddigwyddodd o Tir Mynydd i Glastir, er mwyn helpu'r rheini sydd mewn cynlluniau presennol i beidio â chael ei hanfanteisio. Yn ail, teimlai ymatebwyr y sefydliadau nad yw unrhyw oedi nac ansicrwydd yn fanteisiol i gynllunio busnes ar gyfer tarfu posibl, ac felly roeddent yn gofyn am fwy o sicrwydd ynghylch hyd a

natur y pontio, yn ogystal â'r rhaglen y pontir tuag ati. Yn olaf, teimlai'r sefydliadau y byddai addasu economaidd yn haws pe bai'r cymorth cywir yn ei le gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cymorth yn cynnwys:

- grantiau cyfalaf
- hyfforddiant
- cyngor busnes
- cymorth ar gyfer manteisio ar dechnoleg.

Barnwyd ei bod yn bwysig hefyd cynnal llinell sylfaen ddeddfwriaethol gref y tu hwnt i'r pontio gydag awydd fod hyn yn cael ei symleiddio i leihau biwrocratiaeth i ffermwyr.

- 6.6 Teimlai un o'r sefydliadau mai ffactorau amgylcheddol ddylai'r gyriant fod ar gyfer lleihau taliadau uniongyrchol wrth bontio i'r Rhaglen Rheoli Tir. Yn benodol, argymhellwyd y bydd y mater argyfyngus o ddirywiad amgylcheddol yn cael ei waethygu gyda chyfnod pontio hir ac felly mae angen i'r pontio symud yn ei flaen yn brydlon. Yn ogystal, roedd yr ymateb yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ddarparu sicrwydd, wrth bontio ac o fewn y rhaglen arfaethedig, er mwyn rheoli graddfa'r her amgylcheddol sy'n wynebu ffermwyr Cymru ar hyn o bryd. Hyn, yn eu barn hwy, fyddai'n darparu'r gwerth gorau am arian, yn ogystal â chynnig yr amddiffyniad amgylcheddol gorau.
- 6.7 Roedd un o'r sefydliadau'n awgrymu y byddai newid at "system cyntaf i'r felin" yn arwain at bontio llwyddiannus o daliadau uniongyrchol. Roeddent o'r farn y byddai dull o'r fath yn tynnu'r risg o'r broses ymgeisio, gan mai'r cylch gyntaf o ymgeiswyr fyddai'r rheini a oedd yn hyderus o'u gallu i fodloni'r meini prawf yn llwyddiannus.
- 6.8 Roedd un arall o'r sefydliadau o'r farn y dylid archwilio'r syniad o ddatgysylltu taliadau uniongyrchol o'r tir. Roeddent yn teimlo bod gan hyn y potensial i hwyluso ailstrwythuro cyflym y sector amaethyddol, ac i bob pwrpas yn creu mecanwaith cyllido i'r rheini mae arnynt eisiau gadael y diwydiant neu ddarparu cronfa fuddsoddi i baratoi ar

gyfer ymdrin ag ansicrwydd posibl Brexit. Yn eu barn hwy byddai hefyd yn rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gweithredu'r cynllun newydd ac yn caniatáu ar gyfer mwy o gymorth i newydd-ddyfodiaid, a allai hyrwyddo adnewyddu o fewn y sector amaethyddol.

## 7. Materion Eraill

- 7.1 Materion eraill a gododd o'r ymatebion gan sefydliadau oedd y byddai unrhyw gynllun a fyddai'n cymryd lle'r BPS yn y dyfodol yn cynnig cyfle i newid a symleiddio'r rheolau trawsgydymffurfio presennol. Awgrymwyd ymysg amrywiol sefydliadau y dylid cael gwared ar reolau 'gwyrddu' ac y gellid gwneud mwy i helpu gwella'r broses o dalu, rhyngweithiau trawsffiniol, cosbau, y gwasanaeth cysylltwyr fferm a chysylltedd digidol. Awgrymwyd hefyd y dylai fod mwy o oddefgarwch tuag at gosbi gyda chyflwyno ffyrddo fesur cymorth ar sail lefelau cydymffurfio cyffredinol. Roedd un o'r sefydliadau'n codi pryderon bod dadgysylltu taliadau uniongyrchol o'r tir tir yn golygu y byddai pob rheolaeth sy'n gysylltiedig â defnydd tir ar hyn o bryd yn diflannu. Eu pryder oedd y gallai hyn arwain at golli mesurau diogelu amgylcheddol oni bai bod mecanwaith gorfodi arall yn cael ei roi ar waith i gynnal a gwella ar safonau amgylcheddol presennol.
- 7.2 Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r pontio o daliadau uniongyrchol i drefn sy'n seiliedig ar ganlyniadau gyda chydabyddiaeth y byddai rhaglen o'r fath yn effeithio ar wahanol reolwyr tir mewn gwahanol ffyrdd ac felly ei bod yn allweddol bod "unrhyw arian sy'n cael ei ryddhau trwy ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflawni nwyddau cyhoeddus".
- 7.3 Pwysleisiwyd hefyd na ddylai taliadau yn y dyfodol am y cynllun nwyddau cyhoeddus "wobrwyo rheolwyr tir sy'n gwella o safon isel ar draul rheolwyr tir sydd eisoes yn cyflawni nwyddau cyhoeddus".
- 7.4 Caiff sylwadau pellach gan sefydliadau eu hamlinellu isod.
- Mae'r BPS yn darparu templed da i safonau'r Gymraeg ar gyfer y rhaglen newydd.
  - Awydd y bydd cynlluniau'r dyfodol yn cymell ffermwyr a rheolwyr tir i weithio gyda'i gilydd neu gyda thrydydd partion i gyflawni canlyniadau amgylcheddol.



- Mae'n hanfodol er mwyn denu diddordeb mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol fod gan gyfranogwyr yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol yng nghanlyniadau'r rhaglen.
- Dylai unrhyw gynlluniau arfaethedig symleiddio prosesau ymgeisio ac arolygu, gyda'r broses weinyddol yn llawer symlach nag y mae ar hyn o bryd.
- Gwneud cosbau yn fwy cymesur a chydabod gwallau anfwriadol.
- Dylai taliadau fod yn deg a hael ac yn gwneud synnwyr economaidd i fusnesau fferm yn ogystal â synnwyr amgylcheddol.